Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil gymdeithasol: 62/2025

Dyddiad cyhoeddi: 01/07/2025

# Coedwig Genedlaethol Cymru: Gwerthusiad Canol Tymor. Adroddiad Cam 1.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-894-2

Coedwig Genedlaethol Cymru: Gwerthusiad Canol Tymor

Adroddiad Cam 1

Awduron: Andy Parkinson, Anna Burgess, Megan Clark,

Dr Nikola Vousden a Rhys Maher.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Parkinson, A; Burgess, A; Clark, M; Vousden, N; Maher, R. (2025). Coedwig Genedlaethol Cymru: Gwerthusiad Canol Tymor. Adroddiad Cam 1. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 62/2025

Ar gael fan yma: https://www.llyw.cymru/coedwig-genedlaethol-cymru-gwerthusiad-canol-tymor-adroddiad-cam-1

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Tîm Ymchwil Hinsawdd a'r Amgylchedd

Is-Adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays
Caerdydd

CF10 3NQ

ymchwilhinsawddacamgylchedd@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Coedwig Genedlaethol Cymru: Gwerthusiad Canol Tymor .......... 1

Adroddiad Cam 1 .......... 1

Rhestr o dablau .......... 2

Rhestr o ffigurau .......... 3

Rhestr termau .......... 4

1. Cyflwyniad/Cefndir .......... 5

2. Methodoleg .......... 10

3. Canfyddiadau .......... 15

4. Canlyniadau ac Effeithiau sy'n Dod i'r Amlwg .......... 45

5. Casgliadau .......... 52

6. Argymhellion .......... 55

7. Atodiad A: Gwersi a Ddysgwyd o Gynllun Prosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol .......... 56

8. Atodiad B: Astudiaethau achos .......... 59

9. Atodiad C: Offer Ymchwil .......... 70

# Rhestr o dablau

Tabl 3.1 Proffil grantiau’r Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd ............................................ 19
Tabl 3.2 Proffil grantiau Coetiroedd Bach ........................................................................ 25
Tabl 3.3 Nifer y grantiau a'r safleoedd Coetiroedd Bach yn ôl ardal awdurdod lleol ............ 25
Tabl 3.4 Dosbarthiad safleoedd y Cynllun Statws yn ôl math o dirfeddiannwr ..................... 30
Tabl 3.5 Cyfraniad y ceisiadau a aseswyd at Ganlyniadau’r Goedwig Genedlaethol........... 33

# Rhestr o ffigurau


Ffigur 3.1 Nifer o safleoedd y Cynllun Statws yn ôl ardal awdurdod lleol ............................. 28

Ffigur 3.2 Hectarau safleoedd y Cynllun Statws yn ôl ardal awdurdod lleol ......................... 29

Ffigur 4.1 Cynnydd y sefydliadau a dderbyniodd grant yn erbyn cyflawni canlyniadau'r Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd ........................................................................ 46

# Rhestr termau

**Acronym a diffiniad**

CIC – Cwmni Buddiannau Cymunedol

CNC – Cyfoeth Naturiol Cymru

# 1. Cyflwyniad/Cefndir

Nododd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i greu Coedwig Genedlaethol Cymru yng Ngwanwyn 2020. Daeth hyn yn wreiddiol o faniffesto arweinyddiaeth y Prif Weinidog a'r bwriad oedd creu Coedwig Genedlaethol ar hyd a lled Cymru, gan ei gwneud yn hygyrch i bawb. Mae'r Goedwig Genedlaethol yn brosiect cenedlaethol, dros gyfnod o ddegawdau, ar raddfa debyg i Lwybr Arfordir Cymru, sef llwybr troed arfordirol parhaus 870 milltir o hyd sy'n ymestyn ar hyd arfordir Cymru gyfan. Yn dilyn y cyhoeddiad i greu Coedwig Genedlaethol, cyflawnwyd cynllun arddangos yn ystod blwyddyn ariannol 2020 i 2021. Bwriad y cynllun hwn oedd cychwyn gweithgaredd ar lawr gwlad a phrofi gwahanol ddulliau ariannu a chyflawni i lywio cynlluniau i ddatblygu a chyflawni'r Goedwig Genedlaethol. Roedd Cynllun Arddangos y Goedwig Genedlaethol yn cynnwys pedwar cynllun ar wahân:

- Cynllun Coetiroedd Cymunedol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (roedd y cynllun hwn yn rhedeg dros ddwy flynedd tra bod y rhai isod sy'n weddill wedi'u cyflawni dros un flwyddyn)
- Cadwch Gymru'n Daclus
  - Coetiroedd Bach
  - Plannu coed mewn ysgolion – yn cael ei gyflawni drwy Raglen Eco-Ysgolion
- Cynllun Gwella Coetiroedd Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth

Gwerthuswyd y cynllun yn 2021 a chyhoeddwyd yr adroddiad ddechrau 2022 (Falzon, Tanner a Welford, 2022). Darperir canfyddiadau allweddol o'r gwerthusiad hwn yn Atodiad A.

Nod y Goedwig Genedlaethol yw adfer a chynnal coetiroedd presennol a'u cysylltu ag ardaloedd o goetiroedd newydd trwy blannu coed. Mae rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol yn cael ei sefydlu drwy ddod â safleoedd presennol o goetir i mewn i'r rhwydwaith. Yn hydref 2020, cyhoeddwyd 14 safle cyntaf y Goedwig Genedlaethol, a oedd yn rhan o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ac yn cael eu rheoli a'u cynnal gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Mae Rhaglen Lywodraethu gyfredol 2021 – 2026, a ddiweddarwyd i adlewyrchu'r Cytundeb Cydweithredu â Phlaid Cymru, yn parhau â'r ymrwymiad hwn i 'greu Coedwig Genedlaethol i ymestyn o’r Gogledd i'r De.' [troednodyn 1]

Yn dilyn cynllun Prosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol, datblygodd Llywodraeth Cymru fodel cyflawni’r Goedwig Cenedlaethol i gefnogi a pharatoi safleoedd o goetir i ymuno â rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol. Mae'r model hwn yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau cyflawni gan gynnwys rolau staff, cyllid, adnoddau, a Chynllun Statws y Goedwig Cenedlaethol. Caiff manylion pob un o’r dulliau cyflawni a'u nodau eu darparu yn Adran1.1 isod.

**Troednodiadau**

[1] Gyda'n gilydd gallwn ni greu Coedwig Genedlaethol ar hyd a lled Cymru. 12 Mawrth 2020.

## 1.1. Trosolwg o’r dulliau cyflawni

### 1.1.1. Y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd

- Dyddiad cyflwyno: Mehefin 2022
- Nod: Cynorthwyo i greu, gwella ac adfer coetiroedd, gan ddatblygu ffrwd o safleoedd y Goedwig Genedlaethol i’r dyfodol.

Agorodd y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd i geisiadau ym mis Mehefin 2022 ar ô i’r cynllun peilot gael ei gyflawni'n llwyddiannus yn 2021. Ym mis Chwefror 2025, mae'r gweithgareddau sy’n cael eu hariannu gan y grant yn dal i gael eu cyflawni. Caiff y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd ei weinyddu ar ran Llywodraeth Cymru gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol sydd hefyd yn cyfrannu cyllid at y cynllun. Mae'r grant yn darparu cymorth ariannol i bobl greu, gwella ac adfer coetiroedd presennol yn unol â Safon Coedwigaeth y DU. Nod y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd yw datblygu cyfres o safleoedd a allai fod yn rhan o'r Goedwig Genedlaethol yn y dyfodol.

### 1.1.2. Fy Nghoeden, Ein Coedwig

- Dyddiad cyflwyno: Tachwedd 2022
- Nod: Darparu coed i gartrefi a thirfeddianwyr i’w hybu i blannu coed a gwneud cyfraniadau cynnar i Goedwig Genedlaethol Cymru.Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddwyd Fy Nghoeden, Ein Coedwig. Dyluniwyd y fenter hon i dyfu Coedwig Genedlaethol Cymru, aelwyd wrth aelwyd. Hwylusodd Coed Cadw dros 50 o hybiau, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Llais y Goedwig. Gallai aelwydydd gasglu coeden o'r hybiau hyn yn rhad ac am ddim neu drefnu iddynt gael eu danfon i'w cartref. Rhoddwyd cyfle hefyd i dirfeddianwyr (gan gynnwys grwpiau cymunedol) blannu coed fel rhan o fenter 'Plannu Coeden i Mi'. Roedd 200,000 o goed ar gael i'w rhoi i ffwrdd trwy Fy Nghoeden, Ein Coedwig i ddechrau. Parhaodd y fenter tan fis Mawrth 2023.

### 1.1.3. Swyddogion Cyswllt Coetiroedd

- Dyddiad cyflwyno: Medi 2022
- Nod: Cefnogi perchnogion coetiroedd drwy Gynllun Statws y Goedwig Genedlaethol, cyfeirio at gyfleoedd cyllido, a darparu canllawiau ar reoli coetiroedd.

Ym mis Mawrth 2023, gwnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi Swyddogion Cyswllt Coetiroedd Coedwig Genedlaethol Cymru wedi'u lleoli yng Nghyfoeth Naturiol Cymru.[troednodyn 2] Sefydlwyd eu rôl i helpu i hwyluso a galluogi perchnogion coetiroedd yn eu huchelgeisiau i greu a gwella coetiroedd a datblygu rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru. Mae hyn yn golygu cynorthwyo perchnogion coetiroedd i greu a gwella safleoedd coetiroedd, cyfeirio at gynlluniau perthnasol a chyflawni Cynllun Statws y Goedwig Cenedlaethol a ddisgrifir yn Adran 3.2.

**Troednodiadau**

[2] Noder bod tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd wedi'i ffurfio gyntaf ym mis Medi 2022, ac roedd holl aelodau'r tîm wedi'u recriwtio erbyn mis Ionawr 2023.

Mae'r Swyddogion Cyswllt Coetiroedd hefyd yn cynnig cyngor ynghylch ceisiadau am y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd ac ar gyfer Coetiroedd Bach, cynllun grant sydd hefyd yn cael ei ddarparu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a agorodd ym mis Ebrill 2023 gyda'r nod o greu 100 o 'Goetiroedd Bach' rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2025.

#### 1.1.4. Grant Coetiroedd Bach

- Dyddiad cyflwyno: Ebrill 2023
- Nod: Creu 100 o 'Goetiroedd Bach' ledled Cymru rhwng 2023 a 2025 i wella bioamrywiaeth a mannau gwyrdd.

#### 1.1.5. Cynllun Statws Coedwig Genedlaethol Cymru

- Dyddiad cyflwyno: Mehefin 2023
- Nod: Galluogi coetiroedd i ymuno â rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol drwy fodloni Canlyniadau'r Goedwig Genedlaethol a chynnal cynllun rheoli coetiroedd.Ym mis Mehefin 2023, agorodd Cynllun Statws Coedwig Genedlaethol Cymru i alluogi coetiroedd nad ydynt yn rhan o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru i ymuno â rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol, gan gynnwys sefydliadau nid-er-elw a pherchnogion preifat sy'n rheoli neu sy'n berchen ar goetiroedd yng Nghymru. I sicrhau statws, rhaid i ymgeiswyr ddangos sut mae eu safle yn bodloni Canlyniadau'r Goedwig Genedlaethol (a amlinellir isod). Mae un canlyniad hanfodol y mae'n rhaid ei gyflawni (a'i ddangos drwy gael cynllun rheoli coetir ar waith) ac mae'r canlyniadau sy'n weddill yn ddymunol ond nid yn hanfodol.

Y chwe chanlyniad lefel uchel ar gyfer Cynllun Statws Coedwig Genedlaethol Cymru yw:

Canlyniad hanfodol:

- Coetiroedd gwydn o ansawdd uchel, wedi'u dylunio a rheoli'n dda.

Canlyniadau dymunol

- coetiroedd sy'n hygyrch i bobl
- y gymuned yn cymryd rhan mewn coetiroedd
- coetiroedd cysylltiedig
- coetiroedd a choed deinamig, amlbwrpas
- coetiroedd sy'n dangos dysgu, ymchwil ac arloesi.

Nid cyfle ariannu yw'r Cynllun Statws. Mae'n gyfle i fod yn rhan o rwydwaith o goetiroedd ledled Cymru. Dechreuodd cyfarfodydd y rhwydwaith ym mis Mawrth 2024. O fewn y rhwydwaith hwn, mae gan safleoedd fynediad at ystod eang o gefnogaeth gan eu Swyddog Cyswllt Coetiroedd ac adnoddau gan gynnwys gweminarau ar-lein, cyfleoedd i rannu, dysgu a chydweithio â rheolwyr safleoedd eraill, digwyddiadau wyneb yn wyneb, arwyddion a byrddau gwybodaeth, ffotograffiaeth a lluniau fideo proffesiynol a hyrwyddo am ddim trwy Croeso Cymru.

## 1.2. Cefndir deddfwriaethol a pholisi

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru (a chyrff cyhoeddus eraill Cymru) i'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy. Mae'r egwyddor yn cyflwyno'r bwriad i gefnogi lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, gan ddiwallu anghenion pobl nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod Llesiant, gan gynnwys 'Cymru gydnerth' sy'n hyrwyddo amgylcheddau naturiol bioamrywiol sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a 'Chymru iachach' sy'n gwneud y mwyaf o lesiant corfforol a meddyliol pobl.

Mae amcanion cyffredinol rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn ymateb yn uniongyrchol i'r amcanion a amlinellir yn y Ddeddf. Yn fwyaf nodedig drwy ddiogelu natur a mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth drwy sicrhau coetiroedd gwydn o ansawdd da, wedi'u dylunio a'u rheoli'n dda, a thrwy gefnogi iechyd a lles cymunedau drwy annog cyfranogiad cymunedol mewn coetiroedd.

Rhoddodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 rym cyfreithiol i ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau ecosystemau iach, gwydn a chynhyrchiol ar gyfer y dyfodol wrth fynd i'r afael â heriau creu swyddi, tai a seilwaith. Mae'r Ddeddf yn nodi dyletswydd i osod targedau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac i reoli adnoddau naturiol mewn ffordd sy'n meithrin cydnerthedd systemau natur. Mae'r Ddeddf yn ceisio cefnogi'r amgylchedd naturiol i barhau i ddarparu buddion dros y tymor hir. Mae dyluniad Coedwig Genedlaethol Cymru yn gyson â'r Ddeddf hon gan ei fod yn ceisio darparu manteision amgylcheddol tymor hwy a gwaddol parhaol i genedlaethau'r dyfodol trwy'r rhwydwaith o safleoedd.

Mae amcanion cyffredinol Coedwig Genedlaethol Cymru yn deillio o Strategaeth Coetiroedd i Gymru sy'n amlinellu strategaeth 50 mlynedd ar gyfer coetiroedd a choed yng Nghymru. Mae'r weledigaeth yn y fersiwn gyfredol o'r strategaeth a gyhoeddwyd yn 2018 yn parhau'r un fath ag yr oedd yn 2001, sef y bydd 'Bydd Cymru yn adnabyddus am ei choetiroedd o ansawdd uchel sy'n gwella'r dirwedd, sy'n briodol i amgylchiadau lleol ac sydd â chymysgedd amrywiol o rywogaethau a chynefinoedd'.

Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â'r fframwaith ehangach sy'n cael ei darparu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Deddf yr Amgylchedd (2016) sy'n cyflwyno'r Nodau a'r Egwyddorion Llesiant ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae Strategaeth Coetiroedd i Gymru yn nodi uchelgais i gyflawni cyfradd blannu o o leiaf 2,000ha bob blwyddyn. Dylai gorchudd coed yn yr amgylchedd ehangach gynyddu hefyd. Wrth wraidd y strategaeth mae'r nod o gynyddu'r gyfradd plannu coed i helpu i ehangu coetiroedd a sicrhau rheolaeth dda o goetiroedd gyda choed sy'n addas ar gyfer yr amgylchedd lleol a chymysgedd amrywiol o rywogaethau a chynefinoedd.

Mae'r strategaeth wedi'i hadeiladu o amgylch pedair thema strategol, ac mae pob un yn gysylltiedig â nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).

- ymateb i newid hinsawdd – drwy leihau ôl troed carbon a chefnogi cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon isel;
- coetiroedd i bobl – sy'n gwasanaethu anghenion lleol o ran iechyd, addysg a swyddi ac yn cefnogi lles pobl a chymunedau yn ehangach;

- sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig – cefnogi diwydiannau a gweithwyr arloesol a medrus, hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth, a sicrhau gwaith gweddus;
- ansawdd amgylcheddol – cefnogi gwelliannau i amgylcheddau naturiol bioamrywiol ac ecosystemau sy'n hybu gwytnwch.

Mae rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn cwmpasu’r pedair thema a amlinellir yn Strategaeth Coetiroedd i Gymru.

## 1.3. Nodau ac amcanion ymchwil

Ym mis Mehefin 2024, gwnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Wavehill i gynnal gwerthusiad annibynnol o raglen Coedwig Genedlaethol Cymru. Bwriad y gwerthusiad yw cwmpasu'r ddarpariaeth o ddiwedd 2022 i ddiwedd 2024, gan ddefnyddio methodolegau gwerthuso prosesau ac effaith. Prif amcanion y gwerthusiad yw:

- gwerthuso’r modd y mae Coedwig Genedlaethol Cymru wedi’i chyflawni hyd yn hyn, gan gynnwys staff cymorth wedi’u hariannu a chyllid grant sydd ar gael i dirfeddianwyr i helpu i lywio argymhellion ar gyfer modelau cyflawni yn y dyfodol.
- deall sut mae cymunedau ac aelodau'r cyhoedd yn gweld y Goedwig Genedlaethol ac unrhyw brofiadau hyd yn hyn.
- argymell dyluniad ar gyfer asesu effaith yn y dyfodol, gan gynnwys yr hyn y dylid ei gynnwys yn y rhaglen i helpu i werthuso effaith.

Mae'r adroddiad Cam 1 hwn yn canolbwyntio ar gyflawni rhaglen y Goedwig Genedlaethol o 2022 ymlaen, gan gynnwys ei dulliau cyflawni, rolau staff, cyllid a chynllun Statws y Goedwig Genedlaethol.

Bydd cam nesaf y gwerthusiad yn canolbwyntio ar archwilio barn a phrofiadau aelodau'r cyhoedd mewn perthynas â'r Goedwig Genedlaethol a safleoedd y Goedwig Genedlaethol a deall y methodolegau gwerthuso effaith y gellid eu defnyddio i werthuso'r Goedwig Genedlaethol yn y dyfodol.

Ni fydd y gwerthusiad yn ceisio mesur effeithiau amgylcheddol cyflawniad cynllun y Goedwig Genedlaethol gan nad dyma ffocws yr ymchwil a gomisiynwyd.

## 1.4. Strwythur a chynnwys yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn wedi'i rannu i'r adrannau canlynol:

- Methodoleg
- Canfyddiadau
- Canlyniadau ac Effeithiau sy'n Dod i'r Amlwg
- Casgliadau
- Argymhellion
- Atodiadau.

# 2. Methodoleg

Mae'r adran hon yn nodi'r fethodoleg, gan roi manylion yr ymchwil a gynhaliwyd rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2024 a'r tasgau allweddol sydd eto i'w gwneud. Caiff trosolwg o'r dull gwerthuso, y camau a'r tasgau allweddol ei ddarparu isod. Mae'r adroddiad cam un hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu gwerthusiad proses o raglen Coedwig Genedlaethol Cymru ar gyfer y cyfnod 2022 i 2024.

Casglwyd data gan ddefnyddio dull cymysg, gan driongli ffynonellau data ansoddol a meintiol i adeiladu sylfaen dystiolaeth gadarn a chynhwysfawr a helpodd y tîm gwerthuso i fynd i'r afael â'r cwestiynau gwerthuso allweddol, fel a nodir isod (Adran 2.3). Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â chwestiynau 1-8. Bydd cam nesaf y gwerthusiad yn mynd i'r afael â chwestiwn 9 ac yn archwilio cwestiynau 2, 3, 4, 5 ac 8 yn fanylach.

## 2.1. Cwestiynau Ymchwil

Mae'r cwestiynau ymchwil sy'n llywio'r gwerthusiad hwn wedi'u hamlinellu isod. Mae pob cwestiwn yn ymwneud â maes ffocws penodol o fewn y gwerthusiad.

### 2.1.1. Cwestiynau Ymchwil – Cyflawniad

1. Beth sydd wedi gweithio'n dda a beth y gellid ei wella ynglŷn â chyflawniad y Goedwig Genedlaethol hyd yn hyn?
2. A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol wedi bod o ganlyniad i gyflawniad y Goedwig Genedlaethol?
3. Pa mor dda y nodwyd a lliniarwyd risgiau i weithgareddau ac allbynnau o fewn y Goedwig Genedlaethol – i ba raddau a sut yr effeithiodd y risgiau hyn ar weithgareddau neu allbynnau?
4. Pa mor effeithiol y mae cymunedau (gan gynnwys cymunedau Cymraeg) yn cael eu cynnwys yng nghyflawniad y Goedwig Genedlaethol? A yw'r rhai sy'n gysylltiedig wedi'u lleoli'n bennaf ger safleoedd sydd wedi’u dewis?
5. A oes grwpiau penodol lle bu unrhyw rwystrau i gymryd rhan yng nghyflawniad y Goedwig Genedlaethol?
6. Yn seiliedig ar dystiolaeth y gwerthusiad, pa elfennau a argymhellir i'w bwrw ymlaen ar gyfer model cyflawni’r Goedwig Genedlaethol yn y dyfodol ar ôl 2025?

### 2.1.2. Cwestiwn Ymchwil - Yr Iaith Gymraeg

7. Beth yw profiadau sefydliadau ac unigolion sydd wedi dewis gwneud cais i gynlluniau ariannu neu'r cynllun Statws yn y Gymraeg o ran ymgeisio a chyflawni?

### 2.1.3. Cwestiwn Ymchwil - Cynllun Statws y Goedwig Cenedlaethol

8. I ba raddau y mae safleoedd wedi newid dulliau rheoli eu safleoedd o ganlyniad i wneud cais am Statws y Goedwig Genedlaethol neu ennill y Statws hwnnw?

#### 2.1.4. Cwestiwn Ymchwil – Methodolegau Gwerthuso Effaith

9. Pa ddulliau gwerthuso effaith fyddai'n addas i'w defnyddio i werthuso'r Goedwig Genedlaethol yn y dyfodol?

### 2.2. Dulliau dadansoddi

Oherwydd y dulliau cymysg o ran data, mae'r ffynonellau data wedi'u croesgyfeirio â'i gilydd a'u dadansoddi'n thematig. Mae data ansoddol o gyfweliadau ac ymatebion testun agored mewn arolwg wedi'u codio gan ddefnyddio fframwaith thematig wedi'i strwythuro yn erbyn y cwestiynau ymchwil allweddol. Roedd hyn yn galluogi darllen ar draws yr amryw ddulliau gwaith maes i ganfod themâu cyffredin, asesu cyffredinolrwydd a chanfod unrhyw safbwyntiau neu farn wahanol a fynegwyd gan wahanol grwpiau o randdeiliaid. Dadansoddwyd yr holl ddata ansoddol yn thematig gan ddefnyddio methodolegau theori sylfaeno (Bryman,1998; Denzin a Lincoln, 2000). Mae hyn yn golygu bod yr ymchwil wedi casglu a dadansoddi data ac yna wedi galluogi damcaniaethau i ddod i'r amlwg. Mae'r broses hon wedi bod yn un gasgliadol, gyda dealltwriaeth wedi'i chynhyrchu o ddadansoddi'r data ansoddol.

Dadansoddwyd data meintiol gan ddefnyddio cyfrifiadau amlder safonol a chroesdablau i ddadansoddi ymatebion yn seiliedig ar y dull/dulliau cymorth yr oedd gan safleoedd brofiad ohonynt. Mae data ffynhonnell eilaidd, gan gynnwys gwybodaeth fonitro a gasglwyd gan dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd, wedi'i adolygu ynghyd â dogfennau polisi a strategaeth perthnasol i gefnogi asesiadau a wnaed mewn perthynas â chyflawni rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru ers 2022.

### 2.3. Cyflawni gwaith maes

Mae'r gweithgareddau gwerthuso allweddol wedi cynnwys y canlynol:

- Cyfweliadau ansoddol manwl lled-strwythuredig a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid o Lywodraeth Cymru, a'r rhai sy'n darparu'r dulliau cymorth yn CNC, Coed Cadw, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Llais y Goedwig. Cwblhawyd cyfanswm o 10 cyfweliad. Defnyddiwyd y cyfweliadau hyn i ddatblygu dealltwriaeth o gyd-destun a datblygiad y rhaglen a chasglu safbwyntiau ar ei chyflawniad ers 2022. O hyn ymlaen, caiff y term rhanddeiliaid ei ddefnyddio i gyfeirio at y grŵp hwn.
- Ymweliadau safle cychwynnol gyda chwe aelod o dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd, gydag un ym mhob un o'r rhanbarthau datganiadau ardal. Cwblhawyd y chwe ymweliad safle hyn ym mis Awst a mis Medi 2024 ac roeddent yn cynnwys cyfweliadau ansoddol manwl gyda phob Swyddog Cyswllt Coetiroedd. Roedd yr ymweliadau safle a'r cyfweliadau hyn yn canolbwyntio ar gasglu adborth gan y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd ynghylch eu profiadau o gyflawni hyd yn hyn ac unrhyw feysydd yr oeddent yn awgrymu lle gallai'r rhaglen wneud gwelliannau.
- Ymweliad personol ag un safle ym mhob rhanbarth datganiad ardal, sy'n cyfateb i chwe safle i gyd. Defnyddiwyd yr ymweliadau hyn i ymgynghori ag amrywiaeth o sefydliadau sydd wedi ymgysylltu â thîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd a

rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru. Dewiswyd y safleoedd yn seiliedig ar argymhellion a ddarparwyd gan dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd ac er mwyn ymgysylltu â gwahanol fathau o dirfeddianwyr. Roedd y chwe safle a ddewiswyd ar gyfer ymweliadau yn cynnwys cymysgedd o fathau o dirfeddianwyr (e.e. preifat, cymunedol, elusennol) yn ogystal â'r rhai a oedd wedi ymuno â'r Cynllun Statws a'r rhai a oedd yn gweithio tuag at wneud cais.

- Rhoddodd y chwe ymweliad safle hyn gyfle i gyfarfod â thimau staff o'r sefydliadau dan sylw a'u cyfweld. Cyfwelwyd â chyfanswm o 9 aelod o staff ar draws y chwe ymweliad â'r safle. Cynhaliwyd trafodaethau lled-strwythuredig hefyd gyda 10 o wirfoddolwyr. Cynhaliwyd yr ymweliadau safle rhwng mis Hydref a mis Tachwedd 2024. Cyfeirir at adborth a’r hyn a ddysgwyd o'r ymweliadau safle hyn mewn mannau priodol drwy gydol yr adroddiad. Mae astudiaethau achos dienw wedi'u cynhyrchu ar gyfer pob safle i ddangos yr ystod o safleoedd dan sylw a'u taith i mewn i'r rhwydwaith ac fe'u cyflwynir yn llawn yn Atodiad B.
- Dosbarthwyd arolwg ar-lein ddiwedd mis Hydref 2024 i sefydliadau/safleoedd sydd wedi ymuno â Chynllun Statws Coedwig Genedlaethol Cymru yn ogystal â derbynwyr naill ai’r Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd neu Goetiroedd Bach. Dosbarthwyd hwn i 225 o gysylltiadau a ddarparwyd gan CNC a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, ac roedd 37 ohonynt yn aelodau o'r Cynllun Statws a 188 yn gysylltiadau nad oeddent yn rhan o'r Cynllun Statws (unigolion/sefydliadau sydd wedi ymgysylltu â thîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd ac wedi cael eu cefnogi ganddynt). Defnyddiwyd dau nodyn atgoffa i helpu i hybu'r gyfradd ymateb.
- Derbyniwyd ymatebion i'r arolwg ar-lein gan 46 o ymatebwyr, sy'n cyfateb i gyfradd ymateb o 20%. Roedd hyn yn cynnwys 31 o ymatebion gan Aelodau’r Cynllun Statws (cyfradd ymateb o 84%) a 15 o ymatebion gan gysylltiadau nad ydynt yn aelodau o’r Cynllun Statws (cyfradd ymateb o 8%). Cymerwyd gofal wrth ddehongli ymatebion gan y garfan o gysylltiadau nad ydynt yn rhan o'r Cynllun Statws o ystyried nad yw'r rhain o reidrwydd yn gynrychioliadol o'r ystod ehangach o sefydliadau sydd wedi ymgysylltu â nhw neu a gefnogwyd gan dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd.
- Roedd gan ymatebwyr yr arolwg brofiad o dderbyn cymorth drwy ystod o ddulliau’r Goedwig Genedlaethol, gan gynnwys: Fy Nghoeden, Ein Coedwig (pump ymatebydd); y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd (24 ymatebydd); Coetiroedd Bach (wyth ymatebydd); a chymorth ehangach gan dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd (33 ymatebydd). Derbyniodd ugain o'r ymatebwyr gymorth gan fwy nag un dull.
    - O'r 55 o ymatebwyr, nid oedd pedwar wedi gwneud cais i unrhyw un o'r dulliau cymorth ac felly cawsant eu hepgor o'r arolwg. Nid oedd pump o ymatebwyr eraill wedi derbyn unrhyw gymorth gan ddulliau’r Goedwig Genedlaethol a chawsant hwythau eu hepgor o'r arolwg hefyd. Cynhwyswyd saith ymateb lle nad oedd y cyfranogwr wedi cwblhau’r arolwg llawn. Yn olaf, ni ddewisodd pob ymatebydd ateb

pob cwestiwn sy'n golygu y bydd y nifer sylfaenol a nodir ar gyfer pob cwestiwn yn amrywio.

- Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg a fyddent yn fodlon cymryd rhan mewn cyfweliad manwl. Rhoddodd cyfanswm o 22 o ymatebwyr eu manylion cyswllt fel bod modd cysylltu â nhw i drefnu cyfweliad dilynol. O'r rhain, cwblhawyd cyfweliadau'n llwyddiannus ag 13 o unigolion ym mis Tachwedd 2024 ac ni wnaeth y 9 sy'n weddill ymateb i'r cais am gyfweliad. O'r 13 unigolyn hyn, roedd 8 yn aelodau o'r Cynllun Statws, 3 yn derbynnydd y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd, 1 yn dderbynnydd grant Coetiroedd Bach ac 1 a oedd wedi derbyn cymorth gan Swyddog Cyswllt Coetiroedd ond a benderfynodd beidio â bwrw ymlaen ymhellach â dulliau'r Goedwig Genedlaethol.
- Cynhaliwyd adolygiad desg a oedd yn cynnwys yr Adroddiadau Gweithgarwch Chwarterol a baratowyd gan CNC ac a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru, dogfennau polisi a strategaeth perthnasol, a Chanllawiau a Ffurflen Gais Cynllun Coedwig Genedlaethol Cymru.
- Gwnaeth Wavehill dderbyn ac adolygu data a wnaed yn ddienw o geisiadau i Goedwig Genedlaethol Cymru gan 37 o ymgeiswyr llwyddiannus. Noder mai'r 37 cais hyn oedd yr unig geisiadau oedd ar gael ar adeg cynnal y dadansoddiad. Roedd yr ymarfer hwn yn ddefnyddiol wrth ddeall uchelgeisiau'r ymgeiswyr priodol ar gyfer eu safle a'u hymatebion i'r chwe chanlyniad sy'n llywodraethu'r cynllun. Gan fod y data hwn wedi'i wneud yn ddienw, ni fu'n bosibl gwneud cysylltiadau rhyngddo â'r ymatebion i'r arolwg na'r cyfweliadau manwl.
- Bod yn bresennol mewn digwyddiad rhwydweithio Coedwig Genedlaethol Cymru a gynhaliwyd ym Mryn Arau Duon yn Sir Gaerfyrddin ar 15 Hydref 2024. Defnyddiwyd hwn fel cyfle i arsylwi'r cyfarfod a chael dealltwriaeth o fformat a chyflawniad Rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru. Ni chafodd ei ddefnyddio fel rhan o unrhyw waith casglu data ffurfiol am y rhwydwaith.

## 2.4. Cyfyngiadau

Ym mis Chwefror 2025, mae'r Goedwig Genedlaethol yn cynnwys 26 bloc sy'n rhan o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys nifer o safleoedd coetir a reolir gan CNC, a 55 o safleoedd nad ydynt yn rhan o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru a ymunodd trwy Gynllun Statws y Goedwig Genedlaethol ac sy'n cael eu rheoli gan dirfeddianwyr eraill.[troednodyn 3] Hyd yn hyn, mae'r gwerthusiad hwn wedi canolbwyntio ar y safleoedd nad ydynt yn safleoedd Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Mae hyn oherwydd nad yw safleoedd Ystad Goetir Llywodraeth Cymru wedi bod yn derbyn dulliau cymorth Cynllun Statws y Goedwig Cenedlaethol. Rhagwelir y bydd mwy o ymgysylltiad â safleoedd Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yng Nghyfnod 2 y gwerthusiad.

Dosbarthwyd yr arolwg i 37 o'r 55 o safleoedd nad ydynt yn safleoedd Ystad Goetir Llywodraeth Cymru sydd wedi ymuno â'r Cynllun Statws. Gwnaeth deunaw safle gais am

**Troednodiadau**

[3] Yn gywir ar 7$^{fed}$ Hydref 2024. Data wedi'i ddarparu gan CNC. Mae rhestr lawn o safleoedd y Goedwig Genedlaethol ar gael ar dudalen we rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru.

statws tra bod y gwaith maes gwerthuso yn mynd rhagddo ac nid oedd eu statws wedi'i gadarnhau ar yr adeg y dosbarthwyd yr arolwg. Felly, nid yw’r adborth gan y rhai a ymatebodd i'r arolwg o reidrwydd yn gynrychioliadol o'r garfan gyfan o 55 o safleoedd nad ydynt yn safleoedd Ystad Goetir Llywodraeth Cymru sydd wedi ymuno â Chynllun Statws Coedwig Genedlaethol Cymru.

# 3. Canfyddiadau

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn cyflwyno'r canfyddiadau sy'n ymwneud â chyflawni rhaglen y Goedwig Genedlaethol ers 2022. Mae'n cynnwys asesiad o ba mor effeithiol y mae cysyniad y Goedwig Genedlaethol wedi'i gyfleu a'i ddeall, sut mae'r dulliau cyflawni wedi'u gweithredu, y cynnydd o ran creu rhwydwaith o safleoedd coetir drwy'r Cynllun Statws, ac ymdrechion i hybu'r arfer o rannu'r hyn a ddysgwyd ar draws safleoedd drwy sefydlu Rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru.

Noder bod Rhaglen y Goedwig Genedlaethol yn cynnwys ystod o ddulliau cyflawni (caiff manylion y dulliau cyflawni eu darparu yn Adran 1.1). Er bod pob dull cyflawni yn cefnogi'r rhaglen ehangach, nid yw'r dulliau cyflawni unigol e.e. Swyddogion Cyswllt Coetiroedd a'r Cynllun Statws, yn gyfrifol am gyflawni'r Rhaglen Goedwig Genedlaethol lawn.

## 3.1. Cysyniad Coedwig Genedlaethol Cymru

Mae tarddiad y cysyniad ar gyfer y Goedwig Genedlaethol i'w weld yn Strategaeth Coetiroedd i Gymru sy'n amlinellu strategaeth 50 mlynedd ar gyfer coetiroedd a choed yng Nghymru. Mae Strategaeth Coetiroedd i Gymru yn nodi uchelgais i gyflawni coetiroedd o ansawdd uchel sy'n cyfrannu at amgylchedd o ansawdd gwell ledled Cymru, yn cefnogi diwydiannau coetiroedd ffyniannus ac yn darparu manteision cymdeithasol a chymunedol yn lleol ac yn genedlaethol.

Y bwriad yw i'r Goedwig Genedlaethol dyfu'n organig i ddechrau. Fodd bynnag, caiff ei gydnabod y bydd angen i ddarpariaeth yn y dyfodol lenwi bylchau daearyddol yn y rhwydwaith yn strategol, megis drwy greu coetiroedd penodol. Mae'r strategaeth yn manylu y bydd datblygu Coedwig Genedlaethol i Gymru yn cymryd degawdau i'w chyflawni. Ei hamcanion cyffredinol yw:

- creu ardaloedd newydd o goetir
- adfer a chynnal ein coetiroedd presennol
- amddiffyn natur a mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth
- hybu ein hiechyd a'n lles
- darparu lleoedd ar gyfer hamdden a natur
- helpu i ddal a storio carbon
- darparu pren - adnodd cynaliadwy ar gyfer adeiladu.

Gobeithir y bydd y Goedwig Genedlaethol hefyd yn cyfrannu at ymdrechion i hybu twristiaeth a chefnogi'r economi ymwelwyr. Mae manylion cysyniad y Goedwig Genedlaethol wedi'u mynegi ar ei gwefan.

Roedd yr holl randdeiliaid a gyfwelwyd yn cefnogi'r rhaglen. Fodd bynnag, nododd nifer fach o randdeiliaid (3 o'r 10 a gyfwelwyd) eu bod yn ansicr ynghylch a yw'r prif ffocws ar gefnogi'r economi ymwelwyr trwy greu llwybr cenedlaethol, neu ar amcanion amgylcheddol fel plannu coed, gwella bioamrywiaeth, ac ehangu coetiroedd, sy'n cyd-fynd â nodau craidd Strategaeth Coetiroedd i Gymru.

Er bod y Rhaglen y Goedwig Genedlaethol yn dal i fod ar gamau cymharol gynnar o ran ei chyflawni, gwnaeth rhai rhanddeiliaid sylw bod y rhaglen hyd yn hyn wedi canolbwyntio ar ehangu nifer y safleoedd yn y rhwydwaith a rheoli coetiroedd yn hytrach na chreu coetiroedd. Arweiniodd hyn at arsylwadau ynghylch i ba raddau y mae'r rhwydwaith o safleoedd yn canolbwyntio ar greu gorchudd coetir newydd i gefnogi amcanion creu coetiroedd yn strategaeth Coetiroedd i Gymru.

Yn ymarferol, mae hwn wedi bod yn ddull bwriadol gan Gynllun Statws y Goedwig Genedlaethol, gyda ffocws cychwynnol ar greu rhwydwaith o safleoedd presennol, gan symud ymlaen yn raddol at gysylltu'r safleoedd hyn a sefydlu rhai newydd trwy greu coetiroedd. Mae hyn yn adlewyrchu cam cynnar o ran datblygiad, lle mae'r ymdrechion yn canolbwyntio'n bennaf ar adeiladu'r rhwydwaith cychwynnol ac egluro'r cysyniad cyffredinol. Mae plannu coed wedi ffurfio rhan o'r rhaglen, trwy Fy Nghoeden Ein Coedwig a Choetiroedd Bach nid dyma brif nod cychwynnol y cynllun statws.

Mewn cyfweliadau â Llywodraeth Cymru, amlygwyd pryderon ynghylch y galw is nag a ragwelwyd am y Grant Creu Coetir, sydd, er nad yw'n cael ei ariannu drwy raglen y Goedwig Genedlaethol, yn cefnogi'r targedau creu coetiroedd a nodir yn strategaeth Coetiroedd i Gymru. O ystyried yr angen i blannu mwy o goed yng Nghymru i helpu i gyrraedd nodau lleihau allyriadau carbon a newidiadau i sut y bydd plannu yn cael ei integreiddio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gwnaeth rhanddeiliaid godi cwestiynau ynghylch i ba raddau y dylai rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol gyfrannu at dargedau creu coetiroedd cenedlaethol a phlannu coed.

Mae adolygiad o'r 37 ffurflen gais gyntaf a gyflwynwyd ar gyfer Cynllun Statws y Goedwig Cenedlaethol yn awgrymu bod tua thraean o'r safleoedd wedi cwblhau'r gwaith plannu'n ddiweddar neu'n bwriadu creu coetir newydd. Mae hyn yn rhoi arwydd y gall y rhwydwaith gyfrannu at amcanion plannu a chreu coetiroedd, ac y bydd yn gwneud hynny, er nad yw hyn yn ofyniad gorfodol i ymuno â'r Cynllun Statws. Mae safleoedd eraill yn bwriadu tynnu a thorri coed presennol ac yna ailblannu gan ddefnyddio rhywogaethau gwahanol, er enghraifft i gefnogi amcanion bioamrywiaeth neu i fynd i'r afael â Chlefyd Coed Ynn. Er y gallai hyn arwain at ddim cynnydd net mewn coed na gorchudd canopi, gallai gyfrannu at yr ymdrechion i gynyddu nifer y rhywogaethau coetir brodorol wrth adfer coetiroedd wedi'u plannu a bydd yn debygol o greu ac adfer coetiroedd gwydn. Roedd cynlluniau ar gyfer y dyfodol a amlygwyd gan aelodau'r rhwydwaith yn amrywiol fel sy'n cael ei ddangos isod:

> 'Mae ein cynllun hirdymor yn cynnwys ailblannu coed brodorol i gymryd lle coed a dorrwyd oherwydd marwolaeth neu wynt. Rydym yn datblygu meithrinfa goed… bydd canran o'r coed ifanc hyn yn cael eu hailblannu yn y coetir yn ogystal ag mewn coetiroedd eraill yn lleol.' (Ffurflen gais Cynllun Statws)

> 'Rydym am adfer coetir hynafol 59 hectar ac adfywio coed a llwyni brodorol.' (Ffurflen gais Cynllun Statws)

Bydd cam nesaf y gwerthusiad yn archwilio sut y gellid monitro creu coetiroedd yn fwy ffurfiol fel rhan o ddull cyffredinol o fonitro ac asesu effaith y Goedwig Genedlaethol ar draws metrigau amrywiol, gan gynnwys creu coetiroedd.

Mewn cyfweliadau gwerthuso, nododd lleiafrif o randdeiliaid (tri) y gallai rhai aelodau o'r cyhoedd ei chael hi'n aneglur a yw safleoedd sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Statws yn

hygyrch i'r cyhoedd. Er bod canllawiau Cynllun Statws Coedwig Genedlaethol Cymru yn nodi nad yw pob safle ar agor i'r cyhoedd, awgrymodd rhai rhanddeiliaid strategol a chyflawni nad yw'r neges hon bob amser yn glir, a allai arwain at ddryswch pan gaiff safle ei hyrwyddo fel rhan o'r Cynllun Statws.

Wrth symud ymlaen, gallai amrywiad yn lefelau mynediad i safleoedd ddylanwadu ar sut mae cymunedau ac aelodau'r cyhoedd yn gweld ac yn deall y Goedwig Genedlaethol. Er y bydd hyn yn cael ei archwilio ymhellach yng ngham nesaf y gwerthusiad, dylid nodi bod y rhan fwyaf o'r safleoedd sydd wedi ymuno â'r rhwydwaith hyd yn hyn yn hygyrch i'r cyhoedd.

Mewn cyfweliadau â dau safle a gynorthwywyd gan dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd i wneud cais i ymuno â'r Cynllun Statws, amlygwyd amheuon ynghylch naill ai galluogi mynediad cyhoeddus i'r safle neu ddenu twf yn nifer yr ymwelwyr a defnydd cymunedol.

> 'Mae'n debyg nad ydym yn mynd i wneud cais am statws y Goedwig Genedlaethol gan nad yw pwyslais y cynllun ar goedwig gymunedol yn cyd-fynd â hyn. Byddwn i'n poeni y byddai cael statws y Goedwig Genedlaethol yn denu mwy o ymwelwyr ac yn niweidio'r safle.' (Cyfweliad dilynol)

Roedd y cyfweliadau â thîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd yn dangos mwy o eglurder ynghylch cysyniad y Goedwig Genedlaethol ac yn tynnu sylw at y rôl bwysig y maent wedi'i chwarae wrth helpu tirfeddianwyr tir safleoedd coetir i ddeall y cysyniad yn well. Fodd bynnag, nododd tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd fod rhai tirfeddianwyr wedi mynegi dryswch, gan gamgymryd y cynllun am fentrau eraill, fel y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, oherwydd trafodaethau ynghylch gorchudd coetir, neu Fy Nghoeden, Ein Coedwig, sy'n ymgorffori brand y Goedwig Genedlaethol.

Gwnaeth mwyafrif (31) o'r 33 o ymatebwyr i'r arolwg a roddodd sylwadau yn ymwneud â nodau a chanlyniadau cynllun Statws y Goedwig Genedlaethol a Choedwig Genedlaethol Cymru, ddangos dealltwriaeth gyffredin o'r nodau a'r canlyniadau y mae'r cynllun yn bwriadu eu cyflawni, gan gynnwys cysylltu coetiroedd ledled Cymru, cynyddu mynediad cyhoeddus i safleoedd, sicrhau'r manteision lles mwyaf i gymunedau, cynyddu bioamrywiaeth a gwydnwch yn erbyn newid hinsawdd a hwyluso'r arfer o gyfnewid gwybodaeth ac adnoddau rhwng perchnogion safleoedd.

> 'Mae'n ymgais i uno cymaint o goetiroedd â phosibl ledled Cymru, sy'n cael eu hystyried i ryw raddau fel rhai sy'n cael eu defnyddio a'u profi gan gymunedau lleol er budd ecolegol, cymdeithasol ac addysgol. Bydd y cynllun yn cynnwys coetiroedd sy'n amrywio o ran maint a chwmpas, ond byddant yn adlewyrchu'r manteision ecolegol, cymdeithasol ac addysgol sy'n cael eu hamlinellu gan feini prawf y cais.' (Ymatebydd yr arolwg)

> 'Rhwydwaith o berchnogion/rheolwyr coetiroedd sy'n cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru, yn gweithio tuag at ehangu ôl troed coedwigoedd glaw tymherus.' (Ymatebydd yr arolwg)

I grynhoi, er bod consensws o gefnogaeth i raglen Coedwig Genedlaethol Cymru, byddai'n ddefnyddiol ailddatgan y cysyniad, y dull cyflawni a'r amserlenni cysylltiedig a'u cyfleu i

sefydliadau sy’n rhanddeiliaid allweddol sef CNC, Llywodraeth Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Llais y Goedwig a Choed Cadw.

Byddai rhoi eglurhad ar gydbwysedd y rhaglen ar draws y canlyniadau y bwriedir iddi eu cael ar gyfer natur, cymunedau ac economïau ymwelwyr lleol yn ddefnyddiol, yn ogystal â lefel y synergedd rhwng rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru fel y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (pan gaiff ei gyflwyno) a'r Grant Creu Coetir.

## 3.2. Cyllid a chymorth grant

Mae cyfres o ddulliau cyflawni wedi'u sefydlu i helpu i gyflawni Coedwig Genedlaethol Cymru a fydd yn cael eu harchwilio yn yr is-adran hon. Mae manylion y dulliau cyflawni i’w gweld yn Adran 1.1.

## 3.3. Cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd

Agorodd y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd i geisiadau ym mis Mehefin 2022 yn dilyn cyflawniad llwyddiannus y cynllun peilot yn 2021. Caiff y cyllid grant hwn ei weinyddu ar ran Llywodraeth Cymru gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac mae'n darparu cymorth ariannol i greu, adfer a gwella coetiroedd.

Un o nodau’r cyllid grant hwn yw y bydd gan y coetiroedd hyn y potensial i fod yn rhan o rwydwaith y Goedwig Genedlaethol yn y dyfodol, ar ôl cwblhau gweithgarwch y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd. Ar gyfer cynllun y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd, mae'n ofynnol i ymgeiswyr fodloni'r tri [troednodyn 4] chyntaf o chwe chanlyniad y Goedwig Genedlaethol: [troednodyn 5]

- Coetiroedd gwydn o ansawdd da, wedi'u dylunio a’u rheoli'n dda
- Coetiroedd sy'n hygyrch i bobl
- Y gymuned yn cymryd rhan mewn coetiroedd.

Gallant hefyd ddangos sut y byddai eu prosiect yn cyfrannu at y canlyniadau dymunol canlynol:

- Coetiroedd cysylltiedig
- Coetiroedd a choed deinamig, amlbwrpas
- Coetiroedd sy'n dangos dysgu, ymchwil ac arloesi.

Ers ei lansio ym mis Mehefin 2022, mae £7.168m wedi'i ddyfarnu dros bum cylch cyllido i 41 o safleoedd ledled Cymru (gweler Tabl 3.1). Ym mis Rhagfyr 2024, roedd pob un ond un o'r grantiau hyn yn dal i gael eu cyflawni, a dyddiadau dod i ben y grantiau diweddaraf yw mis Mehefin 2026. Cwblhawyd un prosiect Cylch 1 ym mis Mehefin 2024. Mae’r gwaith o gyflawni allbynnau a chanlyniadau’r Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd yn parhau ac felly mae'n rhy gynnar i asesu'r canlyniadau a'r effeithiau a gyflawnwyd.

**Troednodiadau**

[4] Noder mai dim ond y canlyniad cyntaf y mae'n ofynnol i ymgeiswyr i'r Cynllun Statws ei gyflawni; coetiroedd gwydn o ansawdd da, wedi'u dylunio a’u rheoli'n dda.

[5] Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG) (rownd pump)

Mae'r cynnydd yn nifer y dyfarniadau grant a'r buddsoddiad o Gylch 4 yn cyd-daro â chreu tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd, a ddarparodd y capasiti a'r arbenigedd i ymgysylltu â pherchnogion coetiroedd ac i'w hannog a'u cynorthwyo i wneud cais am gyllid y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd.

**Tabl 3.1 Proffil grantiau'r Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd**

| Cylch | Cyfanswm y Grantiau | Dyfarniad Grant |
|---|---:|---:|
| Cylch 1 | 6 | £1,085,455 |
| Cylch 2 | 3 | £656,845 |
| Cylch 3 | 3 | £572,531 |
| Cylch 4 | 9 | £1,679,431 |
| Cylch 5 | 20 | £3,174,504 |
| **Cyfanswm** | **41** | **£7,168,766** |

Ffynhonnell: Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

Mae dadansoddiad o ddata a ddarparwyd gan dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd yn dangos, ym mis Rhagfyr 2024, bod 21 o safleoedd rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol nad ydynt yn rhan o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru hefyd wedi derbyn y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd, sy'n cyfateb i 38% o'r 55 o safleoedd nad ydynt yn rhan o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru sydd wedi sicrhau statws ers hynny. Roedd dau safle nad ydynt yn rhan o rwydwaith Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn aflwyddiannus yn eu ceisiadau am gyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd, ac nid oedd y 32 safle sy'n weddill wedi gwneud cais am y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd.

Mae'r adolygiad o'r 37 cais cyntaf i ymuno â'r Cynllun Statws yn dangos bod nifer fach o safleoedd naill ai wedi gwneud cais am Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd i'w cynorthwyo i ddatblygu cynllun rheoli i'w galluogi i wneud cais i ymuno â'r Cynllun Statws neu'n bwriadu gwneud cais i'w cynorthwyo i gyflawni eu cynllun rheoli presennol.

> 'Rydym yn bwriadu cyflwyno cais am Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd i gynorthwyo gwaith yn y tymor byr a fydd yn galluogi mynediad cynaliadwy hirdymor ar gyfer adfer coetiroedd hynafol a choedwigaeth gymunedol a chymdeithasol.' (Ffurflen Gais Cynllun Statws)

> 'Mae cais llwyddiannus am gyllid y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi hwyluso'r gwaith o ysgrifennu'r cynllun rheoli coetir cyntaf gyda gweledigaeth hirdymor, fel y gallwn ymuno â Choedwig Genedlaethol Cymru.' (Ffurflen Gais Cynllun Statws)

Mae cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi bod yn offeryn defnyddiol wrth gynorthwyo ac annog sefydliadau i wneud cais am Gynllun Statws Coedwig Genedlaethol Cymru ac ymuno â'r cynllun yn y pen draw. Pan ofynnwyd iddynt yn yr arolwg o aelodau a derbynwyr grantiau Rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol i ba raddau yr oedd cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi dylanwadu ar eu gallu i wneud cais am y cynllun statws, ymatebodd 14 o dderbynwyr y grant. Dywedodd ychydig o dan ddwy ran o dair (9 safle) fod y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi chwarae rhan fawr wrth eu helpu i fod mewn sefyllfa i wneud cais. Dim ond dau ymatebydd i'r arolwg a dderbyniodd gyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd a nododd y byddent wedi gallu gwneud cais am statws y Goedwig Genedlaethol waeth beth am gyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd. Mae'r

adborth hwn yn awgrymu'r rôl bwysig a chwaraeodd y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wrth ddylanwadu ar allu safleoedd i wneud cais am y cynllun.

Lle adroddodd ymatebwyr yr arolwg fod y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi chwarae rhan fawr wrth eu helpu i wneud cais am Gynllun Statws y Goedwig Genedlaethol, roedd yn gyffredin i hyn gael ei briodoli i ddefnyddio cyllid y grant i helpu sefydliadau i wella cyflwr eu coetiroedd ac i lunio cynllun rheoli. Mae dadansoddiad o ymatebion yr arolwg, cyfweliadau manwl â sampl o safleoedd ac adolygiad o'r ceisiadau i ymuno â'r Cynllun Statws yn dangos y gwahanol ffyrdd y mae'r Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi cefnogi safleoedd i gyflawni eu hamcanion, neu sut y bydd yn gwneud hynny. Mae themâu cyffredin a nodwyd gan y safleoedd yn cynnwys:

- Cymorth o ran plannu coed
- Gwella arwyddion, arwyddion llwybrau a deunydd dehongli
- Cynnal diwrnodau i wirfoddolwyr a'r gymuned
- Cysylltu gwahanol lwybrau o fewn safle'r coetir
- Gwella ansawdd a hygyrchedd llwybrau natur
- Hyrwyddo safleoedd coetir i gymunedau lleol
- Lansio neu ddatblygu cyfleoedd dysgu ac addysgol.

Mewn cyfweliadau manwl â sampl o 13 o safleoedd, ynghyd â chwe ymweliad â safleoedd a gynhaliwyd gan y tîm gwerthuso, amlygwyd bod cymorth ariannol, fel y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd, wedi arwain at amrywiaeth o fuddion. Yn benodol, cyfeiriodd dau safle at y ffaith bod y cymorth wedi eu helpu i wella ansawdd a manylder cynlluniau rheoli presennol a dywedodd un safle ei fod wedi eu helpu i sefydlu cynllun rheoli newydd lle nad oedd un yn bodoli o'r blaen. Nodwyd manteision tebyg yn adolygiad y tîm gwerthuso o'r 37 ffurflen gais gyntaf i ymuno â'r Cynllun Statws.

> 'Mae prosiect y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi ein galluogi i ddatblygu a thyfu grŵp gwirfoddol yn y gymuned leol, ac rydym wedi bod yn darparu hyfforddiant iddyn nhw mewn arolygu bywyd gwyllt i gofnodi ein data sylfaenol nad yw erioed wedi'i gofnodi o'r blaen yn y coetiroedd hyn, yn enwedig ein planhigion is a rhywogaethau o adar coetir sydd ar y rhestr goch.' (Ffurflen Gais y Cynllun Statws)

> 'Fel rhan o brosiect diweddar y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd, cafodd y coed a blannwyd mewn adrannau eu cyflawni drwy ddiwrnodau plannu i wirfoddolwyr a'r gymuned, gan sicrhau bod y gymuned yn cael ei chynnwys yn y cynllun.' (Derbynnydd Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd)

> 'Mae'r Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi ein galluogi i gyflogi Parcmon penodol i dreulio amser yn meithrin y cysylltiadau cymunedol hynny drwy estyn allan at drigolion y pentref ac at gymunedau a grwpiau ehangach i gysylltu â ni a'n helpu i gyflawni amcanion fel ailblannu mewn rhai o'n coetiroedd.' (Derbynnydd Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd)

Mae un safle wedi defnyddio eu cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd i gynnal gweithgareddau ysgol goedwig a hyfforddi eu staff mewn Ysgol Goedwig Lefel 2/3 a Chymorth Cyntaf Awyr Agored Lefel 3. Maen nhw wedi defnyddio'r cyllid i greu ardal chwarae a lloches addysgol yn y coetir a gwella mynediad trwy osod llwybr newydd, a hysbysfyrddau a byrddau gwybodaeth adlewyrchol. Yn achos safleoedd sy’n agored i'r cyhoedd, mae'r gwaith ymchwil hwn yn awgrymu bod y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi eu galluogi i adeiladu eu seilwaith a all gynnal a chefnogi ymweliadau o safon gan gymunedau a grwpiau lleol yn y blynyddoedd i ddod.

Roedd yr adborth a ddarparwyd gan safleoedd yn ystod cyfweliadau manwl yn pwysleisio y gall y buddsoddiad drwy’r Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd ddarparu manteision tymor hwy o ran nifer yr ymwelwyr, profiad ymwelwyr ac ystod o gyfleoedd a chanlyniadau dysgu ac iechyd. Bydd hyn yn cael ei archwilio ymhellach yng ngham nesaf y gwerthusiad.

> 'Rhoddodd prosiect y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd y cyfle inni hefyd gynnal ein gŵyl, a oedd yn cynnwys ffair fwyd a chrefftau i werthwyr lleol, ynghyd ag ardal arddangos i fusnesau lleol ddangos eu sgiliau coetir traddodiadol yn lleol, fel defnyddio ceffylau i dorri coed, trin lledr, gwaith gof, a gwaith coed gwyrdd. Fe wnaethon ni hefyd gefnogi artistiaid lleol i berfformio cerddoriaeth a ysgrifennwyd am y coetiroedd.’ Derbynnydd Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd

Nododd un safle a oedd wedi ymuno â'r Cynllun Statws eu bod wedi bod yn aflwyddiannus yn eu cais am Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd a bod hyn wedi cyfyngu ar y cynnydd a wnaethant o ran ymgysylltu â'r gymuned gan eu bod wedi gobeithio defnyddio'r arian i godi ystafell ddosbarth dros dro ar y safle. Mewn chwe chyfweliad dilynol, dywedodd sawl safle y byddai wedi bod yn anoddach cyflawni eu huchelgeisiau yn absenoldeb buddsoddiad Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd.

Mewn cyfweliadau, mynegodd dau randdeiliad fod gormod o alw am gyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd a bod y galw am y Grant Creu Coetir, sy'n darparu cyllid ar gyfer plannu coed a gosod ffensys a gatiau ar gyfer o leiaf 0.25 hectar, yn eu barn nhw, yn gymharol isel. Er nad yw'r Grant Creu Coetir yn un o ddulliau cyflawni rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru, mae'n bwysig cydnabod bod y ddau ddull cyflawni yn helpu i greu coetiroedd. Er y gall ac er bod y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi helpu prosiectau sy’n creu coetiroedd llai, mae tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd wedi cyfeirio tirfeddianwyr sydd â diddordeb yn bennaf mewn creu coetiroedd at y Grant Creu Coetir.

Mae’r adborth a gasglwyd o'r arolwg o sefydliadau/safleoedd yn amlygu’r ffaith bod y rhan fwyaf (14 o 18 o ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn) o'r rhai a oedd yn derbyn buddsoddiad y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi nodi bod y cymorth a gawsant gan Reolwr Buddsoddi Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol naill ai'n effeithiol iawn neu'n eithaf effeithiol. Ni wnaeth unrhyw sefydliad ddweud bod y cymorth a gawsant yn aneffeithiol.

I'r rhai a oedd wedi sicrhau cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd, dywedodd dwy ran o dair (13 sefydliad) eu bod yn fodlon ar lefel y cymorth parhaus gan Reolwr Buddsoddi Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a dywedodd 5 sefydliad nad oeddent yn fodlon nac yn anfodlon. Mynegodd dau sefydliad nad oeddent yn fodlon ar y cymorth parhaus. Adroddodd un sefydliad fod hyn oherwydd eu canfyddiad o anhyblygrwydd ynghylch

dyddiadau cau gwneud hawliadau ariannol, ac awgrymodd y sefydliad arall eu bod wedi wynebu problemau a grëwyd gan drosiant staff Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

I grynhoi, mae adborth gan sefydliadau/safleoedd sydd wedi derbyn cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd, sydd wedi gwneud cais neu sy'n bwriadu gwneud cais, yn awgrymu ei fod wedi chwarae rhan werthfawr wrth baratoi safleoedd i wneud cais am statws y Goedwig Genedlaethol. Mae'r adborth hwn yn awgrymu y gall cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd hybu twf rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol. O ystyried yr amserlenni sy'n gysylltiedig â chyflawni'r grant, gall safleoedd sydd eisoes wedi ymuno â'r Cynllun Statws hefyd wneud cais am gyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd i gynorthwyo gweithgareddau sy'n ceisio cyfrannu at chwe chanlyniad lefel uchel y Goedwig Genedlaethol. Bydd dull o fesur effaith, gan gynnwys yn erbyn y canlyniadau hyn, yn cael ei ystyried yn fanylach yng Ngham 2 y gwerthusiad hwn.

Fel y nodwyd yn flaenorol, datblygwyd Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd i helpu i greu, gwella ac adfer coetiroedd ar raddfa lai, gan ddatblygu ffrwd o safleoedd y Goedwig Genedlaethol yn y dyfodol. Yn seiliedig ar adborth o dri chyfweliad manwl â rhanddeiliaid, mae'r tîm gwerthuso yn nodi y gall lefel yr angen neu'r galw am gyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd yn y dyfodol amrywio yn dibynnu ar broffil y safleoedd sydd wedi ymuno â'r Cynllun Statws. Er enghraifft, os yw safleoedd mwy o faint a mwy sefydledig yn ymuno â Chynllun Statws y Goedwig Cenedlaethol, efallai na fydd angen buddsoddiad Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd arnynt. Gall proffil safleoedd sy'n dod i mewn i rwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru hefyd gael ei lunio gan ddull gweithredu tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd o ran 'dull tirwedd' wedi'i dargedu, gan ymgysylltu â mathau penodol o dirfeddianwyr neu ardaloedd daearyddol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y Cynllun Statws ar hyn o bryd. Bydd hefyd yn cael ei lywio gan anghenion neu ddyheadau darpar safleoedd fel sydd wedi'i amlinellu yn eu cynlluniau rheoli perthnasol. Mae hon yn ystyriaeth ar gyfer lefel yr adnoddau i'w dyrannu i'r Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd (neu debyg) yn y dyfodol gan y gallai amcanion y safleoedd sy'n ceisio ymuno â rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru ddylanwadu ar lefel y galw.

### 3.4. Fy Nghoeden, Ein Coedwig

Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddwyd Fy Nghoeden, Ein Coedwig, a ddechreuodd fel cysyniad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ymgyrch ymgysylltu genedlaethol i annog pobl Cymru i chwarae eu rhan wrth blannu camau cychwynnol Coedwig Genedlaethol i Gymru. Ei nod oedd codi ymwybyddiaeth o'r angen i blannu coed fel ffordd effeithiol o liniaru effeithiau newid hinsawdd. Y nod oedd i bob aelwyd yng Nghymru gael y cyfle i dderbyn coeden i'w phlannu a chyfrannu at greu'r Goedwig Genedlaethol. Cynlluniwyd Fy Nghoeden, Ein Coedwig fel ymdrech aml-sefydliadol yng Nghymru i helpu i ffurfio Coedwig Genedlaethol Cymru.

Fe'i cyflawnwyd drwy ymgyrch genedlaethol a oedd yn cynnig cyfle i gartrefi blannu coeden drwy'r llwybrau canlynol.

a) Casglu coeden o hybiau sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr.
b) Gofyn am goeden drwy'r post drwy lenwi ffurflen ar-lein ar wefan Coed Cadw.

c) Gofyn am goeden i gael ei phlannu ar ran rhywun drwy'r fenter 'Plannu Coeden i Mi'. Plannwyd coed a ofynnwyd amdanynt drwy'r llwybr hwn gan dirfeddianwyr lleol gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, CNC, grwpiau cymunedol, cynghorau lleol, a thirfeddianwyr preifat.

Hwylusodd Coed Cadw dros 50 o hybiau, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Llais y Goedwig. Parhaodd y fenter tan fis Mawrth 2023 a phlannwyd dros 300,000 o goed ledled Cymru drwy'r gwahanol lwybrau. O'r 300,000 o goed:

- Dosbarthwyd dros 34,000 gan hybiau
- Dosbarthwyd dros 33,000 drwy'r post
- Dosbarthwyd 17,500 drwy'r ymgyrch Plannu Coeden i Mi
- Dosbarthwyd 225,000 i gymunedau a thirfeddianwyr preifat i'w plannu ganddynt hwy. Deellir bod yr elfen hon o'r fenter wedi'i chyflwyno o ganlyniad i'r sawl a fanteisiodd.

Er nad yw'r gwerthusiad hwn yn canolbwyntio ar gyflawniad gan Goed Cadw a'r hybiau, mae adroddiad cau'r prosiect [troednodyn 6] yn darparu rhai gwersi defnyddiol a ddysgwyd wrth gyflawni'r cynllun. Roedd yr adroddiad hwn yn cydnabod nad oedd y bwriad y byddai'r rhan fwyaf o'r plannu yn digwydd wrth i aelwydydd blannu coed trwy eu gasglu o hybiau neu wrth i goed gael eu danfon i'w tŷ yn ymarferol. Fodd bynnag, ni roddodd yr adroddiad fanylion penodol ynghylch pam nad oedd y dull hwn yn bosibl.

Yn yr adolygiad o brofiad y cyfranogwyr [troednodyn 7] a gynhyrchwyd gan Goed Cadw ym mis Gorffennaf 2023, canfuwyd y bu'r cynllun yn llwyddiannus wrth gael pobl yng Nghymru i blannu coeden am y tro cyntaf, gan nodi bod plannu coed yn beth newydd i 38% o'r cyfranogwyr. Yn seiliedig ar lefelau gweithredu amgylcheddol a adroddwyd gan y cyfranogwyr eu hunain, roedd hefyd yn llwyddiannus wrth ddenu'r gynulleidfa 'nad yw'n Wyrdd' sydd â llai o brofiad cadwraeth.

Mae adroddiad cau'r prosiect yn amlinellu'r cyfleoedd a'r heriau ar gyfer adeiladu Coedwig Genedlaethol Cymru. Nododd rhanddeiliaid nad oedd yr hybiau yn gynnig cenedlaethol cynaliadwy, gan eu bod yn dibynnu ar ewyllys da gwirfoddolwyr, capasiti cyfyngedig ymhlith staff, a chontractau sy'n bodoli eisoes. Teimlai'r partneriaid cyflawni nad oedd y model yn hyfyw i'w atgynhyrchu yn y dyfodol ond roeddent yn gweld potensial mewn dull â mwy o ffocws. Tynnwyd sylw at lwyddiant pecynnau coed i dirfeddianwyr—gyda chefnogaeth cytundebau tirfeddianwyr a chanllawiau gofal—fel maes i adeiladu arno, ynghyd ag archwiliad pellach o gysylltiadau â rhaglen Eco-Ysgolion, sy'n grymuso pobl ifanc i ysgogi newid amgylcheddol yn eu hysgolion a'u cymunedau. Mae rhywfaint o ymgysylltu eisoes wedi digwydd, fel dyhead Oak Field yn y Barri i fod yr ysgol Coedwig Genedlaethol gyntaf, safle sydd wedi'i gadarnhau ers hynny fel safle'r Cynllun Statws.

**Troednodiadau**

[6] Coed Cadw (2023)- 'Fy Nghoeden, Ein Coedwig 2021-2023'. Adroddiad Cau'r Prosiect.

[7] Roedd yr adolygiad o brofiad y cyfranogwyr yn seiliedig ar sampl o 1,100 o gyfranogwyr a holwyd am eu profiad o'r fenter, gan gynnwys yr hyn a'u cymhellodd i gymryd rhan, yr hyn a aeth yn dda a'r hyn y gellid bod wedi'i wella.

Mae adroddiad cau prosiect Fy Nghoeden, Ein Coedwig a'r cyfweliadau â rhanddeiliaid a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn yn darparu tystiolaeth bod Fy Nghoeden, Ein Coedwig wedi darparu momentwm a phroffil i raglen Coedwig Genedlaethol Cymru a phrofiadau cadarnhaol i gyfranogwyr. Cyfrannodd yr ymgyrch at raglen ehangach Coedwig Genedlaethol Cymru drwy ymgysylltu â thirfeddianwyr a allai fod wedi neu a fydd wedi hynny yn ceisio buddsoddiad drwy'r Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd neu Goetiroedd Bach ac sy'n ystyried gwneud cais i Gynllun Statws y Goedwig Genedlaethol. Dim ond pedwar safle a blannodd goed drwy ymgyrch Fy Nghoeden, Ein Coedwig a ymatebodd i'r arolwg. O'r safleoedd hyn, roedd dau hefyd wedi gwneud cais i ymuno â Chynllun Statws Coedwig Genedlaethol Cymru. Mae hyn yn dangos bod cyfleoedd posibl i gryfhau cysylltiadau rhwng mentrau plannu coed fel Fy Nghoeden, Ein Coedwig a statws y Coedwig Genedlaethol.

Roedd yr holl randdeiliaid a gyfwelwyd yn ystod y gwerthusiad hwn yn cefnogi ymdrechion i godi ymwybyddiaeth o raglen a safleoedd Coedwig Genedlaethol Cymru, a thrwy wneud hynny annog pobl i gymryd rhan naill ai fel ymwelwyr neu wirfoddolwyr. Er enghraifft, gwnaeth yr ymweliadau â safleoedd yr astudiaethau achos amlygu'r rôl bwysig y mae gwirfoddolwyr yn ei chwarae wrth reoli, cynnal a datblygu safleoedd y Goedwig Genedlaethol. Gellid ystyried y model o ddefnyddio ymgyrch genedlaethol i ymgysylltu â chymunedau ac annog gweithredu amgylcheddol fel rhan o unrhyw waith hyrwyddo yn y dyfodol i gefnogi datblygiad a chyflawniad rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru.

## 3.5. Cyllid Coetiroedd Bach

Ym mis Ebrill 2023, agorodd ceisiadau am grant Coetiroedd Bach, a oedd hefyd yn dilyn cynllun peilot a gyflwynwyd yn 2020. Roedd y grant hwn hefyd yn cael ei weinyddu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar ran Llywodraeth Cymru ac yn cael ei gyflawni drwy Earthwatch. Cafodd ei ariannu hefyd fel rhan o raglen Coedwig Genedlaethol Cymru. Nod y grant hwn oedd creu 100 o 'Goetiroedd Bach' rhwng mis Ebrill 2023 a diwedd mis Mawrth 2025 a darparu cymorth ariannol i bobl i greu Coetiroedd Bach. Roedd grantiau rhwng £10,000 a £40,000 ar gael i safleoedd o tua 200m$^2$ o faint wneud cais amdanynt Gallai'r grantiau dalu costau cyfalaf a refeniw. Roedd cyngor ar gael trwy dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd ar gyfer safleoedd a oedd yn dymuno cynllunio eu prosiect.

Roedd yn ofynnol i safleoedd a gafodd gyllid grant lynu wrth egwyddorion Coetir Bach. Mae'r egwyddorion yn cynnwys dod â manteision coetiroedd i galon dinasoedd a mannau trefol drwy gysylltu pobl â natur, darparu cyfleoedd addysgol i bobl leol, helpu i liniaru effeithiau newid hinsawdd, a darparu mannau i gefnogi bywyd gwyllt.

Derbyniodd safleoedd hyfforddiant a chymorth gan Earthwatch ynghylch yr egwyddorion sydd eu hangen i greu Coetir Bach a'r dull o blannu ac mae'n ofynnol iddynt fonitro cynefinoedd o leiaf ddwywaith y flwyddyn yn ystod y ddwy flynedd gyntaf ar ôl plannu, yn ddelfrydol trwy wyddoniaeth dinasyddion. [troednodyn 8] Mae'r data hwn yn cael ei uwchlwytho trwy borth i Earthwatch. Gan fod amcanion Coetiroedd Bach yn gorgyffwrdd ac yn cyd-fynd

[8] Mae gwyddoniaeth dinasyddion yn golygu gwirfoddolwyr yn gweithio gyda gwyddonwyr a chadwraethwyr i gasglu a dadansoddi data i gynorthwyo ymdrechion i fonitro newidiadau mewn cynefinoedd a rhywogaethau.

yn llwyr â rhai'r Goedwig Genedlaethol, penderfynodd Llywodraeth Cymru y byddai'r safleoedd yn dod yn aelodau o'r rhwydwaith yn awtomatig ar ôl eu plannu.

Ers lansio Coetiroedd Bach ym mis Ebrill 2023, mae £0.847m wedi'i ddyfarnu dros dri chylch i 14 rhaglen, gyda 24 o safleoedd ledled Cymru (gweler Tabl 3.2). Felly, ar hyn o bryd mae'n debygol na fydd y dull cyflawni hwn yn cyrraedd y targed o greu 100 o Goetiroedd Bach. Ym mis Ionawr 2025, roedd yr holl grantiau'n dal i gael eu cyflawni ac mae disgwyl iddynt gael eu cwblhau mis Mawrth 2025. Fel yn achos y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd, mae allbynnau a chanlyniadau Coetiroedd Bach yn dal i gael eu cyflawni ac felly mae'n rhy gynnar i asesu'r canlyniadau a'r effeithiau a gyflawnwyd. Yn seiliedig ar ddata a ddarparwyd gan CNC, roedd gan wyth o safleoedd Coetiroedd Bach fannau dysgu awyr agored wedi'u cynnwys ynddynt, sy'n dangos eu potensial i gefnogi canlyniadau addysg a dysgu.

**Tabl 3.2 Proffil grantiau Coetiroedd Bach**

| Cylch | Cyfanswm y Grantiau | Cyfanswm y Safleoedd | Dyfarniad Grant |
|---|---|---|---|
| Cylch 1 | 0 | 0 | £0 |
| Cylch 2 | 3 | 9 | £349,930 |
| Cylch 3 | 11 | 15 | £497,676 |
| **Cyfanswm** | **14** | **24** | **£847,606** |

Ffynhonnell: Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

Mae Tabl 3.3 isod yn nodi dosbarthiad safleoedd Coetiroedd Bach ledled Cymru, gan ddangos mai Bro Morgannwg sydd â'r nifer fwyaf o safleoedd Coetiroedd Bach, sef tri, ac yna Caerdydd a Phowys sydd â dau safle. Mae hyn yn awgrymu nad yw safleoedd Coetiroedd Bach wedi'u dosbarthu'n gyfartal ledled Cymru, gyda Chanolbarth a De-ddwyrain Cymru yn cael eu cynrychioli'n fwy amlwg.

**Tabl 3.3 Nifer y grantiau a'r safleoedd Coetiroedd Bach yn ôl ardal awdurdod lleol**

| Awdurdod lleol | Cyfanswm y Grantiau | Cyfanswm y Safleoedd |
|---|---|---|
| Bro Morgannwg | 3 | 3 |
| Powys | 2 | 3 |
| Caerdydd | 2 | 6 |
| Wrecsam | 1 | 4 |
| Sir Fynwy | 1 | 1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1 | 2 |
| Caerffili | 1 | 1 |
| Sir y Fflint | 1 | 1 |
| Casnewydd | 1 | 2 |
| Torfaen | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **14** | **24** |

Ffynhonnell: Tîm Swyddogion Cyswllt Coetiroedd, CNC

Derbyniwyd ymatebion i'r arolwg gan wyth o'r 14 o'r sefydliadau a oedd yn derbyn cyllid Coetiroedd Bach. Pan ofynnwyd pa mor effeithiol oedd hyfforddiant Earthwatch, ymatebodd chwe sefydliad a dderbyniodd gyllid Coetiroedd Bach. Dywedodd y rhan fwyaf o'r sefydliadau (4 o 6) eu bod o'r farn bod yr hyfforddiant yn effeithiol. Dywedodd y ddau

sefydliad sy'n weddill nad oedd y cymorth yn effeithiol nac yn aneffeithiol. Ni ddywedodd unrhyw sefydliad fod yr hyfforddiant yn aneffeithiol. Mae hyn yn awgrymu bod yr hyfforddiant Earthwatch cychwynnol wedi cael derbyniad cadarnhaol yn gyffredinol.

Fodd bynnag, roedd barn gymysg ynghylch lefelau boddhad â'r cymorth parhaus a dderbyniodd safleoedd gan Earthwatch. O'r saith sefydliad a ymatebodd i'r cwestiwn ar y cymorth parhaus gan Earthwatch, roedd tri sefydliad yn fodlon ar y cymorth parhaus.

> 'Roedd grant y Coetir Bach wedi caniatáu inni blannu mwy o goed ac mae wedi rhoi mwy o ffocws cymunedol inni. Rhoddodd [Earthwatch] fwy o strwythur, mwy o addysg a hyfforddiant a mwy o gyfranogiad cymunedol i'm cynllun plannu coed.' (Cyfweliad dilynol)

Dywedodd dau o'r saith sefydliad eu bod yn anfodlon â chymorth parhaus Earthwatch, rhoddodd un ymateb niwtral a dywedodd un nad oeddent yn gwybod.

> 'Roedd [cymorth Earthwatch] yn ddefnyddiol er ei fod wedi mynd rhagddo am ychydig yn hir. Mae'r cymorth ers hynny wedi bod yn wael, gydag ymateb cyfyngedig iawn i unrhyw e-byst. Mae'r paratoi'n ymddangos yn anodd iawn, ac yn hurt prynu offer y byddwn ni ond yn eu defnyddio unwaith. Mae rhoi’r cynnig at ei gilydd yn anodd gan fod yn rhaid i chi gostio rhai deunyddiau, ond gall hyn newid ar ôl i chi ddadansoddi nodweddion y safle, gan newid y costau cysylltiedig.’ (Ymatebydd yr arolwg)

Nid yw'n bosibl llunio unrhyw gasgliadau pellach ynghylch y cymorth parhaus a ddarperir i dderbynwyr grantiau Coetiroedd Bach o ystyried nifer fach yr ymatebion a dderbyniwyd i'r arolwg. Mae deall lefel yr angen am gymorth parhaus ar gyfer derbynwyr grantiau yn faes y gellid ei godi o bosibl trwy'r gweithgareddau rhwydweithio sydd wedi’u sefydlu o fewn rhaglen y Goedwig Genedlaethol. Ym marn y tîm gwerthuso, gall mabwysiadu dull gwyddoniaeth dinasyddion o fewn safleoedd Coetiroedd Bach a'r fethodoleg fonitro a sefydlwyd gan Earthwatch hefyd ddarparu gwersi trosglwyddadwy i safleoedd eraill sydd wedi ymuno â'r Cynllun Statws ar sut i gynnwys cymunedau lleol yn y broses o gasglu a dadansoddi data ar gynefinoedd a rhywogaethau.

Nododd pedwar o'r saith sefydliad a oedd wedi sicrhau cyllid Coetiroedd Bach yn eu hymateb i'r arolwg eu bod wedi wynebu heriau wrth greu neu gynnal eu Coetir Bach. Roedd yr ymatebion yn unigryw i bob safle ar draws y pedwar sefydliad ac yn cynnwys heriau costau wrth greu llwybrau hygyrch, gallu dod o hyd i'r coed a'r cyflyrydd pridd cywir, amddiffyn y safle rhag difrod gan gwningod a sicrhau cymeradwyaeth yr awdurdod lleol fel perchennog safle'r ysgol.

I grynhoi, er bod nifer y grantiau Coetiroedd Bach a ddyfernir yn debygol o fod yn llai na'r targed o greu 100 o Goetiroedd Bach, mae'r dull cyflawni hwn gan Goedwig Genedlaethol Cymru wedi helpu i sefydlu nifer fach o safleoedd coetir newydd o fewn mannau trefol a mannau o amgylch trefi. Oherwydd eu lleoliad trefol neu o gwmpas trefi, mae'r safleoedd hyn yn darparu cyfleoedd i gymunedau sy'n byw o fewn neu gerllaw ardaloedd y safleoedd hyn i gael mynediad iddynt. Bydd gwaith pellach ar lawr gwlad yn cael ei archwilio yng Ngham 2 o'r gwerthusiad hwn yn ogystal â dulliau i allu asesu effaith yn y dyfodol.

## 3.6. Cynllun Statws y Goedwig Genedlaethol

Ar 23 Mehefin 2023, agorwyd Cynllun Statws Coedwig Genedlaethol Cymru i alluogi coetiroedd nad ydynt yn rhan o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru i ymuno â rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol. Mae ceisiadau ar agor i unrhyw un sy'n berchen ar goetiroedd yng Nghymru neu sydd â rheolaeth drostynt. Nid oes terfyn ar nifer y coetiroedd y gellir dyfarnu Statws Coedwig Genedlaethol i Gymru iddynt, sy'n gyson â'r dyhead i dyfu'r rhwydwaith yn organig dros gyfnod o ddegawdau.

Er mwyn cael eu hystyried i ymuno â'r cynllun, rhaid i'r ymgeiswyr ddangos sut mae eu safle'n bodloni un canlyniad hanfodol y Goedwig Cenedlaethol – Coetiroedd gwydn o ansawdd da, wedi'u dylunio a'u rheoli'n dda. Maent yn gwneud hyn drwy ddangos sut maent yn cyflawni'r canlyniad hwn yn eu ffurflen gais a thrwy ddarparu tystiolaeth ategol ar ffurf cynllun rheoli coetir sy'n cael ei arwain gan Safon Coedwigaeth y DU (UKFS). Caiff yr ymgeiswyr eu hannog hefyd i fodloni cymaint o'r pum canlyniad dymunol â phosibl. Mae'r statws yn wirfoddol ac mae gan safleoedd yr opsiwn i adael y Cynllun ar unrhyw adeg.

Yn seiliedig ar ymatebion i arolygon a chyfweliadau manwl, er y gallai rhai safleoedd fod yn barod i wneud cais i Gynllun Statws y Goedwig Cenedlaethol heb gymorth ychwanegol, mae tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd wedi chwarae rhan allweddol wrth gynorthwyo safleoedd eraill, gan helpu i hwyluso eu ceisiadau. Caiff gwerth cymorth tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd ei archwilio ymhellach yn Adran 3.11. Mae cyllid sydd ar gael drwy'r Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd hefyd wedi cael ei ddefnyddio i gynorthwyo rhai safleoedd i gyflawni'r canlyniadau gorfodol sydd wedi'u nodi yng nghanllawiau'r cynllun.

Dywedodd dau dirfeddiannwr a gymerodd ran yn yr arolwg a'r cyfweliadau manwl eu bod newydd gymryd yr awenau dros reoli'r safleoedd coetir a'u bod yn asesu ac yn adolygu eu hanghenion cyn ymrwymo i weithio tuag at y Cynllun Statws. Mae hyn yn tynnu sylw at rôl tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd wrth gynnal cysylltiadau â thirfeddianwyr safleoedd sy'n ystyried eu hopsiynau ac a allai wneud cais i ymuno â'r rhwydwaith yn y dyfodol.

> 'Mae rheoli'r coetir yn ymgymeriad newydd; efallai y byddwn yn gwneud cais yn y dyfodol unwaith y bydd ein dealltwriaeth o fioamrywiaeth y safle a'n nodau strategol ar gyfer y safle wedi'u sefydlu. (Ymatebydd yr arolwg)

## 3.7. Proffil rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol


Ym mis Ionawr 2025, mae'r Goedwig Genedlaethol yn cynnwys 26 bloc o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys sawl safle a reolir gan CNC, ac mae 55 yn cael eu rheoli gan dirfeddianwyr eraill (safleoedd y Cynllun Statws). [troednodiadau 9 10] Mae Ffigur 3.1 isod yn dangos dosbarthiad safleoedd Cynllun Statws Coedwig Genedlaethol Cymru ar hyn o bryd.

**Troednodiadau**

[9] Data wedi'i ddarparu gan dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd ac yn gywir ar 7fed Hydref 2024.

[10] Rhestr lawn o safleoedd Coedwig Genedlaethol Cymru.

**Ffigur 3.1 Nifer o safleoedd y Cynllun Statws yn ôl ardal awdurdod lleol**





Disgrifiad o ffigur 3.1: Map yn dangos nifer o safleoedd y Cynllun Statws yn ôl ardal awdurdod lleol. Torfaen, Bro Morganwg, a Sir Gaerfyrddin sydd â'r nifer uchaf o safleoedd, ar 6 yr un.

Ffynhonnell: Tîm Swyddogion Cyswllt Coetiroedd, CNC

Er bod rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn gweithredu ledled Cymru, ei bwriad yw sicrhau lledaeniad daearyddol o safleoedd ledled y wlad. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, ardaloedd awdurdodau lleol Powys, Torfaen, Bro Morgannwg a Sir Gaerfyrddin sy'n cyfrif am y nifer uchaf o safleoedd y Cynllun Statws, sef 6 yr un. Merthyr Tudful yw'r unig ardal awdurdod lleol nad oes ganddi unrhyw safleoedd Cynllun Statws ar adeg ysgrifennu. Er y gallai hyn awgrymu rhywfaint o grynodiad o safleoedd mewn rhai ardaloedd, mae hefyd yn dangos bod y rhaglen wedi llwyddo i sefydlu safleoedd ar draws ystod eang o awdurdodau lleol ledled Cymru.

Ar hyn o bryd mae safleoedd y Cynllun Statws yn cwmpasu ardal o 3,638 hectar. Ardaloedd awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf o gyfanswm yr hectarau, sef 993 hectar (27% o holl safleoedd y Cynllun Statws) ac 828 hectar (23% o holl safleoedd y Cynllun Statws) yn y drefn honno. Mae Ffigur 3.2 yn dangos cyfanswm yr hectarau sydd wedi'u cynnwys yn safleoedd y Cynllun Statws yn ôl ardal awdurdod lleol. Dylid nodi nad yw'r Ffigur yn dangos dosbarthiad safleoedd Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, a fyddai'n cyflwyno dosbarthiad gwahanol.

**Ffigur 3.2 Hectarau safleoedd y Cynllun Statws yn ôl ardal awdurdod lleol**




Disgrifiad o ffigur 3.2: Map yn dangos cyfanswm hectarau safleoedd y Cynllun Statws yn ôl awdurdod lleol. Sir Gaerfyrddin (993 ha) a Sir Benfro (828 ha) sydd â'r arwynebeddau mwyaf, ac yna Casnewydd ar 359 hectar.

Ffynhonnell: Tîm Swyddogion Cyswllt Coetiroedd, CNC

Mae dadansoddiad o'r math o sefydliad/tirfeddiannwr ar gyfer safleoedd y Cynllun Statws yn dangos, ym mis Ionawr 2025, bod awdurdodau lleol yn cyfrif am 18% o gyfanswm y safleoedd a pherchnogion preifat am 15% o'r safleoedd. Cyflwynir dadansoddiad llawn o safleoedd yn ôl math o sefydliad/tirfeddiannwr yn Nhabl 3.4.

**Tabl 3.4 Dosbarthiad safleoedd y Cynllun Statws yn ôl math o dirfeddiannwr**

| Math o Dirfeddiannwr | Cyfanswm y Safleoedd | % o Safleoedd y Cynllun Statws |
|---|---|---|
| Awdurdod Lleol | 10 | 18% |
| Perchennog preifat | 8 | 15% |
| Elusen | 7 | 13% |
| Coed Cadw | 5 | 9% |
| CIC | 5 | 9% |
| Cyngor Cymuned / Tref | 4 | 7% |
| Cymdeithas Tai | 4 | 7% |
| Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol | 3 | 5% |
| Grŵp cymunedol | 3 | 5% |
| Dŵr Cymru | 3 | 5% |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol | 2 | 4% |
| Ymddiriedolaeth Natur | 1 | 2% |

Ffynhonnell: Tîm Swyddogion Cyswllt Coetiroedd, CNC

Mae cronfa ddata ehangach y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd, sy'n cwmpasu safleoedd y mae'r tîm yn gweithio gyda nhw ac yn eu cynorthwyo ond nad ydynt wedi gwneud cais am statws na'i sicrhau eto, yn cofnodi manylion 235 o safleoedd sy'n cwmpasu cyfanswm o 72,858 hectar. Mae hyn yn rhoi syniad o'r safleoedd posibl a allai wneud cais am y Cynllun Statws ac ymuno â'r Cynllun yn y dyfodol, a fyddai'n cyfrannu at ei dwf a'i amrywiaeth barhaus.

## 3.8. Y broses ymgeisio ac asesu

Mae'r broses ymgeisio ac asesu ar gyfer y Cynllun Statws wedi'i chynllunio i fod yn ddi-fiwrocratiaeth, yn hygyrch i bawb ac yn ddi-faich nac yn rhy feichus ar berchnogion coetiroedd sy'n dymuno gwneud cais.

Yn eu ffurflenni cais, mae'n ofynnol i'r ymgeiswyr gyflwyno datganiadau ymateb sy'n dangos sut y byddant yn cyflawni yn erbyn canlyniad hanfodol y Goedwig Genedlaethol o greu coetiroedd gwydn o ansawdd uchel, wedi'u cynllunio'n dda, ac wedi'u rheoli'n dda. Fel rhan o'u hymateb, i ddangos tystiolaeth o'r canlyniad hwn rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno cynllun rheoli ar gyfer eu safle, gan amlinellu sut y byddant yn cyflawni'r canlyniad gofynnol. Gall yr ymgeiswyr hefyd ddewis darparu datganiadau ymateb ynghylch sut maent am fynd i'r afael â chanlyniadau dymunol ychwanegol y Goedwig Genedlaethol.

Mae adborth drwy gyfweliadau â thîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd wedi tynnu sylw at y ffaith bod y ffocws wedi bod ar ansawdd safleoedd nid nifer. Yn hyn o beth, mae tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd wedi chwarae rhan yn y cam cyn ymgeisio i sicrhau bod cyflwyniadau o ansawdd addas i gael eu cymeradwyo.

Ni chodwyd unrhyw bryderon ynghylch ansawdd y broses ymgeisio ac asesu gan randdeiliaid o Lywodraeth Cymru na Rheolwyr y Gronfa. Yn ogystal, mae'r ceisiadau'n cael eu hadolygu gan aelod arall o dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd, gan gryfhau cadernid y broses asesu ymhellach.

Roedd tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd yn fodlon ar y cyfan â'r broses ymgeisio ac asesu. Yr unig amheuaeth fach oedd yn ymwneud â'u hyder a pha mor gyfforddus oeddent wrth asesu'r cynlluniau rheoli a gyflwynwyd gan yr ymgeiswyr. Awgrymodd dau Swyddog Cyswllt Coetiroedd y gallai fod yn heriol iddynt weithiau benderfynu a oedd cynllun rheoli yn dangos yn glir sut y byddai'r safle'n bodloni Canlyniad hanfodol y Goedwig Genedlaethol o fod yn goetir gwydn o ansawdd da, wedi'i gynllunio a'i reoli'n dda. Mae adolygiad o'r 37 ffurflen gais gyntaf a gyflwynwyd ar gyfer Cynllun Statws y Goedwig Cenedlaethol yn dangos bod yr ymgeiswyr yn cyfeirio at eu cynllun rheoli yn eu hymatebion i gwestiynau'r ffurflen gais, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Cyswllt Coetiroedd adolygu'r cynllun rheoli fel rhan o'r broses asesu. Cydnabyddir bod hon yn broses asesu ansoddol a goddrychol a bod pob cais a safle’r Goedwig Genedlaethol yn wahanol iawn felly byddant yn cyflawni'r canlyniadau mewn ffyrdd gwahanol. Mae hon hefyd yn fenter newydd ac unigryw ac mae arferion yn dal i ddatblygu. Gall hyfforddiant ychwanegol helpu'r Swyddogion Cyswllt Coetiroedd i deimlo'n hyderus ynghylch y penderfyniadau proffesiynol a wneir wrth asesu'r ffurflenni cais.

Yn ymarferol, mae tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd yn adolygu'r cynlluniau rheoli a gyflwynir gan ymgeiswyr gan ddefnyddio'r rhestr o gynnwys gofynnol a amlinellir yn y canllawiau ar sut i lenwi'r ffurflen gais. Mae'r rhestr hon wedi'i harwain gan Safon Coedwigaeth y DU ac yn caniatáu i'r Swyddogion Coedwigaeth benderfynu a yw'r cynnwys gofynnol yn amlwg yn y cynllun rheoli a gyflwynwyd.

Hyd yn hyn, mae yna dri safle a wnaeth gais am Statws y Goedwig Genedlaethol heb gael eu hargymell i'w cymeradwyo yn dilyn eu cais cychwynnol.[troednodyn 11] Caiff ceisiadau eu hasesu gan y Swyddog Cyswllt Coetiroedd a fu’n ymwneud â'r darpar ymgeisydd ac yna cânt eu hadolygu gan aelod arall o'r tîm. Os yw barn y swyddog arweiniol a’r adolygydd arall yn wahanol, arweinydd y Tîm a lle bo angen rheolwr rhaglen Llywodraeth Cymru, sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ar yr argymhelliad / camau gweithredu i'w cymryd.

O safbwynt y tîm gwerthuso, mae'r manylion sydd wedi'u cynnwys yn y cynlluniau rheoli a gyflwynwyd ac a dderbyniwyd ar gyfer y rhai sy'n ymuno â'r Cynllun Statws yn rhan o'r dystiolaeth y gellid ei defnyddio i fonitro cynnydd parhaus y safleoedd. Er nad yw hyn yn rhan o rôl tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd ar hyn o bryd, dylai Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru ystyried a oes ffyrdd o gryfhau'r broses asesu i gefnogi darpariaeth hirdymor y rhaglen yn well.

O safbwynt ymgeiswyr, roedd profiadau o wneud cais i'r Cynllun Statws yn gadarnhaol. Gwnaeth tua 29 o 33 o aelodau’r cynllun fyfyrio ar eu profiadau o ymgeisio yn eu hymateb i’r arolwg, gyda dros ddwy ran o dair (21) o’r rhain yn nodi bod y broses naill ai’n glir a syml iawn neu’n eithaf clir a syml. Mae adborth ar gymorth y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd wedi'i gynnwys yn Adran 3.11, gan gynnwys barn ymgeiswyr ar y cymorth a dderbyniwyd gan Swyddogion Cyswllt Coetiroedd wrth baratoi a chyflwyno eu cais am Gynllun Statws.

Teimlai wyth aelod o'r Cynllun Statws fod y broses ymgeisio naill ai'n eithaf aneglur a heriol neu'n aneglur a heriol iawn (8 ymateb o 29). Dywedodd tri o'r 8 ymatebydd hyn nad oedd yn

[11] Mae'n bwysig nodi, mewn rhai achosion, bod dyddiadau dyfarnu’r ceisiadau wedi'u gohirio i roi amser i’r ymgeiswyr wneud y newidiadau angenrheidiol i'w ceisiadau neu i gwblhau'r camau gweithredu gofynnol yn eu safleoedd i fodloni'r meini prawf angenrheidiol.

glir beth oedd ei angen er mwyn ateb cwestiynau'r cais neu fod y broses yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr adolygu llawer o wybodaeth gefndirol cyn cyflwyno. Hefyd, adroddodd pump o wyth ymatebydd fod y ffurflen gais yn hir a/neu'n gymhleth ac yn cymryd amser hir i'w llenwi. Roedd yr awgrymiadau o feysydd i'w gwella a ddarparwyd gan 31 o ymatebwyr i'r arolwg (allan o 46) a thrwy gyfweliadau dilynol a gynhaliwyd yn ystod ymweliadau safle, yn cynnwys symleiddio'r broses ymgeisio, e.e. trwy symleiddio cwestiynau er mwyn osgoi'r canfyddiad o orgyffwrdd. Yn ogystal, argymhellodd pedwar aelod o'r cynllun statws bod canllawiau neu dempledi cliriach yn cael eu darparu ar gyfer paratoi cynlluniau rheoli.

## 3.9. Cyfraniad at Ganlyniadau'r Goedwig Genedlaethol

Mae asesiad o'r ceisiadau a gyflwynwyd i gyflawni Cynllun Statws y Goedwig Genedlaethol yn dangos i ba raddau y mae pob safle yn bodloni pob un o ganlyniadau'r Goedwig Genedlaethol. Noder mai'r canlyniad cyntaf 'Coetiroedd gwydn o ansawdd da, wedi'u dylunio a'u rheoli'n dda' yw'r unig ganlyniad gorfodol. Fel sy'n cael ei ddangos yn Nhabl 3.5 isod, mae 93% o'r 55 safle yn bodloni'r holl ganlyniadau nad ydynt yn orfodol, tra bod yr holl safleoedd eraill yn bodloni pump o'r chwe chanlyniad nad ydynt yn orfodol. Mae hyn yn awgrymu bod y rhan fwyaf o safleoedd sy'n gwneud cais i Gynllun Statws y Goedwig Cenedlaethol eisoes yn cyflawni ystod eang o effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol cadarnhaol. Yn ogystal, gan fod y rhan fwyaf o safleoedd wedi dangos eu bod yn bodloni pob un o Ganlyniadau'r Goedwig Genedlaethol, efallai y byddai'n werth ystyried a ddylid gwneud mwy o'r canlyniadau hyn yn orfodol mewn fersiynau o'r cynllun yn y dyfodol.

**Tabl 3.5 Cyfraniad y ceisiadau a aseswyd at Ganlyniadau'r Goedwig Genedlaethol**

| Maes canlyniad | Nifer y safleoedd sy'n cyflawni'r canlyniad | % o'r holl safleoedd (n=55) | Nifer y safleoedd nad ydynt yn cyflawni'r canlyniad | % o'r holl safleoedd (n=55) |
|---|---|---|---|---|
| Coetiroedd gwydn o ansawdd da, wedi'u dylunio a'u rheoli'n dda | 55 | 100% | 0 | 0% |
| Coetiroedd sy'n hygyrch i bobl | 54 | 98% | 1 | 2% |
| Y gymuned yn cymryd rhan mewn coetiroedd | 54 | 98% | 1 | 2% |
| Coetiroedd a choed deinamig, amlbwrpas | 55 | 100% | 0 | 0% |
| Coetiroedd cysylltiedig | 55 | 100% | 0 | 0% |
| Coetiroedd sy'n dangos dysgu, ymchwil ac arloesi | 53 | 96% | 2 | 4% |

Ffynhonnell: Tîm Swyddogion Cyswllt Coetiroedd, CNC

Coetiroedd sy'n dangos dysgu, ymchwil ac arloesi oedd y canlyniad mwyaf cyffredin yr aseswyd nad oedd wedi'i gyflawni ymhlith y safleoedd. Fodd bynnag, roedd hwn yn dal i fod yn nifer fach – nid oedd dau safle wedi cyflawni'r canlyniad hwn.

Mae adolygiad manwl o 37 o ffurflenni cais a gyflwynwyd gan safleoedd ar gyfer y Cynllun Statws yn rhoi cipolwg defnyddiol ar statws cyfredol y coetiroedd a'r uchelgeisiau ar gyfer pob safle fel yr adroddwyd gan ymgeiswyr yn adran 'Tystiolaeth Arall' y ffurflen gais. [troednodyn 12] Dylid monitro cynnydd yn erbyn cyflawni'r uchelgeisiau hyn drwy waith casglu data yn y dyfodol.

Er enghraifft, o ran mynediad, mae'r rhan fwyaf o'r 37 cais yn dangos gweithgareddau clir sy'n ymwneud â gwella mynediad ffisegol i safleoedd yn ogystal â chreu llwybrau newydd o fewn safleoedd i wella profiad ymwelwyr, cyfleusterau, dehongli ac arwyddion, a diogelwch. Mae hyn yn cynnwys gwaith i ddatblygu llwybrau hunan-dywys ac i ffurfioli llwybrau i gynorthwyo ymdrechion i amddiffyn cynefinoedd gan gynnwys ardaloedd lle mae coed newydd yn cael eu plannu. Fel a oedd yn amlwg yn yr ymweliadau â safleoedd yr astudiaethau achos, mae sawl safle wedi cynnal gwaith i osod llwybrau a rhodfeydd sy'n hygyrch i ymwelwyr â symudedd cyfyngedig neu amhariad o ran symudedd.

**Troednodiadau**

[12] Noder bod Tabl 3.5 yn cyflwyno data asesu a ddarparwyd gan dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd. Mae'r 37 ffurflen gais y cyfeirir atynt yma yn cyfeirio at y ffurflenni cais dienw a gyflenwyd i'r tîm gwerthuso ym mis Tachwedd 2024. Caiff manylion am y gwaith o gasglu'r data hwn yn adran fethodoleg yr adroddiad hwn.

Yn seiliedig ar ymatebion yn y ceisiadau, mae mwyafrif o safleoedd y Cynllun Statws (28 o 37 safle) yn cael eu cynorthwyo gan wirfoddolwr rheolaidd a/neu grŵp 'cyfeillion'. Mae gan ychydig o dan chwarter (8 safle) staff cyflogedig sy'n rheoli'r safle fel gwasanaeth Parcmyn neu gontractwyr. Mae dwy ran o dair (25 safle) yn croesawu ysgolion neu grwpiau ieuenctid ac mae traean (13 safle) yn cynnal diwrnodau agored sy'n darparu ar gyfer gweithgareddau fel plannu coed. Dim ond cyfran fach (4 safle) a nododd fod eu cyfranogiad cymunedol yn gyfyngedig, ac roedd 3 o'r rhain yn cyfeirio at fabwysiadu egwyddor yr ymyrraeth leiaf.

Mae hyn yn dangos yr ystod o weithgareddau cadarnhaol y mae safleoedd yn eu darparu neu'n bwriadu eu darparu i ymgysylltu a chynnwys eu cymunedau lleol mewn coetiroedd. Fodd bynnag, yn absenoldeb system ar gyfer casglu data monitro rheolaidd o safleoedd y Cynllun Statws, nid yw'n bosibl casglu tystiolaeth am y gweithgareddau sy’n cael eu cyflawni ar draws y rhwydwaith ac asesu sut mae'r rhain yn parhau i gyfrannu at ganlyniadau Coedwig Genedlaethol Cymru ar ôl cyflwyno’r ceisiadau. Caiff y pwynt hwn ei archwilio ymhellach yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

Pan ofynnwyd iddynt fynegi eu cynllun hirdymor neu eu huchelgais ar gyfer eu safle, cyfeiriodd tua thraean o’r ymgeiswyr (12 safle) at blannu coed neu greu coetiroedd a chyfeiriodd ychydig dros chwarter (10 safle) at adfer coetiroedd. Mae hyn yn awgrymu'r cyfraniad posibl y gallai safleoedd ei wneud yn y dyfodol at dargedau creu coetiroedd a phlannu coed a chynyddu bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau trwy waith adfer.

Pan ofynnwyd iddynt beth oeddent fwyaf balch ohono ac yn teimlo’n gyffrous yn ei gylch mewn perthynas â'u safle, roedd yr ymatebion mwyaf cyffredin yn ymwneud â'r cyfle i ymgysylltu a gweithio gydag ysgolion lleol a grwpiau cymunedol (25 safle), gwella bioamrywiaeth eu safle (17 safle) a chreu ardaloedd bywyd gwyllt penodol o fewn eu coetir (17 safle).

Drwy gyfweliadau manwl a gynhaliwyd â sampl o 13 safle yn ogystal â thrwy'r 6 ymweliad safle a gynhaliwyd gan y tîm gwerthuso, ymhelaethwyd ymhellach ar lawer o'r themâu a oedd yn amlwg yn y ceisiadau i ymuno â'r Cynllun Statws. Nododd ychydig dros hanner y safleoedd (7 o 13) fod ganddynt ddiddordeb arbennig mewn gwella mynediad i'r safle a hygyrchedd o fewn y safle yn ogystal â hwyluso cysylltiad pobl â natur. Pan ofynnwyd iddynt am eu huchelgeisiau ar gyfer eu safle, cyfeiriodd tri o'r 13 o dirfeddianwyr yn benodol at gynyddu bioamrywiaeth a chyflwyno rhywogaethau brodorol. Roedd pob safle yn croesawu'r 'bri' a'r gydnabyddiaeth y mae’r statws yn eu rhoi i'w coetir a rôl eu sefydliad wrth ei reoli.

Gyda'i gilydd, mae'r ffurflenni cais yn tynnu sylw at y cyfraniad y mae safleoedd y cynllun statws yn ei wneud nid yn unig i Ganlyniadau'r Goedwig Genedlaethol ond hefyd i ganlyniadau sy'n ymwneud ag addysg, datblygu sgiliau, gweithgarwch corfforol, iechyd a lles, bioamrywiaeth, a'r economi ymwelwyr.

## 3.10. Marchnata a hyrwyddo

Un o ganfyddiadau’r gwerthusiad o Gynllun Prosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol oedd bod mwy o waith i'w wneud i ymgysylltu â'r cyhoedd ehangach yn rhaglen y Goedwig Genedlaethol, gan gynnwys sicrhau ffocws ar ymgysylltu â chymunedau amrywiol. (Falzon, Tanner a Welford, 2022).

Roedd consensws ymhlith y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yr ymgysylltwyd â nhw drwy gyfweliadau ar gyfer y gwerthusiad hwn, nad oedd y Goedwig Genedlaethol wedi cael ei hyrwyddo a'i marchnata'n llawn ers 2022. [troednodyn 13] Nid oes gan y Goedwig Genedlaethol wefan bwrpasol i fod yn blatfform i ymgysylltu â darpar ddefnyddwyr ac aelodau'r cyhoedd ac i roi gwybodaeth iddynt. Fodd bynnag, mae gwybodaeth yn cael ei chynnal gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, sy'n cynnwys astudiaethau achos o nifer o safleoedd a manylion y Cynllun Statws. Mae rhywfaint o hyrwyddo hefyd wedi'i ddarparu drwy Gyfryngau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a thrwy Croeso Cymru, sydd hefyd yn cynnwys astudiaethau achos a manylion rhai o safleoedd y Goedwig Genedlaethol. [troednodyn 14]

Yn ôl lleiafrif o'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd, er bod hyn wedi datblygu deunyddiau marchnata ar gyfer darpar ymwelwyr a thwristiaid, mae'n debygol bod angen mwy o hyrwyddo o dan frand y 'Goedwig Genedlaethol' i sicrhau dealltwriaeth unedig a chlir o beth yw'r Goedwig Genedlaethol. Dyma farn a rennir gan bump o'r sefydliadau/safleoedd a gyfwelwyd ac a oedd yn cael eu cynorthwyo gan dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd, gan gynnwys y rhai sydd eisoes yn aelod o'r Cynllun Statws a'r rhai sy'n cael eu cynorthwyo i ymuno â'r rhwydwaith.

Mae tystiolaeth o'r Arolwg Barn Gyhoeddus diweddaraf ar Goedwigaeth o 2023 dangosodd fod 20% o'r rhai a holwyd yng Nghymru yn ymwybodol o gynlluniau ar gyfer Coedwig Genedlaethol newydd yng Nghymru, cynnydd ystadegol arwyddocaol o'i gymharu â 12% yn arolwg 2021 (Forest Research, 2023). [troednodyn15] Fodd bynnag, cynhaliwyd Arolwg Barn diweddaraf y Cyhoedd am Goedwigaeth ar ddechrau 2023, ychydig fisoedd ar ôl i dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd gael ei sefydlu ym mis Medi 2022 a chyn lansio Cynllun Statws Coedwig Genedlaethol Cymru.

Mae dadansoddiad o'r arolwg gwerthuso, a gynhaliwyd gan gyfranogwyr yn safleoedd Cynllun Statws Coedwig Genedlaethol Cymru a'r sawl a dderbyniodd gymorth y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd neu Goetiroedd Bach, yn dangos ymwybyddiaeth amrywiol o raglen y Goedwig Genedlaethol. Er bod mwyafrif yr ymatebwyr (31 o 44) wedi clywed am y Goedwig Genedlaethol cyn cael unrhyw gyswllt gan dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd, nid oedd tua thraean (13) wedi clywed amdani. Mae hyn yn awgrymu nad yw pob tirfeddiannwr yn ymwybodol o'r rhaglen, gan dynnu sylw at rôl barhaus i dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd wrth hyrwyddo Coedwig Genedlaethol Cymru a'r Cynllun Statws.

Er bod pob safle yn derbyn canllawiau brandio fel rhan o'u pecyn croeso ar ôl ymuno â'r Cynllun Statws, rhaid mynd ati'n weithredol i archebu arwyddion, ac nid yw pob safle wedi dewis gwneud hynny. O'r 13 safle a gymerodd ran mewn cyfweliad manwl, roedd tri a oedd heb archebu neu heb dderbyn arwyddion brand ar adeg cynnal y gwaith maes. Fodd bynnag, yn achos y rhai a oedd wedi derbyn a defnyddio'r arwyddion, roedd yr arwyddion wedi cael croeso da ac yn helpu eu hymdrechion i godi proffil eu safle o fewn eu cymuned.

---

**Troednodiadau**

[13] Fel yr amlygwyd yn y fethodoleg, mae'r rhanddeiliaid yn cynnwys staff Llywodraeth Cymru a staff o sefydliadau sy'n darparu'r dulliau cymorth ar gyfer Coedwig Genedlaethol Cymru.

[14] Cyflwyno Coedwig Genedlaethol Cymru

[15] Data arolwg yn seiliedig ar gyfweliadau â 1,047

> 'Rwy wedi cael rhai sylwadau am ba mor dda yw [yr arwyddion] … mae hynny wedi bod yn wych ac rydyn ni wedi tynnu lluniau i'w hanfon at bobl.' (Cyfweliad dilynol)

Mae pedwar safle wedi mynd ati'n weithredol i hyrwyddo Cynllun Statws y Goedwig Cenedlaethol drwy eu sianeli yn y cyfryngau cymdeithasol, a all gyfrannu at godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen yn eu cymunedau priodol. Mae nifer fach o safleoedd (dau) wedi bod yn fwy cymedrol yn eu dull o hyrwyddo eu llwyddiant wrth ymuno â'r Cynllun Statws oherwydd awydd i reoli nifer yr ymwelwyr (gan fabwysiadu egwyddor yr ymyrraeth leiaf).

> 'Y prif nod yw cadwraeth a gwarchodaeth naturiol y safle a chaniatáu i brosesau naturiol ganiatáu i'r Coetir adfer. Rydym yn caniatáu mynediad cyhoeddus i'r Coetir ond nid ydym yn annog nac yn hyrwyddo hynny mewn unrhyw ffordd gan y bydd gormod o ymwelwyr yn tarfu ar yr ecosystem naturiol.' (Cyfweliad dilynol)

Mae hyn yn awgrymu'r angen i ystyried yn ofalus unrhyw waith hyrwyddo a marchnata rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol yn y dyfodol. Ym marn y tîm gwerthuso, dylai'r amserlen ar gyfer unrhyw ymgyrch genedlaethol neu weithgarwch marchnata â ffocws fod yn ymwybodol o'r ffaith bod rhai safleoedd sy'n aelodau o'r Cynllun Statws yn dal i ddarparu gweithgareddau sy'n cael eu hariannu gan y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd ac efallai y byddant am aros i'r gwaith hwnnw gael ei gwblhau cyn ysgogi unrhyw dwf yn nifer yr ymwelwyr â'u safleoedd coetir. Bydd angen i unrhyw weithgarwch marchnata sydd â ffocws cenedlaethol hefyd gydnabod y safleoedd hynny sy'n ceisio rheoli niferoedd ymwelwyr yn ofalus neu sy'n mabwysiadu egwyddor yr ymyrraeth leiaf.

Mewn cyfweliadau manwl â phedwar o'r 13 sefydliad/safle a oedd yn ymwneud â neu'n cael eu cynorthwyo gan dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd, mynegwyd awydd i'r safleoedd dderbyn canllawiau, cymorth neu gyllid pellach i'w helpu i hyrwyddo a chynyddu ymgysylltiad â'u safleoedd coetir.

> 'Byddai'n braf pe bai cael statws y Goedwig Genedlaethol yn golygu rhywfaint o elfen hyrwyddo unigryw.' Yna byddem yn cael ein hyrwyddo fel safle ar blatfformau eraill na fyddem fel arfer yn gallu cael mynediad iddyn nhw, a fyddai'n taro cylchoedd eraill a chyrhaeddiad arall. Felly dyna fydd un o'r prif bethau i ni.' (Cyfweliad dilynol)

> 'Yr hyn roeddem yn gobeithio amdano oedd cael mwy o sylw'r cyhoedd, trwy fod yn rhan o'r cynllun y byddem ni'n cael ein hyrwyddo drwy lwybrau marchnata ac addysg, a'r sylw yna na fyddem fel arfer yn ei gael. Felly dyna oedd un o'r prif bethau i ni, o fod yn rhan o'r rhwydwaith hwn o Goetiroedd ledled Cymru, yw y bydd yn dod yn beth cydnabyddedig fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.' (Cyfweliad dilynol)

Caiff safleoedd sydd wedi ymuno â'r Cynllun Statws dderbyn amrywiaeth o adnoddau i'w helpu i hyrwyddo eu safle a rhaglen ehangach Coedwig Genedlaethol Cymru. Mae hyn yn cynnwys Pecyn Cymorth i Randdeiliaid, Canllawiau Brand a gwybodaeth am sut i gofrestru eu safle gyda Chroeso Cymru (os ydynt yn dymuno).

Awgrymodd dau safle a ymatebodd i gwestiwn yr arolwg ynghylch pa gymorth pellach yr hoffent ei weld fel rhan o'u haelodaeth o'r Cynllun Statws y byddai'n fuddiol i'r safleoedd

gael gwybod ymlaen llaw am unrhyw gynlluniau ar gyfer marchnata rhaglen a gweithgareddau Coedwig Genedlaethol Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o safleoedd aelodau.

Ym marn y tîm gwerthuso, heb adnoddau addas a chynllun clir ar gyfer hyrwyddo, efallai na fydd safleoedd rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol sydd yn hygyrch i'r cyhoedd yn cyflawni eu potensial o ran cynyddu nifer yr ymwelwyr a chefnogi'r economi ymwelwyr, gan gydnabod nad dyma unig ffocws Coedwig Genedlaethol Cymru ac nad yw Coetiroedd sy'n hygyrch i bobl a chynnwys y gymuned yn ganlyniadau hanfodol y mae'n rhaid i safleoedd eu bodloni.

Roedd nifer o randdeiliad, gan gynnwys y rhai o Lywodraeth Cymru, Rheolwyr y Gronfa ac aelodau o dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd yn eirioli dros greu map rhyngweithiol sy'n galluogi dangos lleoliad, nodweddion allweddol a 'chynnig' pob safle yn glir.

Ym marn y tîm gwerthuso, mae angen i weithgarwch marchnata a hyrwyddo yn y dyfodol ystyried gallu tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd i ymateb i ddarpar dirfeddianwyr. Heb reolaeth ofalus mae risg na fyddai gan y tîm yr adnoddau i ymdrin â chynnydd yn nifer yr ymholiadau a'r ceisiadau am gymorth. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen i ystyried pa ddull y dylid ei fabwysiadu o ran sut mae’r Swyddogion Cyswllt Coetiroedd am ymgysylltu yn y dyfodol pe bai anawsterau o ran adnoddau. Er enghraifft, gellid ymgymryd â 'dull tirwedd' gan dargedu’n fwy penodol, a allai flaenoriaethu ymdrechion y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd i ymgysylltu â mathau penodol o dirfeddianwyr neu mewn ardaloedd daearyddol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y Cynllun Statws ar hyn o bryd.

## 3.11. Tîm Cyswllt Coetiroedd

Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun Swyddogion Cyswllt Coetiroedd Coedwig Genedlaethol Cymru a fyddai wedi'u lleoli yn CNC. [troednodyn16] Mae chwe Swyddog Cyswllt wedi'u lleoli ym mhob un o ranbarthau'r Datganiadau Ardal [troednodyn17] ac un arweinydd tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd. Mae eu rôl yn barhaus i gynorthwyo perchnogion coetiroedd i greu a gwella safleoedd coetir a chyfeirio at gynlluniau perthnasol. Mae'r Swyddogion Cyswllt yn cynnig cymorth ar geisiadau am y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd a Choetiroedd Bach yn ogystal ag ar gyfer ceisiadau i'r Cynllun Statws.

Y prif amcanion ar gyfer tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd, fel sydd wedi’u nodi yn y cytundeb grant rhwng Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, yw i'r tîm gyfrannu at yr argymhellion a wnaed gan yr ymchwiliad manwl i goed a phren a gyhoeddwyd yn 2021 (Tasglu Coed a Phren, 2021), sef:

- Bydd CNC yn gweithio gyda chymunedau a busnesau i nodi safleoedd ar gyfer 30 o goetiroedd newydd i’r Goedwig Genedlaethol.

**Troednodiadau**

[16] Noder bod tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd wedi'i ffurfio gyntaf ym mis Medi 2022, ac roedd holl aelodau'r tîm wedi'u recriwtio erbyn mis Ionawr 2023.

[17] Mae Rhanbarthau’r Datganiadau Ardal yn cwmpasu’r ardaloedd canlynol yng Nghymru: De-ddwyrain Cymru, Canol De Cymru, De-orllewin Cymru, Canolbarth Cymru, Gogledd-ddwyrain Cymru, Gogledd-orllewin Cymru.

- Bydd CNC yn cynyddu ymgysylltiad â ffermwyr, tirfeddianwyr a chymunedau i annog a chydlynu gwaith plannu coed, a chyhoeddi canllawiau hawdd eu defnyddio ar Hwb Creu Coetiroedd.
- Ariannu swyddogion coetir cymunedol rhanbarthol i helpu grwpiau cymunedol i lywio sut maent yn ymwneud â Chyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol, a chynllunio ar gyfer adnoddau tymor hwy i gynnal coetiroedd sy’n cael eu creu. [troednodyn18]

Nododd bron pob ymatebydd i'r arolwg a dderbyniodd gyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd ac a dderbyniodd gymorth gan y Swyddog Cyswllt Coetiroedd ar eu cais am y grant fod y cymorth a gawsant yn effeithiol (18 o 20 o ymatebwyr i'r arolwg). Cafwyd ymateb cadarnhaol tebyg gan y rhai a dderbyniodd gymorth Swyddog Cyswllt Coetiroedd wrth wneud cais am gyllid Coetiroedd Bach (roedd 6 o 7 o ymatebwyr i'r arolwg yn mynegi bod y Swyddog Cyswllt Coetiroedd yn effeithiol). Mae hyn yn awgrymu bod tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd wedi rhoi cyngor ac arweiniad gwerthfawr ar y broses ymgeisio.

> 'Roedd [y Swyddog Cyswllt Coetiroedd] yn wybodus iawn am y broses a'r cais ei hun. Roedd [eu] cyngor yn hanfodol wrth ateb y cwestiynau'n effeithiol ac effeithlon. Bob amser ar gael i roi cymorth a diweddariadau o'r cais hyd at gwblhau.' (Ymatebydd yr arolwg)

Cyfeiriodd yr ymatebion at hygyrchedd a gwybodaeth tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd a gwerth Swyddogion Cyswllt unigol yn treulio amser ar y safle ac yn meithrin perthynas gadarnhaol â staff a/neu wirfoddolwyr. Mewn cyfweliadau ansoddol gyda â thri safle, pwysleisiwyd gwerth tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd wrth gynorthwyo’r safleoedd i wneud cais am gyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd fel rhan o'u taith i ymuno â'r Cynllun Statws:

> 'Oni bai am gymorth a chyngor proffesiynol, ni fyddem byth wedi'i wneud. Roedd [y Swyddog Cyswllt Coetiroedd] yn hynod o gymwynasgar, amyneddgar a chalonogol.' (Ymatebydd yr arolwg)
>
> 'Maen nhw wedi bod yn dda iawn. Dw i'n meddwl eu bod nhw'n darparu gwasanaeth da iawn. Rydyn ni wedi eu cael nhw allan ychydig o weithiau a phan oedden ni'n mynd trwy'r broses ymgeisio, roedden nhw'n dda iawn.' (Cyfweliad dilynol)
>
> 'Roedd y Swyddog Cyswllt Coetiroedd yn wybodus ac yn hawdd ymwneud â nhw ond nid yw'r cynllun yn briodol ar hyn o bryd. Cawson ni sgwrs gadarnhaol iawn gyda'r Swyddog Cyswllt Coetiroedd ac ni fyddem yn oedi cyn cysylltu â nhw eto yn y dyfodol.' (Cyfweliad dilynol)

O ystyried y twf tebygol yn nifer y safleoedd sy'n derbyn Statws y Goedwig Genedlaethol, bydd yn bwysig adolygu'r gofynion o ran capasiti a'r amser teithio sy'n gysylltiedig â chyswllt

---

**Troednodiadau**

[18] Noder bod y nodau hyn yn cael eu hadolygu gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd.

wyneb yn wyneb mewn safleoedd o ystyried y pwysigrwydd y mae aelodau’r cynllun yn ei roi i hyn.

Nododd ychydig dros hanner (21 o 31 o ymatebwyr yr arolwg) eu bod eisoes wedi gwneud cais am Statws y Goedwig Genedlaethol a'i gyflawni, ac roedd un safle wedi gwneud cais ond yn aros am ganlyniad eu cais. I'r rhai nad oeddent wedi gwneud cais, roedd 7 o 16 o ymatebwyr yr arolwg yn bwriadu gwneud cais yn y dyfodol a nododd yr un gyfran (7 o ymatebwyr yr arolwg) eu bod yn gweithio tuag at allu gwneud cais. Dywedodd y ddau ymatebydd sy'n weddill nad oedd ganddynt unrhyw gynlluniau i wneud cais am statws y Coedwig Genedlaethol yn y dyfodol.

Gan ddefnyddio’r ymatebion i’r arolwg ar-lein o safleoedd, roedd 14 o’r 16 safle nad oeddent wedi gwneud cais am y Cynllun Statws eto yn mynegi’r bwriad i wneud hynny. Mae hyn yn awgrymu cyfradd sgwrsio gymharol uchel ar gyfer safleoedd y mae tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd yn gweithio gyda nhw. Mae hyn yn darparu tystiolaeth bod tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd yn cefnogi ac yn annog safleoedd i wneud cais i'r Cynllun Statws ac ymuno â rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol.

Mae adborth gan dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd yn awgrymu y gall tirfeddianwyr yn aml gael trafferth gwahaniaethu rhwng Cynllun Statws y Goedwig Cenedlaethol a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy neu'r cynllun Creu Coetir. Mae brandio rhaglen Fy Nghoeden, Ein Coedwig, a hybwyd trwy ymgyrch genedlaethol uchel ei phroffil, fel rhan o raglen y Goedwig Genedlaethol hefyd wedi creu rhywfaint o ddryswch ymhlith tirfeddianwyr yn benodol oherwydd bod hyn yn cynnwys logo'r Goedwig Genedlaethol. Felly, maent wedi darparu adnodd i siarad â thirfeddianwyr i'w cynorthwyo i lywio'r amryw raglenni ac opsiynau, nodau'r Goedwig Genedlaethol ac amcanion y Cynllun Statws yn ogystal â chyfeirio ymlaen at gynlluniau eraill fel creu coetiroedd.

Os bydd y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd yn parhau i ddarparu ystod eang o gymorth i safleoedd y Cynllun Statws a safleoedd nad ydynt yn aelodau o'r cynllun eto, mae'n bosibl y gallai eu llwyth gwaith gynyddu. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch gallu tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd i barhau â'u rôl o gynorthwyo darpar ymgeiswyr, yn ogystal ag asesu ceisiadau a ddaw i law a gweithio gydag aelodau presennol i'w cynorthwyo i wireddu eu huchelgeisiau ar gyfer eu safleoedd.

O fewn cyfweliadau gwerthuso, codwyd y mater hwn gan sawl rhanddeiliad (tri) ar draws Llywodraeth Cymru a thîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd a oedd yn cydnabod bod llwyth achosion y Swyddogion yn cynyddu oherwydd y diddordeb cynyddol mewn ymuno â rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol a thwf aelodaeth y Cynllun Statws. Ym marn y tîm gwerthuso, mae hyn yn gofyn am gamau gweithredu i fodelu anghenion adnoddau yn y dyfodol sy'n cyd-fynd â thwf a rheolaeth rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol yn y dyfodol.

Dylai unrhyw ystyriaeth o adnoddau yn y dyfodol ystyried dosbarthiad daearyddol darpar safleoedd, safleoedd posibl neu safleoedd allweddol, yn ogystal â'r baich teithio ar dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd o ystyried gwerth ar y safle a’r pwyslais sydd ar hynny. Yn ymarferol, gallai hyn olygu y gallai fod angen mwy o adnoddau mewn rhai rhanbarthau Datganiad Ardal nag eraill o 2025 ymlaen.

Thema bellach a godwyd yn ystod cyfweliadau â rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru a CNC a thîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd eu hunain oedd yr angen i ystyried dull o ymgysylltu

â thirfeddianwyr sy'n targedu'n fwy penodol. Mae bwriad defnyddio model o recriwtio safleoedd i'r rhaglen sy'n targedu'n fwy penodol ar ôl i'r rhwydwaith gael ei sefydlu. Yn benodol, symud i ddull tirwedd i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau daearyddol yn rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol, er enghraifft.

Dywedodd tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd eu bod hyd yn hyn wedi bod yn ofalus wrth ymgysylltu â ffermwyr oherwydd sensitifrwydd ynghylch y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sydd wedi cyfrannu at broffil presennol y safleoedd y mae'r tîm wedi gweithio gyda nhw neu'r safleoedd y maen nhw'n dal i weithio gyda nhw. Drwy gyfweliadau â thîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd, amlygwyd y bu heriau hefyd ynghylch ymgysylltu â rhai awdurdodau lleol a'u hannog i ystyried ymuno â'r Cynllun Statws oherwydd eu pwysau cyllidebol ac adnoddau cyfyngedig i helpu i reoli coetiroedd.

Awgrymodd adborth gan y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd mai'r rhwystr a nodwyd amlaf i recriwtio safleoedd newydd yw'r gofyniad i feddu ar Gynllun Rheoli Coetiroedd, yn enwedig i berchnogion coetiroedd llai nad oes ganddynt efallai'r adnoddau i lunio un. Caiff hyn ei ddisgrifio gan ymatebydd i'r arolwg nad yw'n rhan o'r Cynllun Statws:

> Mae angen cymorth ariannol arnom i gynnal arolwg ecolegol manwl er mwyn i ni allu creu cynllun rheoli priodol. Mae angen cyllid arnom wedyn i gyflawni'r cynllun rheoli i greu coedwig gynaliadwy iach.' (Ymatebydd yr arolwg)

Mae hyn yn pwysleisio rôl bwysig y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd (neu gynllun grant tebyg) wrth hwyluso camau ymlaen tuag at wneud cais i'r Cynllun Statws gan fod y cyllid yn caniatáu defnyddio cyllid refeniw i helpu i baratoi cynllun rheoli hirdymor ar gyfer safleoedd coetir.

Fodd bynnag, amlygodd adborth gan dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd hefyd y gallai diffyg cyllid olyniaeth neu barhad i weithredu cynlluniau rheoli hefyd atal rhai tirfeddianwyr rhag gwneud cais. Yn gyffredinol, roedd y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd yn rhoi adborth bod angen mwy o gymorth yn aml ar dirfeddianwyr llai na thirfeddianwyr â safleoedd mwy.

## 3.12. Rhwydweithio a rhannu gwersi

Er mwyn hwyluso'r arfer o rannu gwersi, mae CNC wedi sefydlu Rhwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru. Rhwydwaith cenedlaethol yw hwn sy'n cael ei reoli gan dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd ac mae'n cynnwys aelodau Cynllun Statws y Goedwig Genedlaethol. Pwrpas y Rhwydwaith yw helpu safleoedd i rannu/dysgu/cydweithio a thrafod pynciau sy'n berthnasol i Aelodau Coedwig Genedlaethol Cymru. Nodau'r Rhwydwaith yw:

- Cynorthwyo safleoedd i gynnal a gwella eu coetiroedd yn unol â chanlyniadau'r Goedwig Genedlaethol.
- Hwyluso cyfleoedd rhwydweithio i safleoedd gefnogi ei gilydd a dysgu oddi wrth ei gilydd.
- Cynorthwyo safleoedd i feithrin a thyfu perthnasoedd cefnogol rhyngddynt eu hunain a chanfod/hwyluso cyfleoedd i gydweithio.
- Arddangos amrywiaeth safleoedd, rhannu arferion gorau, a ffyrdd o oresgyn heriau i safleoedd.

- Hwyluso cyfleoedd i ddysgu drwy glywed gan siaradwyr arbenigol a siaradwyr gwadd ar bynciau perthnasol.
- Lledaenu’r y gair am y Goedwig Genedlaethol a’u helpu i dyfu. Annog allgymorth o safleoedd Coedwig Genedlaethol Cymru i ymgysylltu â rheolwyr a pherchnogion coetiroedd eraill, gan feithrin twf y rhwydwaith.

Caiff y Rhwydwaith ei gynnal drwy gyfarfodydd ar-lein chwarterol, digwyddiadau penodol, ymweliadau safle rhanbarthol (diwrnodau agored) a chylchlythyrau chwarterol. [troednodyn 19]

Adroddodd pob un o'r saith safle a oedd eisoes yn aelodau o'r Cynllun Statws a gyfwelwyd eu bod yn rhan o Rwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru. Roedd yr adborth a gasglwyd yn ystod ymweliadau â safleoedd yr astudiaethau achos hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod safleoedd y Cynllun Statws yn cymryd rhan weithredol yn y cyfarfodydd rhwydweithio. Dywedodd tri o bob saith tirfeddiannwr eu bod wedi derbyn gwahoddiadau i gyfarfodydd (ar-lein ac ar y safle) ond eu bod wedi cael trafferth o ran capasiti i fynychu.

> 'Rwy'n cael llawer iawn o wahoddiadau i wneud pethau. Rhaid i mi ddweud nad oes gen i'r capasiti i ymwneud yn benodol ag ef, felly rydw i wedi gwrthod bron i bob cyfarfod.' (Cyfweliad dilynol)

Fodd bynnag, roedd adborth gan y rhai a gyfwelwyd ac a oedd wedi mynychu cyfarfodydd y rhwydwaith (pedwar o saith) yn egluro eu bod yn gyffredinol yn hapus â'r sesiynau ac yn eu cael yn ddefnyddiol.

> 'Mae yna rai siaradwyr diddorol wedi bod, maen nhw'n ddefnyddiol am eu bod yn helpu i ledaenu gwybodaeth ac mae'n ffordd o rwydweithio sy'n beth da.' (Cyfweliad dilynol)

> 'Dw i'n meddwl ei bod hi'n bwysig iawn rhwydweithio â phobl eraill. Mae pawb yn gwneud rhywbeth ychydig yn wahanol. Os oes gennych chi broblem, yna mae'n debygol bod gan rywun arall yr un broblem a does dim pwynt ailddyfeisio'r olwyn.' (Cyfweliad dilynol)

Croesawodd tirfeddianwyr y cyfle i gwrdd â safleoedd eraill a meithrin eu cysylltiadau. Roedd y safleoedd hefyd yn gwerthfawrogi'r cyswllt a roddodd y cyfarfodydd rhwydwaith iddynt â thîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd, a roddodd fynediad at gyngor, arweiniad a chymorth mewn amrywiaeth o feysydd. Ymhlith y pynciau neu'r themâu a awgrymwyd gan y safleoedd a gyfwelwyd ar gyfer cyfarfodydd Rhwydwaith y dyfodol roedd:

- Cyrsiau neu wersi ar reoli coetiroedd
- Cyflwyno bywyd gwyllt newydd i goetiroedd
- Hybu bioamrywiaeth a phrosesau naturiol
- Sut i weithio gyda CNC (e.e. sicrhau caniatâd ar gyfer gweithgareddau penodol)
- Cymorth ac opsiynau ariannu i safleoedd y Cynllun Statws.

Wrth i'r rhwydwaith dyfu wrth i fwy o safleoedd ymuno â'r Cynllun Statws, efallai y byddai'n fanteisiol sefydlu is-grwpiau neu gymunedau ymarfer sy'n clystyru safleoedd â nodweddion a dyheadau tebyg. Er nad yw mynychu cyfarfodydd y rhwydwaith yn orfodol, o ystyried

**Troednodiadau**

[19] Dosbarthwyd y cylchlythyr cyntaf ym mis Awst 2024.

gwasgariad daearyddol safleoedd y Cynllun Statws, gall fod yn anodd i aelodau fynychu digwyddiadau rhwydweithio wyneb yn wyneb sy'n cael eu cynnal mewn safleoedd penodol sydd gryn bellter o'u safle eu hunain.

## 3.13. Y Gymraeg

Fel y nodwyd yn Adran 2, mae'r gwerthusiad hwn yn ceisio archwilio profiadau ymgeisio a chyflawni sefydliadau ac unigolion sydd wedi dewis ymgeisio i gynlluniau ariannu neu'r Cynllun Statws yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oes gofyniad ynghylch y Gymraeg ar gyfer safleoedd sy'n defnyddio unrhyw un o ddulliau cyflawni'r Goedwig Genedlaethol. Mae'r arolwg gwerthuso a'r ymatebion i'r cyfweliadau manwl yn adlewyrchu barn y safleoedd a oedd wedi'u cynnwys yn y sampl, ond ni ddewiswyd y safleoedd hyn yn fwriadol.

Ni roddodd ymatebion yr arolwg unrhyw ddealltwriaeth o brofiadau'r rhai sydd wedi dewis gwneud cais i'r cynlluniau ariannu neu'r Cynllun Statws yn y Gymraeg. Dim ond dau sefydliad a ddywedodd eu bod wedi gwneud cais i ymuno â'r Cynllun Statws yn y Gymraeg ac ni adroddwyd am unrhyw heriau. Ar hyn o bryd, nid yw Ffurflen Gais y Cynllun Statws yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu manylion ynghylch sut maen nhw'n bwriadu ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau Cymraeg. Gellid ychwanegu hyn i gynorthwyo dealltwriaeth o sut mae safleoedd yn bwriadu ymgysylltu â'r gymuned hon a'i chynnwys.

Dim ond un ymatebydd i'r cyfweliad manwl a wnaeth sylwadau ar eu profiadau o gynnwys cymunedau Cymraeg, gan nodi nad oeddent wedi bod yn arbennig o lwyddiannus hyd yn hyn. [troednodyn 20] Priodolwyd hyn gan y cyfwelai i'r ffaith bod llawer o bobl yn eu cymuned yn ffermwyr a bod ganddyn nhw eu tir eu hunain i'w reoli felly gall fod yn heriol eu hannog i gymryd rhan mewn diwrnodau agored neu ddigwyddiadau eraill sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

> 'Dydyn ni ddim wedi bod yn arbennig o lwyddiannus wrth gael y gymuned Gymraeg i ymuno. Dwi'n meddwl bod hyn am ein bod ni'n ardal wledig iawn…mae popeth rydyn ni'n ei gynhyrchu yn cael ei gyfieithu…mae yna ychydig o bobl sy'n dod sy'n siaradwyr Cymraeg, ond yn bennaf nid y gymuned Gymraeg ydy hi.' (Cyfweliad dilynol)

Barn o un safle yw hon ac nid yw'n glir a yw safbwyntiau tebyg yn cael eu rhannu ymhlith safleoedd eraill neu a yw hyn yn ystyriaeth iddyn nhw. Wrth symud ymlaen, gallai hyn fod yn faes ffocws i'r Rhwydwaith ac o bosibl gallai gael ei gynnwys mewn unrhyw ffurflen fonitro neu ddiweddariad ar gyfer safleoedd sydd wedi sicrhau'r statws.

## 3.14. Crynodeb o'r hyn a weithiodd yn dda a meysydd i'w gwella

Yn seiliedig ar y gwaith maes a gwblhawyd hyd yma, caiff y crynodeb canlynol ei gyflwyno i amlygu'r hyn sydd wedi gweithio'n dda a'r hyn y gellid ei wella o ran cyflawni rhaglen y Goedwig Genedlaethol ers 2022.

---

**Troednodiadau**

[20] Noder y gofynnwyd i bob ymatebydd a gymerodd ran mewn yn y cyfweliadau manwl a oeddent wedi ceisio ymgysylltu â chymunedau Cymraeg eu hiaith drwy weithgarwch ar y safle a rhoi manylion am eu profiadau.

## 3.15. Yr hyn a weithiodd yn dda

Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi chwarae rhan werthfawr wrth hybu twf rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol. Yn ogystal ag annog a chynorthwyo safleoedd i fod yn barod i ymuno â'r Cynllun Statws, mae hefyd yn parhau i gynorthwyo safleoedd sydd eisoes wedi dod yn aelodau ac wrth wneud hynny yn eu cynorthwyo i gyfrannu at chwe chanlyniad lefel uchel y Goedwig Genedlaethol.

Er bod llai o grantiau Coetiroedd Bach na'r Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd ac mae'n debygol y bydd y ddarpariaeth yn brin o'r targed o 100 o Goetiroedd Bach, mae'r dull cyflawni hwn wedi helpu i sefydlu nifer fach o safleoedd coetir newydd mewn mannau trefol a mannau o amgylch trefi.

Mae adolygiad o'r 37 ffurflen gais gyntaf a gyflwynwyd ar gyfer Cynllun Statws y Goedwig Cenedlaethol yn awgrymu bod tua thraean o'r safleoedd wedi cwblhau'r gwaith plannu'n ddiweddar neu'n bwriadu creu coetir newydd. Mae hyn yn rhoi arwydd y gall y rhwydwaith gyfrannu at amcanion plannu a chreu coetiroedd, ac y bydd yn gwneud hynny, er nad yw hyn yn ofyniad gorfodol i ymuno â'r Cynllun Statws.

Mae adborth cadarnhaol wedi'i gasglu ar y broses o wneud cais i'r Cynllun Statws gan y rhai a ymatebodd i'r arolwg, gan ddarparu tystiolaeth bod y prosesau ymgeisio ac asesu yn glir ac yn gymesur.

O ran y safleoedd sydd wedi ymuno â Chynllun Statws y Goedwig Cenedlaethol, roedd y rhan fwyaf o'r sefydliadau o'r farn bod y cymorth a'r cyngor a ddarparwyd gan dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd yn effeithiol iawn. Nododd bron pob ymatebydd i'r arolwg a oedd wedi derbyn cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd a chyllid Coetiroedd Bach fod y cymorth a gawsant gan eu Swyddog Cyswllt Coetiroedd yn effeithiol, gan ddarparu cyngor ac arweiniad gwerthfawr ar y broses ymgeisio a helpu i sicrhau bod eu cyflwyniadau'n cyd-fynd â nodau'r rhaglen.

Mae tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd yn cael eu hystyried yn hawdd mynd atynt ac yn wybodus.  Maent hefyd wedi ymgysylltu â thirfeddianwyr a chymunedau i ddatblygu ffrwd o safleoedd a allai ymuno â'r Cynllun Statws yn y dyfodol. Ym marn y tîm gwerthuso, maent yn rhan annatod ac angenrheidiol o gyflawniad y rhaglen.

Derbyniwyd adborth cadarnhaol ynghylch rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol, sy'n galluogi safleoedd i rannu gwybodaeth, arferion a gwersi. Mae gan yr agwedd hon ar y cyflawniad botensial gwirioneddol i hybu cyflawniad yn erbyn y chwe chanlyniad lefel uchel a chyflawni effeithiau tymor hwy ar goetiroedd a chymunedau trwy rannu gwersi ar weithgareddau a rheolaeth ar safleoedd y Cynllun Statws.

## 3.16. Meysydd i'w Gwella

Nododd nifer fach o randdeiliaid (3 o'r 10 a gyfwelwyd) eu bod yn ansicr ynghylch a yw prif ffocws y rhaglen ar gefnogi'r economi ymwelwyr trwy greu llwybr cenedlaethol, neu ar amcanion amgylcheddol fel plannu coed, gwella bioamrywiaeth, ac ehangu coetiroedd, sy'n cyd-fynd â nodau craidd Strategaeth Coetiroedd i Gymru. Er bod consensws o gefnogaeth i'r rhaglen gan y rhanddeiliaid, byddai'n ddefnyddiol ailddatgan y cysyniad, y dull cyflawni a'r

amserlenni cysylltiedig a'u cyfleu i sefydliadau sy'n rhanddeiliaid allweddol sef Llywodraeth Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Llais y Goedwig a Choed Cadw.

Wrth wneud cais am y Cynllun Statws, mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno eu cynllun rheoli gyda'u cais. Dylai Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru ystyried a oes ffyrdd o gryfhau'r broses asesu i gefnogi darpariaeth hirdymor y rhaglen yn well.

Er bod rhywfaint o weithgarwch hyrwyddo wedi'i gynnal, byddai'n ddefnyddiol llunio cynllun marchnata a chyfathrebu clir gyda â digon o adnoddau ar gyfer y rhaglen. Gallai hyn gynnwys mwy o gymorth ac arweiniad ar gyfer safleoedd y Cynllun Statws, y tu hwnt i'w pecyn cychwynnol o ganllawiau i randdeiliaid, yn ogystal â gweithgarwch hyrwyddo ar lefel y rhaglen.

Disgwylir i ddull tirwedd helpu i lenwi bylchau yn y rhwydwaith ac arwain ffocws tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd yn y dyfodol. Wrth i'r rhaglen fynd rhagddi, bydd y dull hwn yn cael ei ddatblygu a'i egluro ymhellach, gan gynnwys ymdrechion wedi'u targedu yn seiliedig ar broffil safleoedd sydd eisoes o fewn y Cynllun Statws. Er mwyn iddi fod mor effeithiol â phosibl, bydd yn bwysig diffinio sut a pham y caiff safleoedd penodol eu dewis, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r rhwydwaith presennol a nodau'r rhaglen.

# 4. Canlyniadau ac Effeithiau sy'n Dod i'r Amlwg

Er bod yr adroddiad hwn wedi canolbwyntio'n bennaf ar agweddau’r prosesau ar gyflawni rhaglen y Goedwig Genedlaethol dros y cyfnod 2022-2024, mae’r gwaith maes wedi canfod rhai themâu sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â chyflawni canlyniadau ac effeithiau tymor hwy ar draws y safleoedd coetir. Mae'n bwysig nodi y bydd ystyriaethau ynghylch sut i asesu canlyniadau ac effeithiau yn y dyfodol yn cael eu hystyried yn fanylach yng ngham 2 o'r gwerthusiad hwn.


## 4.1. Canlyniadau Coedwig Genedlaethol Cymru

Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg a oedd wedi derbyn Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd roi sylwadau ar y graddau y maent wedi cyflawni yn erbyn canlyniadau Coedwig Genedlaethol Cymru. Y prif thema a adroddwyd gan yr holl safleoedd a ymatebodd i'r arolwg oedd ei bod yn rhy gynnar i ddangos tystiolaeth o effeithiau ar draws canlyniadau Coedwig Genedlaethol Cymru.

Fodd bynnag, dywedodd hanner y safleoedd (10 o 20 o safleoedd y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd a arolygwyd) eu bod wedi gwneud llawer o gynnydd yn erbyn y nodau a'r amcanion a oedd wedi’u datgan yn eu cais am Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd. Dywedodd ychydig dros draean (7 o 20 safle Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd) eu bod wedi gwneud rhywfaint o gynnydd a nododd 3 safle, ar adeg cynnal yr arolwg, nad oeddent wedi gwneud unrhyw gynnydd a bod hynny’n bennaf oherwydd oedi gweinyddol wrth sicrhau cymeradwyaeth i fwrw ymlaen â'u cyllid grant (gweler Ffigur 4.1). [troednodyn 21]

[21] Ni ofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg wneud sylwadau ar gynnydd yn erbyn pob canlyniad ond yn fwy cyffredinol ar gynnydd yn erbyn y canlyniadau y cyfeiriwyd atynt yn eu cais am y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd. Mae hyn yn cynnwys y tri chanlyniad hanfodol: Coetiroedd gwydn o ansawdd da, wedi'u dylunio a'u rheoli'n dda; Coetiroedd sy'n hygyrch i bobl; a’r gymuned yn cymryd rhan mewn coetiroedd.

**Ffigur 4.1 Cynnydd y sefydliadau a dderbyniodd grant yn erbyn cyflawni canlyniadau'r Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd**




Disgrifiad o ffigur 4.1: Dywedodd 10 derbynnydd grant eu bod wedi gwneud llawer o gynnydd - rydym wedi gweld tystiolaeth sy'n awgrymu ein bod wedi cyflawni'r nodau a'r canlyniadau hyn. Dywedodd 7 derbynnydd grant eu bod wedi gwneud rhywfaint o gynnydd - rydym yn gweld rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu ein bod yn dechrau cyflawni'r nodau a'r canlyniadau hyn. Dywedodd 3 derbynnydd grant na wnaed unrhyw gynnydd - nid ydym wedi gweld tystiolaeth i awgrymu ein bod yn dechrau cyflawni'r nodau a'r canlyniadau hyn eto.

Ffynhonnell: Arolwg Wavehill o safleoedd/ n= 20 o dderbynwyr Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd

Dywedodd dau safle a ymatebodd i'r arolwg fod y cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd y gwnaethant ei dderbyn wedi gwella hygyrchedd eu safle, ac wedi cyfrannu at ganlyniad Coetiroedd sy'n hygyrch i bobl. [troednodyn 22] Mae'r rôl hon y mae'r Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi'i chwarae wrth wella mynediad hefyd yn cael ei dangos drwy geisiadau'r Cynllun Statws yn ogystal â thrwy drafodaethau'r ymweliadau safle lle dywedodd y safleoedd eu bod wedi defnyddio'r Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd i wella mynediad i safleoedd ffisegol drwy uwchraddio a gwella llwybrau presennol neu osod llwybrau a rampiau newydd, atgyfnerthu ffensys perimedr a chyfyngu ar fynediad i gerbydau i'w gwneud yn fwy diogel i gerddwyr.

**Troednodiadau**

[22] Noder nad yw wedi bod yn bosibl eto fel rhan o'r gwaith maes i farnu a yw'r safleoedd wedi gweld cynnydd mewn mynediad i safleoedd neu a yw'r safleoedd yn fwy hygyrch.

Wrth fyfyrio, mynegodd y safleoedd y byddai hyn yn helpu i yrru cynnydd yn erbyn canlyniadau lefel uchel eraill yn y dyfodol. Mae gwerth cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd hefyd wedi'i fynegi gan chwe safle yn eu cais i ymuno â'r Cynllun Statws:

> 'Mae prosiect y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi ein galluogi i ddatblygu a thyfu grŵp gwirfoddol yn y gymuned leol, ac rydym wedi bod yn darparu hyfforddiant iddyn nhw mewn arolygu bywyd gwyllt i gofnodi ein data sylfaenol nad yw erioed wedi'i gofnodi o'r blaen yn y coetiroedd hyn, yn enwedig ein planhigion is a rhywogaethau o adar coetir sydd ar y rhestr goch.' (Ffurflen Gais y Cynllun Statws)

> 'Mae'r boblogaeth o amgylch [y safle] yn fach… mae hon yn ardal wledig iawn. Hyd yn hyn nid ydym wedi cael unrhyw ymdrech fawr i gynnwys y gymuned leol wrth helpu i reoli ein coetiroedd. Fodd bynnag, mae'r Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi ein galluogi i gyflogi Parcmon penodol i dreulio amser yn meithrin y cysylltiadau cymunedol hynny trwy estyn allan at drigolion y pentref ac at gymunedau a grwpiau ehangach i gysylltu â ni a'n helpu i gyflawni amcanion fel ailblannu mewn rhai o'n coetiroedd i helpu o ran y gwelliannau mynediad rydym yn eu rhoi ar waith.' (Ffurflen Gais y Cynllun Statws)

Mewn cyfweliadau manwl â 7 safle a oedd wedi ymuno â'r Cynllun Statws, amlygwyd cynnydd ar draws nifer o'r canlyniadau lefel uchel, gan gynnwys gwella cysylltedd rhwng coetiroedd trwy gydweithio â thirfeddianwyr ar gyfer safleoedd coetir cyfagos, cynorthwyo gwelliannau i ansawdd a rheolaeth y safle coetir trwy waith adfer a chadwraeth a phlannu a chynnwys cymunedau trwy ddiwrnodau agored, diwrnodau gwirfoddoli a darparu cyfleoedd addysg a dysgu.

Yn eu hymatebion i'r arolwg, cyfeiriodd dau o'r deg safle a ymatebodd i'r cwestiwn at ganlyniadau anfwriadol eu cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd. Roedd hyn yn ymwneud â mwy o gymorth gan eu hawdurdod lleol yn achos un a mwy o bwysau ar gapasiti staff yn achos y llall.

Mae'r adborth a gasglwyd ac a gydgrynhowyd gan dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd ar y newidiadau a'r canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer safleoedd a dderbyniodd gyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd yn cynnwys:

- Comisiynu lluniau a darnau ffilm drôn proffesiynol i helpu i hyrwyddo'r safle i ddarpar ymwelwyr
- Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr
- Ehangu'r hyn sy'n cael ei gynnig i ymwelwyr
- Cyflwyno tîm newydd o barcmyn
- Mwy o ymdeimlad o falchder a pherchnogaeth ymhlith gwirfoddolwyr
- Lansio mentrau a chyfleoedd hyfforddi yn ymwneud â choetiroedd i bobl leol.

Yn ô y rhan fwyaf o'r sefydliadau (6/7) a dderbyniodd gyllid Coetiroedd Bach ac a gymerodd ran mewn cyfweliadau manwl, nid oedd eu safle wedi'i blannu eto neu roeddent ar gamau datblygu cynnar.

## 4.2. Systemau a phrosesau monitro

Ar hyn o bryd nid oes Theori Newid ar lefel rhaglen ar gyfer rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru, er bod model wedi'i greu trwy werthuso Prosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol. Er ei bod hi'n bosibl cydgrynhoi manylion am y gweithgareddau a'r allbynnau a gynorthwywyd gan ddatblygiad y rhaglen (e.e. nifer y ceisiadau am gyllid grant, dyfarniadau grant, cyfarfodydd y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd, cyfarfodydd rhwydwaith), nid oes unrhyw fetrigau perfformiad wedi'u cytuno (canlyniadau tymor byr) i fesur cynnydd parhaus y rhaglen yn erbyn y chwe chanlyniad lefel uchel a sefydlwyd.

Pan ofynnwyd sut roedd cynnydd yn erbyn canlyniadau Coedwig Genedlaethol Cymru yn cael ei fesur, roedd ymatebion yr arolwg yn amwys ar y cyfan. Er bod gofyn i safleoedd sy'n ymuno â'r Cynllun Statws gyflwyno eu cynlluniau rheoli, nid oes fformat safonol ar gyfer y rhain ar hyn o bryd. Ym marn y tîm gwerthuso, byddai'n ddefnyddiol cynnal dadansoddiad thematig o gynlluniau rheoli ar draws safleoedd y Cynllun Statws i nodi pa brosesau monitro, os oes rhai, sydd ar waith, pa ganlyniadau y mae safleoedd yn gweithio tuag atynt ac a yw'r cynlluniau hyn yn cynnwys gwybodaeth am y data a gesglir yn rheolaidd ac ansawdd y data.

Fel sy'n cael ei amlygu yn Nhabl 3.6., aseswyd, trwy eu ceisiadau, bod y rhan fwyaf o'r safleoedd ar hyn o bryd yn cyfrannu at bob un o bum canlyniad y Goedwig Genedlaethol nad ydynt yn orfodol. Fodd bynnag, gan nad oes gofyn i'r safleoedd sy'n rhan o'r Cynllun Statws gyflwyno unrhyw ffurflenni monitro rheolaidd yn amlinellu cynnydd yn erbyn eu gweledigaeth a'u huchelgeisiau a nodwyd yn eu ffurflen gais, nid oes unrhyw ddata na gwybodaeth wedi'i chasglu ynghylch sut y byddant yn parhau i gyflawni'r canlyniadau ac effaith gweithgarwch y safle. I fynd i'r afael â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu cyfres o ddangosyddion i helpu i fesur sut mae Coedwig Genedlaethol Cymru yn datblygu ac a yw'n cyflawni ei hamcanion. [troednodyn 23] Efallai y gofynnir i safleoedd am wybodaeth ynghylch sut mae eu coetiroedd yn cyfrannu at y dangosyddion hyn ar ôl iddynt gael eu datblygu. Gallai hyn gefnogi'r gwiriad 5 mlynedd presennol sy'n cael ei gynnal gyda safleoedd i sicrhau bod y safonau'n cael eu cynnal a bod Canlyniadau Coedwig Genedlaethol Cymru yn dal i gael eu cyflawni. Lle gofynnir i safleoedd ddarparu gwybodaeth ychwanegol i helpu i fesur cynnydd Coedwig Genedlaethol Cymru, mae'n bwysig bod y mesurau hyn yn gyraeddadwy ac yn cyfateb i gapasiti pob safle.

Mae ffurflenni cais y Cynllun Statws yn dangos amrywiaeth a chreadigrwydd sylweddol yn y ffordd y mae safleoedd yn ymgysylltu â chymunedau lleol a'u cynnwys, neu sut maen nhw'n bwriadu gwneud hynny. Gellir dangos hyn yn y dyfyniad isod a ddaw o gais a gyflwynwyd i ymuno â'r rhwydwaith.

> 'Mae llawer o grwpiau a chategorïau o ymwelwyr yn mwynhau ein mannau coediog, o gwsmeriaid achlysurol y ganolfan ymwelwyr i dripiau ysgol a grwpiau sgowtiaid lleol sydd wedi'u trefnu. Mae natur amrywiol ein hymwelwyr hefyd yn cael ei hadlewyrchu yn nyluniad a defnydd ein coetir. Ar hyn o bryd mae [y safle] yn cynnwys llwybr stori hyfryd, gyda cherfiadau pren trawiadol a llwybrau adrodd straeon difyr sy'n ennyn diddordeb yr ymwelydd drwy gynnig profiad

**Troednodiadau**

[23] Coedwig Genedlaethol Cymru - Cynllun Statws: Canllawiau

rhyngweithiol cyfoes o stori wedi'i arwain gan godau QR. Mae hyn yn boblogaidd iawn gan deuluoedd, ysgolion a grwpiau sgowtiaid fel ei gilydd. Mae llawer o'n hardaloedd ar ymyl y coetir yn cynnwys ardaloedd picnic parod gyda dodrefn o'r goedwig a byrddau picnic wedi'u gwneud drwy ailgylchu ac ailddefnyddio deunyddiau, ac mae'r cyfan yn cyd-fynd â sensitifrwydd ecolegol unigryw'r safle.' (Ffurflen Gais y Cynllun Statws)

Mae'r diffyg camau parhaus i gasglu data ar ôl i'r safleoedd gyflwyno eu ceisiadau yn cyflwyno risg o dystiolaeth annigonol o gynnydd safleoedd unigol a'r rhaglen gyfan yn erbyn y chwe chanlyniad lefel uchel, yn ogystal â'i chyfraniad at feysydd polisi ehangach. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch sut y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru neu Lywodraeth Cymru yn mesur y cyfraniad cyffredinol y mae'r rhaglen yn ei wneud tuag at dargedau fel plannu coed a chreu coetiroedd neu amcanion sy'n ymwneud ag ymgysylltu a chynnwys cymunedau lleol neu ddarparu cyfleoedd i wirfoddoli. Ar hyn o bryd nid oes dull i gofnodi hyn ar lefel y rhaglen.

Mae Canllawiau Cynllun Statws Coedwig Genedlaethol Cymru yn mynegi'r chwe chanlyniad ond nid ydynt yn cynnwys unrhyw ddangosyddion perfformiad allweddol y gellir mesur cynnydd yn eu herbyn. Nid yw ychwaith yn cyfeirio'n benodol at y 23 o ddangosyddion Coetiroedd i Gymru a gyhoeddwyd yn 2019. Mae hyn yn nodi'r angen am eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch y disgwyliadau i safleoedd Cynllun Statws y Goedwig Cenedlaethol adrodd ar eu gweithgarwch a'u cynnydd tuag at ganlyniadau. Er enghraifft, gallai'r math o dystiolaeth neu gynnydd y dylai safleoedd y Cynllun Statws ei ddarparu i gynnal eu statws adeg y gwiriad pum mlynedd neu i gadw eu statws ar y pwynt deng mlynedd, fel yr amlinellir yng nghanllawiau'r Cynllun Statws, fod yn gliriach.

Yn y cyfweliadau â rhanddeiliaid, amlygwyd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch defnyddio a mabwysiadu Dangosyddion Coetiroedd i Gymru fel dull o fonitro cynnydd y rhaglen wrth gyflawni'r canlyniadau lefel uchel a nodwyd yn Strategaeth Coetiroedd i Gymru.

Mae absenoldeb unrhyw ddangosyddion safonol a phroses fonitro reolaidd ar hyn o bryd yn cyfyngu ar y gallu i adrodd ar y cyfraniad y mae'r safleoedd yn ei wneud ar y cyd tuag at ystod o amcanion polisi a mesuriadau eraill megis y dangosyddion llesiant cenedlaethol.

Er enghraifft, nid oes sefyllfa sylfaenol ar gyfer safleoedd yn unigol na'r rhwydwaith yn ehangach o ran niferoedd ymwelwyr na phroffil ymwelwyr. Felly, nid yw'n bosibl pennu a yw rhaglen y Goedwig Genedlaethol yn hybu twf yn nifer yr ymwelwyr ac ar gyfer pa gymunedau.

Yn yr un modd, nid oes data canolog ar nifer y cyfleoedd addysgol neu ddysgu a ddarperir gan y safleoedd (gan gynnwys sgiliau'r goedwig) na dealltwriaeth o nifer y swyddi, hyfforddeiaethau na chyfleoedd gwirfoddoli sy'n cael eu galluogi. Byddai set safonol o ddata a fyddai'n rhoi manylion nifer y cyfleoedd a ddarperir ar draws y safleoedd yn dangos y gwerth gwirioneddol a ddarperir gan rwydwaith o goetiroedd gwydn o ansawdd da, sydd wedi'u dylunio a'u rheoli'n dda.

Bydd cam nesaf y gwerthusiad yn asesu sut mae rhaglenni cymharol ar draws gwledydd eraill y DU yn mynd ati i gasglu metrigau allweddol er mwyn gallu asesu'r effaith. Gall hyn gynnwys y Goedwig Genedlaethol, Rhaglen Coedwigoedd Cymunedol ac Ystad Coedwigoedd Cyhoeddus yn Lloegr a'r Cynllun Grantiau Coedwigaeth yn yr Alban.

Mae'r Rhaglen Coedwigoedd Cymunedol, sy'n cael ei rheoli gan Ymddiriedolaeth Coedwigoedd Cymunedol, wedi sicrhau cyllid trwy Defra i gasglu data ar draws y 15 safle a darparu ffurflen monitro data i'w galluogi i adrodd yn erbyn targedau a chanlyniadau allweddol. Ar hyn o bryd nid oes gan raglen Coedwig Genedlaethol Cymru broses debyg o ffurflen i gasglu data wedi'i sefydlu – felly, bydd yn ddefnyddiol deall sut mae hyn wedi gweithio yn Lloegr ac a ddylid mabwysiadu dull o'r fath yng Nghymru.

## 4.3. Newidiadau yn rheolaeth y safleoedd

Gofynnwyd i'r safleoedd a oedd gwneud cais am Statws Coedwig Genedlaethol ac ennill y statws hwnnw wedi arwain at unrhyw newid i'w coetir. Dywedodd y safleoedd a ymatebodd i'r arolwg ac a ymgysylltodd drwy gyfweliadau ei bod hi'n rhy gynnar i ddweud, er bod llawer o safleoedd wedi nodi bod y cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd a Choetiroedd Bach y gwnaethant ei dderbyn wedi gwella hygyrchedd eu safle drwy osod llwybrau a rhodfeydd newydd a thrwy waith clirio.

Yn seiliedig ar ymatebion i'r arolwg a chyfweliadau manwl â sampl o safleoedd, dywedodd dros hanner yr ymatebwyr i'r arolwg nad ydynt wedi gwneud unrhyw newidiadau sylweddol yn y ffordd y caiff eu coetir ei reoli. Er enghraifft, dywedodd 6 o'r 11 o gyfweleion a ymatebodd nad oedd rheolaeth eu safle coetir wedi newid llawer ar ôl gwneud cais am statws y Goedwig Genedlaethol neu ennill y statws hwnnw. O ystyried bod derbyn y statws yn gydnabyddiaeth bod safleoedd wedi cael eu hasesu fel rhai sy'n cael eu rheoli'n dda, nid oes disgwyl y byddai'r safleoedd yn newid eu cynlluniau rheoli ar ôl ymuno â'r rhwydwaith. Fodd bynnag, mae hwn yn faes a allai ddatblygu trwy gyfnewid gwybodaeth a dysgu ar y cyd, wedi'i hwyluso trwy gyfarfodydd rhwydwaith i safleoedd ar y Cynllun Statws.

> 'Rwy'n credu bod gennym ni'r un nodau a thargedau o hyd ag oedd gennym ni pan wnaethon ni gymryd yr awenau dros y tir gyntaf. Yn amlwg, mae wedi ein helpu i fynd i'r cyfeiriad hwnnw, y cyfeiriad lle'r oedden ni eisiau mynd beth bynnag.' (Cyfweliad dilynol)

Lle adroddwyd ar newidiadau i reolaeth safleoedd, roedd enghreifftiau'n cynnwys gweithgarwch i gryfhau neu adolygu'r ddarpariaeth o gyfleoedd dysgu a llesiant.

> 'Mae wedi darparu llawer o lesiant i bobl oherwydd nawr mae'n haws symud o gwmpas ar y safle, mae mwy o wybodaeth i'w hamgyffred. Mae aelod o staff ar y safle am ychydig oriau fel y gallwn ni ryngweithio â phobl.' (Cyfweliad â rhanddeiliaid a gynorthwywyd)

Nododd dau o'r saith safle a oedd wedi derbyn Statws y Coedwig Genedlaethol hefyd eu bod wedi chwilio'n weithredol am ffynonellau cyllid eraill i'w cynorthwyo, neu'n bwriadu gwneud hynny, er mwyn gweithredu'r ymrwymiadau a amlinellwyd yn eu cynllun rheoli.

Drwy'r ymweliadau safle a gynhaliwyd gan y tîm gwerthuso, casglwyd adborth gan y rhai sy'n rheoli'r safleoedd coetir. Nododd pedwar safle fod eu rhan hwy yn rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn eu helpu i gyflawni'r nodau a amlinellwyd yn eu priod gynlluniau rheoli yn gyflymach.

Wrth symud ymlaen, gallai asesu newidiadau yn y ffordd y caiff safleoedd eu rheoli fod yn faes i'w ddogfennu drwy fonitro ffurflenni o safleoedd y Cynllun Statws a/neu i'w archwilio drwy gyfarfodydd rhwydwaith.

## 4.4. Cyfleoedd

Yn seiliedig ar y gwaith maes a wnaed yn y cyfnod interim hwn o'r gwerthusiad, mae'r prif gyfleoedd ar gyfer y rhaglen a nodwyd yn ymwneud â rhannu arferion ar draws safleoedd, hyrwyddo safleoedd (neu safleoedd dethol) trwy ymgyrch farchnata genedlaethol a helpu safleoedd i ddangos yn well sut maent yn gwneud cynnydd tuag at ganlyniadau Coedwig Genedlaethol Cymru ac amcanion polisi cenedlaethol ehangach, neu sut maent yn cynnal y canlyniadau a'r amcanion hynny.

Nododd rhanddeiliaid hefyd fod dangos y cyfraniad y mae'r safleoedd yn ei wneud i ystod o feysydd polisi cenedlaethol a lleol yn gyfle, yn enwedig os oedd hyn yn helpu gydag ymdrechion i ddenu buddsoddiad yn y dyfodol i'w cynorthwyo i reoli a chynnal a chadw ardaloedd coetir. Mewn cyfweliadau manwl â 7 safle, amlygwyd lefel o hyder y byddai eu safle ar y Cynllun Statws o fudd wrth helpu i sicrhau cyllid yn y dyfodol.

'Gallwn ddychmygu, pe bai angen i mi wneud cais i'r loteri neu gronfa rhwydweithiau natur neu rywbeth, y byddai dweud ei fod wedi'i achredu fel rhan o Rwydwaith y Goedwig Genedlaethol yn beth da, felly byddwn i'n dychmygu y byddai'n ddefnyddiol, ond dydw i ddim wedi gorfod gwneud hynny eto.' (Cyfweliad â rhanddeiliad â chymorth)

Mae tystiolaeth o un ymweliad safle astudiaeth achos yn amlygu'r ffaith bod safleoedd yn denu buddsoddiad trwy gyllid gan gynnwys Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU i ddatblygu neu uwchraddio cyfleusterau ymwelwyr, a all yn ei dro hybu ymdrechion i gynyddu nifer yr ymwelwyr ac ymgysylltu â phroffil mwy amrywiol o ymwelwyr.

Ym marn y tîm gwerthuso, mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd cynorthwyo safleoedd i wella eu prosesau monitro er mwyn eu helpu i adeiladu eu sylfaen dystiolaeth o gynnydd tuag at y chwe chanlyniad lefel uchel yn ogystal ag amcanion polisi ehangach.

## 4.5. Rhwystrau

Roedd cael gafael ar ddigon o gyllid i weithredu'r amcanion a'r uchelgeisiau a amlinellwyd yn eu cynllun rheoli yn un o'r prif rwystrau a adroddwyd gan dirfeddianwyr, a amlygwyd mewn 5 o'r 13 cyfweliad manwl.

Ar draws Rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol, ceir mynediad at gyllid o ystod eang o ffynonellau gan gynnwys drwy Ddŵr Cymru, CNC, cynghorau lleol a thref ac Ymddiriedolaethau a Sefydliadau. Mewn cyfweliadau manwl ac ymatebion i arolygon, mynegodd llawer o safleoedd awydd i ganfod cyfleoedd i ddenu cyllid ychwanegol, yn enwedig cyllid refeniw, i hybu ymdrechion i gyflawni yn erbyn chwe chanlyniad Coedwig Genedlaethol Cymru a gweithredu eu cynlluniau rheoli. Roedd hyn yn cynnwys safleoedd a oedd wedi sicrhau cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd neu Goetiroedd Bach ac a oedd yn y broses o wneud cais i ymuno â'r Cynllun Statws yn ogystal â'r rhai a oedd eisoes yn aelodau ond a oedd yn chwilio am gyllid ychwanegol i'w cynorthwyo i gyflawni eu huchelgeisiau.

Nodwyd bod cysylltiadau trafnidiaeth yn rhwystr i goetiroedd mewn ardaloedd gwledig ddenu ac annog pobl i ymweld â'r safleoedd (dau o 13 cyfweliad dilynol). Mae hwn yn faes a allai fod yn haeddu ei archwilio ymhellach ar lefel y rhaglen wrth i nifer y safleoedd o fewn y rhaglen dyfu.

# 5. Casgliadau

Mae'r gwerthusiad annibynnol hwn o raglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn cwmpasu'r cyfnod cyflawni o ddiwedd 2022 i ddiwedd 2024. Mae'r adroddiad Cam 1 hwn wedi canolbwyntio ar gyflawni rhaglen y Goedwig Genedlaethol o 2022 ymlaen, gan gynnwys ei dulliau cyflawni, rolau staff, cyllid a Chynllun Statws y Goedwig Genedlaethol a lansiwyd ym mis Mehefin 2023. Er bod rhai canfyddiadau wedi'u cyflwyno ynghylch canlyniadau ac effeithiau sy'n dod i'r amlwg, rhai dros dro yw’r rhain a byddant yn cael eu harchwilio'n fanylach yng ngham nesaf y gwerthusiad.

Nododd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i greu Coedwig Genedlaethol Cymru yng Ngwanwyn 2020. Mae Rhaglen Lywodraethu 2021 – 2026 yn parhau â'r ymrwymiad hwn i greu Coedwig Genedlaethol i ymestyn o ogledd Cymru i'r de. Nod y Goedwig Genedlaethol yw amddiffyn coetiroedd presennol a'u cysylltu ag ardaloedd newydd o goetir trwy blannu coed. Gobeithir hefyd y bydd y rhwydwaith yn cyfrannu at ymdrechion i hybu twristiaeth a chefnogi'r economi ymwelwyr.

Er bod yr holl randdeiliaid yn cefnogi'r rhaglen, roedd lleiafrif o randdeiliaid (3 o'r 10 a gyfwelwyd) yn aneglur a yw'r ffocws ar gefnogi'r economi ymwelwyr trwy greu llwybr cenedlaethol neu ar amcanion amgylcheddol sy'n ymwneud â phlannu coed a gwella bioamrywiaeth.

I sicrhau dealltwriaeth gyffredin o’r cysyniad, byddai'n ddefnyddiol ailddatgan y cysyniad, y dull cyflawni a'r amserlenni cysylltiedig a'u cyfleu i sefydliadau sy’n rhanddeiliaid allweddol sef Llywodraeth Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Llais y Goedwig a Choed Cadw.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cyflawni'r rhaglen yn mynd rhagddo'n dda a bod y gwahanol ddulliau'n cyfuno i gefnogi twf rhwydwaith o safleoedd coetir sy'n gweithredu o fewn ymbarél Coedwig Genedlaethol Cymru.

Ers ei lansio yn 2022, mae £7.168m o gyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi'i ddyfarnu dros bum cylch cyllido i 41 o safleoedd ledled Cymru. Mae cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi bod yn offeryn defnyddiol wrth gynorthwyo ac annog sefydliadau i wneud cais am Gynllun Statws Coedwig Genedlaethol Cymru ac ymuno â’r cynllun yn y pen draw.

Mae’r canfyddiadau'n awgrymu bod cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi cefnogi twf rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol. Mae tua 21 o'r 41 safle sydd wedi derbyn cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi ymuno â'r Cynllun Statws. Yn ogystal ag annog a chynorthwyo safleoedd i fod yn barod i ymuno â'r Cynllun Statws, mae hefyd yn parhau i gynorthwyo safleoedd sydd eisoes wedi dod yn aelodau ac wrth wneud hynny yn eu cynorthwyo i gyfrannu at chwe chanlyniad lefel uchel y Goedwig Genedlaethol.

Mae gwerth £0.847m o gyllid grant Coetiroedd Bach, a lansiwyd ym mis Ebrill 2023, wedi'i ddyfarnu dros dri chylch i 14 o dderbynwyr grantiau, sydd â 24 o safleoedd ledled Cymru. Er bod nifer y grantiau Coetiroedd Bach yn debygol o fod yn llai na'r targed o greu 100 o Goetiroedd Bach, mae'r dull cyflawni hwn wedi helpu i sefydlu nifer fach o safleoedd coetir newydd mewn mannau trefol a mannau o amgylch trefi.

Ym mis Ionawr 2025 mae'r Goedwig Genedlaethol yn cynnwys 26 bloc o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys sawl safle sy’n cael eu rheoli gan CNC, a 55 o safleoedd y Cynllun Statws sydd wedi ymuno trwy Gynllun Statws y Goedwig Genedlaethol ac sy’n cael eu rheoli gan dirfeddianwyr eraill. Oddi wrth safleoedd a ymatebodd i'r arolwg, mae adborth cadarnhaol wedi'i gasglu ar y broses o wneud cais i'r Cynllun Statws, gan ddangos eu bod yn ystyried bod y prosesau ymgeisio ac asesu yn rhai syml.

O ran y safleoedd sydd wedi ymuno â’r Cynllun Statws, roedd y rhan fwyaf o’r sefydliadau o’r farn bod y cymorth a'r cyngor a ddarparwyd gan dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd yn effeithiol iawn. Gwnaeth bron i bob ymatebydd i'r arolwg a oedd wedi derbyn cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd a chyllid Coetiroedd Bach hefyd nodi bod y cymorth a gawsant gan eu Swyddog Cyswllt Coetiroedd yn effeithiol, gan ddarparu cyngor ac arweiniad gwerthfawr ar y broses ymgeisio.

Mae'r twf tebygol hwn yn y safleoedd o fewn y Cynllun Statws yn codi cwestiynau ynghylch gallu tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd i barhau â'u rôl o gynorthwyo darpar ymgeiswyr, yn ogystal ag asesu ceisiadau a ddaw i law a gweithio gydag aelodau presennol i'w cynorthwyo i wireddu eu huchelgeisiau ar gyfer eu safleoedd. Mae hyn yn awgrymu y byddai adolygiad o baramedrau, rôl a chapasiti tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd yn fuddiol i gynorthwyo cyflawniad y rhaglen yn y dyfodol.

Derbyniwyd adborth cadarnhaol ynghylch rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol, sy'n galluogi safleoedd i rannu gwybodaeth, arferion a gwersi.  Mae gan y cyfle i safleoedd ddysgu oddi wrth ei gilydd ac ymgorffori arferion gorau botensial gwirioneddol i helpu’r safleoedd i ddeall sut i gyflawni'r chwe chanlyniad lefel uchel yn y ffordd fwyaf effeithiol a chyflawni effeithiau tymor hwy ar gyfer coetiroedd a chymunedau.

Mae yna nifer fach o feysydd i'w gwella ar hyn o bryd yng nghyflawniad y rhaglen. Casglwyd barn gymysg ynghylch lefelau boddhad â'r cymorth parhaus y mae derbynwyr grantiau wedi'i dderbyn gan Earthwatch ynghylch cyllid Coetiroedd Bach – er bod nifer y rhai sy'n derbyn y cyllid a'r nifer a gymerodd ran yn yr arolwg yn fach. Dylid archwilio opsiynau i wella'r agwedd hon ar y rhaglen.

Mae'r broses ar gyfer asesu ceisiadau’r Cynllun Statws wedi'i dylunio i fod yn anfiwrocrataidd, yn hygyrch ac yn ddi-faich i berchnogion coetiroedd sy'n mynd ati i wneud cais. Mae cyflawniad y rhaglen yn glynu wrth y dyluniad hwn ac mae'r broses ymgeisio ac asesu wedi cael derbyniad da gan ymgeiswyr. O ystyried bod gofyn i ymgeiswyr gyflwyno eu cynllun rheoli gyda'u cais, dylai Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru ystyried a allai cyflwyno asesiad mwy cadarn o gynlluniau rheoli gynorthwyo cyflawniad hirdymor y rhaglen yn well.

Mae rhywfaint o waith hyrwyddo wedi'i wneud trwy Croeso Cymru. Fodd bynnag, nododd lleiafrif o randdeiliaid a gyfwelwyd, er bod deunyddiau marchnata ar gyfer darpar dwristiaid wedi'u datblygu, efallai y bydd angen cynnal gwaith hyrwyddo pellach o dan frand unedig y 'Goedwig Genedlaethol' i sicrhau dealltwriaeth gliriach a mwy cyson o'r hyn y mae'r Goedwig Genedlaethol yn ei gynrychioli. Gallai hyn gynnwys cymorth ac arweiniad ar gyfer safleoedd y Cynllun Statws yn ogystal â gweithgarwch hyrwyddo ar lefel y rhaglen.

Gall y bwriad i symud tuag at ddull tirwedd wrth gyflawni'r rhaglen nodi bylchau ym mhroffil y rhwydwaith y mae angen mynd i'r afael â nhw yn ogystal â chyfeirio ffocws tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd yn y dyfodol.

Er ei bod hi'n rhy gynnar i ddangos tystiolaeth o ganlyniadau ar draws y safleoedd yn y rhwydwaith, nid oes gofyniad ar hyn o bryd i safleoedd ddarparu unrhyw ddata monitro i CNC. Mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i safoni, cydgrynhoi a dangos tystiolaeth o ganlyniadau ar draws y rhwydwaith o safleoedd.

Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch sut y gall y rhaglen ddangos sut mae'n cynnal neu'n gwneud cynnydd tuag at y chwe chanlyniad lefel uchel neu gyfraniad at dargedau'n ymwneud â phlannu coed a chreu coetiroedd neu amcanion sy'n ymwneud ag ymgysylltu a chynnwys cymunedau lleol neu ddarparu cyfleoedd i wirfoddoli.

Bydd cam nesaf y gwerthusiad yn canolbwyntio ar archwilio barn a phrofiadau aelodau'r cyhoedd mewn perthynas â'r Goedwig Genedlaethol a safleoedd y Goedwig Genedlaethol a deall y methodolegau gwerthuso effaith y gellid eu defnyddio i werthuso rhaglen y Goedwig Genedlaethol yn y dyfodol.

# 6. Argymhellion

Caiff yr argymhellion canlynol eu darparu i lywio sut y dylai rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru edrych ar ôl 2025.

## 6.1. Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru egluro cysyniad rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru, gan gynnwys y cydbwysedd rhwng y disgwyliadau ar gyfer safleoedd yn y rhwydwaith wrth gyfrannu at yr amcanion a nodir yn Strategaeth Coetiroedd i Gymru. Efallai y bydd hyn yn golygu bod angen ailgydbwyso a mireinio'r broses ymgeisio ac asesu i benderfynu i ba raddau y gall y safleoedd gyfrannu at ganlyniadau a thargedau cenedlaethol y cytunwyd arnynt.

## 6.2. Argymhelliad 2

Heb adnoddau addas a chynllun clir ar gyfer hyrwyddo, efallai na fydd rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol yn cyflawni ei holl effeithiau posibl. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cynllun clir ar gyfer hyrwyddo yn amodol ar yr eglurhad ynghylch cysyniad ac amcanion y rhaglen.

## 6.3. Argymhelliad 3

Mae cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi bod yn offeryn pwysig wrth gynorthwyo ac annog sefydliadau i wneud cais am Gynllun Statws Coedwig Genedlaethol Cymru ac ymuno â’r cynllun yn y pen draw. Dylid archwilio opsiynau ar gyfer parhau â'r gronfa grantiau hon a darparu adnoddau yn unol â thwf arfaethedig y rhwydwaith.

## 6.4. Argymhelliad 4

Hyd yn hyn, mae rôl tîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd wedi canolbwyntio'n bennaf ar annog a chynorthwyo ceisiadau i'r Cynllun Statws. Dylai CNC a Llywodraeth Cymru archwilio rôl ac adnoddau'r tîm yn y dyfodol, gan gynnwys y cydbwysedd rhwng cynorthwyo darpar safleoedd a chynorthwyo safleoedd presennol. Wrth i'r rhwydwaith dyfu, efallai y bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad pellach i ehangu capasiti'r tîm a thrafodaeth ynghylch mabwysiadu dull â mwy o dargedu wrth ymgysylltu â safleoedd allweddol a thirfeddianwyr.

## 6.5. Argymhelliad 5

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ddylid cyflwyno gofynion a phrosesau asesu ar gyfer safleoedd y Cynllun Statws i adrodd ar weithgarwch a sut maent yn cynnal canlyniadau neu’n gwneud cynnydd tuag at ganlyniadau fel amod o gadw eu statws. Mae absenoldeb unrhyw ddangosyddion safonol a phroses fonitro reolaidd ar hyn o bryd yn cyfyngu ar y gallu i adrodd ar y cyfraniad y mae'r safleoedd yn ei wneud ar y cyd tuag at ystod o amcanion polisi a’r dangosyddion llesiant cenedlaethol.

# 7. Atodiad A: Gwersi a Ddysgwyd o Gynllun Prosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol

I gynorthwyo datblygiad y Goedwig Genedlaethol, defnyddiwyd amrywiaeth o wahanol ddulliau. Yn dilyn cyhoeddiad y Goedwig Genedlaethol, cynhaliwyd cynllun prosiectau arddangos yn y flwyddyn ariannol 2020/21 i brofi gwahanol ddulliau ariannu a chyflawni. Cyflawnwyd pedwar cynllun gwahanol:

- Cynllun Coetiroedd Cymunedol Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (roedd hwn yn rhedeg dros gyfnod o ddwy flynedd tra bod y cynlluniau isod wedi’u cyflawni dros gyfnod o flwyddyn) Cadwch Gymru'n Daclus
    - Coetiroedd Bach – Plannu coed mewn ysgolion – wedi’i gyflawni drwy Gynllun Gwella Rhaglen Eco-Ysgolion Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
    - Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth

Roedd natur pob cynllun yn amrywio ac yn cynnwys grantiau i gymunedau blannu neu wella rheolaeth coed, creu coetiroedd, cyllid i gynorthwyo Ystad Goetir Llywodraeth Cymru a chymorth i'r sector coedwigaeth.

Nod y gwerthusiad o Gynllun Prosiectau Arddangos Coedwig Genedlaethol Cymru oedd archwilio'r amcanion lefel uchaf canlynol. Archwilio effeithiolrwydd gwahanol fodelau ariannu a dulliau cyflawni.

- Deall y ffordd orau o gynnwys cymunedau amrywiol wrth greu Coedwig Genedlaethol Cymru.
- Pennu effeithiolrwydd ymgysylltiad â rhanddeiliaid a chanfod meysydd i'w gwella.
- Prosiectau arddangos a grëwyd i brofi dulliau ariannu a chyflawni a gweithio tuag at gyflawni canlyniadau rhaglen y Goedwig Genedlaethol.

Mae prif ganfyddiadau'r gwerthusiad [troednodyn 24] wedi'u crynhoi isod:

## 7.1. Effeithiolrwydd cyflawniad y cynllun

- Roedd rheolwyr y prosiectau yn gadarnhaol ar y cyfan am y cymorth a dderbyniwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.
- Yn gyffredinol, roedd y prosiectau llwyddiannus yn tueddu i fod yn brosiectau sy'n chwilio am gyllid, yn hytrach na phrosiectau a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer cronfa’r Coetiroedd Cymunedol.
- O bosibl, dylid darparu mwy o adnoddau i gynorthwyo prosiectau newydd sy'n dod i'r amlwg.
- Ystyriwyd bod y cyllid cyfalaf yn unig yn gyfyngol, yn enwedig yr analluedd i ariannu rolau rheolwr prosiect / cydlynydd pwrpasol.

[24] Wavehill (2022) - 'Gwerthusiad o Brosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol (crynodeb)'. Llywodraeth Cymru. 12fed Ionawr 2022.

- Roedd heriau eraill yn cynnwys anawsterau wrth sicrhau offer, a baich gweinyddol trwm.

## 7.2. Cynllun Cadwch Gymru'n Daclus, Coetiroedd Bach a Phlannu Coed

- Roedd safleoedd plannu posibl yn tueddu i gael eu nodi wrth i swyddogion cymunedol Cadwch Gymru'n Daclus gysylltu â rheolwyr prosiectau. Roedd yn rhaid i reolwyr prosiect lofnodi cytundeb i gynnal pob safle ar ôl i'r cyfnod ariannu o flwyddyn ddod i ben. Ystyriwyd bod hyn yn cyflwyno risg o ran gwaith rheoli a chynnal a chadw parhaus ar y safle.
- Roedd y rheolwyr prosiect yn ystyried bod strwythur a dyluniad pendant y cynllun yn fantais, fodd bynnag cyfeiriodd rhai at y ffaith nad oedd y prosiectau arddangos yn hyblyg i leoliadau unigol.
- Roedd y cynllun hwn wedi cyflawni sawl amcan craidd gan gynnwys: creu ardaloedd coetir newydd i hybu mwy o fioamrywiaeth; gwneud natur yn fwy hygyrch i bobl; a darparu cyfleoedd i ddysgu.

## 7.3. Cynllun Gwella CNC

- Roedd y cynllun hwn yn cynnwys dwy elfen: gwella cadwraeth a gwella mynediad. Dangosodd cyfweliadau â rheolwyr y cynllun a'r prosiectau fod hwn yn gysyniad cryf a oedd yn hawdd ei werthu i'r rhai oedd yn paratoi cynigion am brosiectau.
- Awgrymodd cyfweliadau ag arweinwyr prosiectau Cyfoeth Naturiol Cymru, ar gyfer cynllun Cyfoeth Naturiol Cymru, na ddaeth yr arian ar gael gyda digon o rybudd ac mewn rhai achosion, arweiniodd hyn at gynnal y prosiectau mewn ffyrdd nad oedd ar eu gorau o ran gwerth cyffredinol, amser, cyllideb a chapasiti staff.
- Ystyriwyd bod prosesau rheoli ariannol yn rhy fiwrocrataidd ac roedd yn anodd trosglwyddo arian rhwng penawdau'r gyllideb.
- Bu'r amseru yn broblem, o ran yr amserlenni ar gyfer dyfarnu arian gan greu anawsterau oherwydd effeithiau tymhorol, ac am fod y prosiectau arddangos wedi'u dylunio fel prosiectau tymor byr.
- O ran cyflawni yn erbyn amcanion, barnwyd ei bod yn rhy gynnar yn y cynllun i nodi a yw amcanion y cynllun wedi'u cyflawni.

## 7.4. Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth

- Roedd gan lawer o'r ymgeiswyr llwyddiannus brofiad o weithio gydag amrywiaeth o fuddiannau cymunedol.
- Roedd y farn yn gymysg ynghylch a oedd y cyllid yn syml i wneud cais amdano.
- Dywedodd mwyafrif y prosiectau a arolygwyd fod eu cynllun wedi rhedeg o fewn yr amser er gwaethaf ffactorau allanol.
- O ran cyflawni yn erbyn amcanion allweddol, teimlai'r ymatebwyr fod cynllun Cynllun Adfer y Diwydiant Coedwigaeth wedi cyfrannu at ganlyniadau bioamrywiaeth ac ecosystemau a chanlyniadau cymdeithasol ac addysgol.

## 7.5. Cynnwys cymunedau amrywiol

- Y dystiolaeth ar draws yr holl gynlluniau oedd bod mwy o waith i'w wneud o hyd i gynnwys y cyhoedd yn ehangach yn rhaglen y Goedwig Genedlaethol, ond bod y ffocws ar gynnwys cymunedau amrywiol yng nghynlluniau'r Coetiroedd Cymunedol, Coetiroedd Bach, a Phlannu Coed wedi annog gwaith ymgysylltu â mwy ffocws.
- Mae Coetiroedd Bach yn benodol wedi tynnu sylw at enghreifftiau o ymgysylltu cymunedol sydd wedi arwain at fanteision gwirioneddol i'r prosiectau hyn.
- Wrth symud ymlaen, dylai ffocws penodol ar ymgysylltu â chymunedau amrywiol fod yn ofynnol yn holl weithgarwch y prosiectau er mwyn parhau i ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth ac ymgysylltiad yn y rhaglen yn y dyfodol.

Darparodd Prosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol wersi i'w dysgu ac maent wedi dylanwadu ar agweddau ar ddyluniad a gweithrediad rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru ers 2022.

# 8. Atodiad B: Astudiaethau achos

## 8.1. Astudiaeth Achos Coedwig Genedlaethol Cymru 1 - Rhanbarth Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru

### 8.1.1. Cefndir y safle

Safle coetir cymunedol yw hwn sy'n ymestyn dros oddeutu 200 erw. Arferai’r safle fod yn goetir hynafol, ond fe’i cliriwyd i wneud lle i waith glo a haearn yn ystod y chwyldro diwydiannol. Plannwyd y rhan fwyaf o'r coetir modern mewn cyfnodau rhwng 1985 a 1990 ac mae bellach yn eiddo i'r cyngor lleol a chaiff ei reoli gan gwmni buddiannau cymunedol (CIC).

Mae'r CIC, a ymgorfforwyd yn 2019, yn cynnwys grŵp ymroddedig o wirfoddolwyr lleol sy'n rheoli'r coetir ac yn cynnal amrywiaeth eang o weithgareddau ymgysylltu cymunedol drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys ysgol goedwig a adeiladwyd gan y gwirfoddolwyr gan ddefnyddio pren o'r safle. Mae'r CIC yn glynu wrth ethos o gadw cymaint o waith â phosibl yn fewnol, gan hyfforddi eu gwirfoddolwyr i ymgymryd â gwaith rheoli’r safle a chynnal gweithgareddau ymgysylltu wrth symud tuag at y nod hirdymor o hunangynhaliaeth fasnachol ar gyfer y coetir.

### 8.1.2. Cymorth a dderbyniwyd drwy’r Goedwig Genedlaethol

Mae'r CIC sy'n rheoli'r safle wedi derbyn nifer o ffrydiau cymorth sy'n gysylltiedig â rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru. Gan bartneru â sefydliad coetir mawr, daeth y safle i fod yn un o’r cyflenwyr a’r dosbarthwyr coed mwyaf ar gyfer ffermwyr, ysgolion a theuluoedd a oedd am blannu coeden fel rhan o gynllun Fy Nghoeden, Ein Coedwig. Mae'r safle hefyd wedi derbyn Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd sydd wedi mynd tuag at wella hygyrchedd ffisegol y coetir trwy wneud llwybrau o amgylch dwyrain y coetir yn hygyrch i gadeiriau olwyn ac atgyfnerthu perimedr y safle gan ddefnyddio ffensys a waliau cerrig i gyfyngu ar fynediad cerbydau modur i'r coetir, gan ei wneud yn fwy diogel i gerddwyr. At hynny, mae'r grant yn ariannu creu cynllun rheoli coetiroedd i gefnogi cais y safle am statws Coedwig Genedlaethol.

### 8.1.3. Cynllun Statws y Goedwig Cenedlaethol

Ar ôl ymwneud â Fy Nghoeden, Ein Coedwig a Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd, gwnaeth y Swyddog Cyswllt Coetiroedd a neilltuwyd i'r safle eu cyfeirio at gynllun statws y Goedwig Genedlaethol. Roedd y gwirfoddolwyr a oedd yn arwain y CIC sy'n rheoli'r safle yn teimlo bod ethos y cynllun yn cyd-fynd â llawer o'r amcanion yr oeddent eisoes yn ceisio eu cyflawni, sef cynyddu ymgysylltiad cymunedol â'r safle a gwella bioamrywiaeth a chynaliadwyedd hirdymor y coetir.

Roedd y gwirfoddolwyr yn gadarnhaol iawn ynglŷn â ffocws y cynllun ar reoli coetiroedd, agwedd y maent yn teimlo sydd wedi bod yn brin mewn cymorth blaenorol i’r safle. Cyfeiriodd y gwirfoddolwyr hefyd at y cyfleoedd y mae'r cynllun yn eu darparu i ymuno â rhwydwaith ehangach o goetiroedd  ac ennill 'sêl bendith' annibynnol sy'n nodi ansawdd y coetir.

### 8.1.4. Uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol

Oherwydd yr ardal fawr sy’n cael ei chwmpasu gan y safle, mae gan y CIC ystod eang o uchelgeisiau ar gyfer yr hyn y gall y safle ei gyflawni yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae gwirfoddolwyr yn cael eu hyfforddi i ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r gwaith cynnal a chadw ar y safle yn ogystal â chyflawni gwaith bioamrywiaeth (plannu coed ffrwythau, creu cynefinoedd i anifeiliaid) a gweithgareddau ymgysylltu (megis ysgolion coedwig, rhoi planhigion, dosbarthiadau coginio, digwyddiadau yn ystod y gwyliau). Y nod tymor hwy ar gyfer y safle yw cyflawni'r gweithgareddau hyn ar raddfa fwy mewn ffordd fasnachol hunangynhaliol, trwy rentu'r safle ar gyfer hyfforddiant coetir, neu werthu nwyddau sy’n cael eu tyfu ar y safle fel bwyd neu goed tân. Mae'r CIC yn teimlo y bydd ymuno â rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn caniatáu iddynt gyrraedd eu nodau yn llawer cyflymach a sicrhau bod y safle'n ffynnu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## 8.2. Astudiaeth Achos Coedwig Genedlaethol Cymru 2 - Rhanbarth Datganiad Ardal Canol De Cymru

### 8.2.1. Cefndir y safle

Mae'r safle'n cynnwys dros 100 erw o ddolydd, gerddi a choetiroedd aeddfed wedi'u lleoli o amgylch plasty mawr o fewn ystâd hanesyddol. Mae'r safle wedi bod yn eiddo i'r awdurdod lleol ers 30 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw mae'r tŷ wedi'i drawsnewid yn westy ac mae canolfan ymwelwyr wedi'i hadeiladu ar gyfer y parc a'r coetir. Ers 2015, mae'r safle wedi cael ei reoli gan ymddiriedolaeth ddiwylliannol sydd wedi arwain y gwaith i ddod â'r safle i mewn i gynllun statws Coedwig Genedlaethol Cymru.

Mae'r parc ar agor i'r cyhoedd ac mae'n cynnwys pedwar coetir ar wahân. Caiff y safle ei reoli gan dîm o barcmyn o'r ymddiriedolaeth ddiwylliannol a dau grŵp mawr o wirfoddolwyr sy'n ymgymryd â gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar y safle trwy gasglu sbwriel, plannu a thocio. Mae'r parc yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu i deuluoedd ac ysgolion o ganolfan addysg a llesiant sydd wedi'i hadeiladu'n bwrpasol o'r newydd. Drwy eu hymgysylltiad â rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru, mae'r ymddiriedolaeth ddiwylliannol yn awyddus i wella bioamrywiaeth eu coetiroedd, gan symud i ffwrdd o'r pedwar coetir ungnwd ar wahân a etifeddodd yr ymddiriedolaeth ddiwylliannol, a pharhau i wella hygyrchedd ffisegol y safle drwy balmantu llwybrau cerdded poblogaidd a chynnal llwybrau pren.

### 8.2.2. Cymorth a dderbyniwyd drwy'r Goedwig Genedlaethol

Derbyniodd yr ymddiriedolaeth ddiwylliannol gyllid drwy'r Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd i osod palmant yn y safle, cael gwared â choed heintiedig a dechrau adeiladu ail adeilad ysgol goedwig i helpu ag allgymorth i ysgolion. Mae staff yr ymddiriedolaeth ddiwylliannol wedi mynychu cyfarfodydd rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol i geisio arferion da ar gyfer rheoli coetiroedd.

### 8.2.3. Cynllun Statws y Goedwig Cenedlaethol

Cyn ymuno â rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru, gwnaeth yr ymddiriedolaeth ddiwylliannol waith i gael gwared ar y coetiroedd ungnwd ar y safle trwy blannu ystod fwy amrywiol o goed fel rhan o ymdrech ehangach i wella sut roedd y safle'n cael ei reoli. Teimlai'r parcmyn o'r ymddiriedolaeth ddiwylliannol fod ymuno â chynllun statws y Goedwig Genedlaethol yn gam naturiol o ystyried ei ffocws ar reolaeth, bioamrywiaeth ac ymgysylltiad cymunedol, agweddau a oedd wrth wraidd cynllun Rheoli Coetiroedd y safle.

Roedd y parcmyn yn hynod o gadarnhaol am y cymorth a gawsant gan eu Swyddog Cyswllt Coetiroedd penodedig, a'u cynorthwyodd yn ystod eu cais am Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd a chynllun statws y Goedwig Genedlaethol ac sy'n parhau i fod yn bwynt cyswllt ar gyfer unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r cynllun a ffynonellau posibl eraill o gyllid a chymorth.

Dim ond am gyfnod byr y mae'r ymddiriedolaeth ddiwylliannol wedi bod yn rhan o'r cynllun ac maent yn teimlo bod y rhan fwyaf o fanteision yr achrediad eto i ddod. Mae mynychu digwyddiadau rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol wedi caniatáu iddynt wneud cysylltiadau â safleoedd tebyg i rannu arferion da yn ogystal â dysgu gwersi o goetiroedd hollol wahanol fel safleoedd masnachol neu amaethyddol ledled de Cymru.

### 8.2.4. Uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol

Mae'r ymddiriedolaeth ddiwylliannol yn gobeithio y bydd eu hachrediad drwy gynllun statws y Goedwig Genedlaethol yn arwain at broffil cryfach i'r safle a fydd yn caniatáu iddynt ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd a pharhau i addysgu cenedlaethau am y coetir.

Maent hefyd yn gobeithio y bydd yr achrediad yn gwasanaethu fel marc ansawdd wrth wneud cais am gyllid yn y dyfodol i barhau i reoli a chynnal a chadw'r parc.

## 8.3. Astudiaeth Achos Coedwig Genedlaethol Cymru 3 - Rhanbarth Datganiad Ardal De-orllewin Cymru

### 8.3.1. Cefndir y safle

Mae'r safle 250 hectar yn cael ei redeg gan Ymddiriedolaeth nid-er-elw ac elusen gofrestredig a ffurfiwyd yn 2000 i amddiffyn, cadw ac adfer y safle: tirwedd hanesyddol rhestredig sy'n cynnwys coetir cymysg, dau lyn, a saith milltir o lwybrau cerdded mewn coetir. Mae'r safle'n denu tua 150,000 o ymwelwyr y flwyddyn ac mae ganddo achrediad Safle Treftadaeth y Faner Werdd, sy'n cydnabod ei ymrwymiad i ddiogelu arwyddocâd hanesyddol ei fannau gwyrdd wrth gynnal safonau uchel o ran ansawdd amgylcheddol a hygyrchedd.

Mae’r grwpiau o ddefnyddwyr yn cynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd a chwricwlwm amgen, a grwpiau iechyd meddwl. Caiff yr Ymddiriedolaeth ei chynorthwyo gan staff cyflogedig (mae’r staff parhaol yn cynnwys rheolwr y safle, swyddog addysg/ymgysylltu a rheolwr coetir sydd newydd ei recriwtio) a thua 120 o wirfoddolwyr.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu'n fawr ar wirfoddolwyr a chyllid grantiau i barhau i ddatblygu'r safle. Mae ganddynt berthynas dda â'r awdurdod lleol, sy'n rhoi benthyg peiriannau ac yn rhoi deunyddiau yn gyfnewid am goed tân ar gyfer busnes coed tân y cyngor. I helpu i gynhyrchu incwm, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth gymorth yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU i greu canolfan ymwelwyr (sy'n cynnwys caffi a thoiledau) ac i adfer yr ardd furiog hanesyddol (lle caeedig ar gyfer digwyddiadau a hyfforddiant am dâl). Mae'r gwirfoddolwyr, o bobl wedi ymddeol i weithwyr proffesiynol ifanc ac academyddion o'r brifysgol leol, yn gweithio ar draws y safle mewn rolau niferus ac amrywiol (e.e. garddio, staffio'r caffi, cynnal a chadw'r safle, plannu, adeiladu, cadwraeth bywyd gwyllt). Mae'r Ymddiriedolaeth wedi derbyn gwobr Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr a Gwobr y Frenhines i Wirfoddolwyr. Maent yn teimlo eu bod yn cyrraedd pob rhan o'r gymuned a bod yna rywbeth i bawb.

### 8.3.2. Cymorth a dderbyniwyd drwy’r Goedwig Genedlaethol

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi derbyn cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd i wella mynediad a datblygu cynllun rheoli coetiroedd.

### 8.3.3. Cynllun Statws y Goedwig Cenedlaethol

Mae'r safle cyfan o fewn y Cynllun Statws. Mae'r Ymddiriedolaeth yn frwdfrydig iawn ynglŷn â bod yn rhan o'r cynllun ac roeddent yn awyddus i ymuno er mwyn cael y cyfleoedd marchnata, rhannu arferion gorau a bod yn rhan o rwydwaith.

Mae'r safle wedi codi arwyddion y Goedwig Genedlaethol yn ddiweddar ac mae'n gobeithio hyrwyddo'r safle drwy unrhyw gamau marchnata ehangach gan y Cynllun Statws. Mae'r Ymddiriedolaeth yn awyddus i fanteisio ar gyfleoedd rhwydweithio a hoffent weld is-grwpiau arbenigol (e.e. ar rywogaethau ymledol) yn cael eu datblygu er mwyn rhannu arferion gorau.

### 8.3.4. Uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol

Mae gan yr Ymddiriedolaeth raglen adfer barhaus, sy’n canolbwyntio ar y mannau o olygfeydd da, yr ardd furiog, a'r ardd goed, ac mae'n gobeithio dechrau meithrinfa goed ar

gyfer coed sbesimen. Mae’r Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi gwneud i uchelgeisiau i wella'r coetir fod yn fwy cyraeddadwy gan fod ganddynt bellach gynllun rheoli coetiroedd: maent bellach mewn sefyllfa lle maent ar fin recriwtio rheolwr coetiroedd.

Fel rhan o ddatblygiad parhaus y safle, mae'r Ymddiriedolaeth yn awyddus i fanteisio ar gyfleoedd rhwydweithio. Maent hefyd yn dymuno gwneud mwy o waith i wella eu cynefinoedd natur ac yn anelu at ddod yn rhan o rwydweithiau natur gwydn lleol. Maent yn dymuno creu mwy o gyfleoedd i bobl ryngweithio â'r safle ac yn gobeithio y bydd statws Coedwig Genedlaethol yn helpu i'w hyrwyddo.

## 8.4. Astudiaeth Achos Coedwig Genedlaethol Cymru 4 - Rhanbarth Datganiad Ardal Canolbarth Cymru

### 8.4.1. Cefndir y safle

Mae'r safle yn warchodfa natur 40 erw sy'n dod o dan ymbarél Ymddiriedolaeth elusennol a sefydlwyd i fynd i'r afael â'r dirywiad cenedlaethol mewn cynefinoedd bywyd gwyllt a bioamrywiaeth ar dir fferm. Caiff y safle ei reoli gan dîm bach o staff a bwrdd o ymddiriedolwyr gwirfoddol. Mae'r safle'n cynnwys eco-lety a ffermdy â thenant. Maen nhw'n cynnal cyrsiau ac yn rhentu lle i wahanol grwpiau, gan gynnwys yr Ysgol Goedwig leol, Grŵp Permaddiwylliant a Sefydliad y Merched, yn ogystal ag ar gyfer eco-encilion y GIG.

Wedi'i leoli yn nhirwedd ffermio da byw, wasgaredig cefn gwlad gorllewin Cymru, rhyw dair milltir o dref brifysgol fach, mae'r rhan fwyaf o ymwelwyr rheolaidd y safle yn dod o'r pentrefi cyfagos. Hoffai'r safle ehangu ei broffil ymwelwyr, yn enwedig i gyrraedd mwy o deuluoedd a demograffeg ehangach o bobl leol.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth grŵp bach o wirfoddolwyr rheolaidd sy'n cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gwirfoddol wedi'u trefnu. Mae gan nifer o'r rhain broblemau iechyd meddwl neu gorfforol. Maen nhw'n hysbysebu cyfleoedd gwirfoddoli ar y cyfryngau cymdeithasol, ar wefan, trwy Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion, ac ar lafar gwlad.

### 8.4.2. Cymorth a dderbyniwyd drwy’r Goedwig Genedlaethol

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cais llwyddiannus am ddau gylch o gyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd (Cylchoedd 1 a 3). Defnyddiwyd cyllid Cylch 1 y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd i wella llwybrau pren, darparu mwy o seddi, codi arwyddion a oedd eisoes wedi'u creu gan grwpiau lleol, ymestyn eu platfform archwilio pwll, cynnal arolwg coetir a datblygu cynllun rheoli coetir, a hyfforddi pobl mewn bondocio gan ddefnyddio ardal o goetir a fydd yn cael ei chynnwys yn y cynllun statws.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio Cylch 3 y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd i wneud mwy o'r safle yn hygyrch, trwy ymestyn llwybrau o'r llwybrau pren (e.e. uno llwybr pren presennol, ar hyd ramp, â llwybr i'r tŷ crwn, fel y gall mwy o bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y tŷ crwn).

Mae gwirfoddolwyr yn clirio ac yn gosod y llwybrau (wedi'u hadeiladu o gridiau sgwâr, wedi'u llenwi â graean, y gall gwair dyfu drwyddynt). Bydd y cyllid hefyd yn cael ei ddefnyddio i wneud y seddi awyr agored a'r pwll tân y tu allan i'r tŷ crwn yn fwy cysgodol, ac i ddiweddaru a diwygio'r cynllun rheoli coetir i gynnwys rhaglen waith 10 mlynedd sy'n nodi'r hyn y gall gwirfoddolwyr ei wneud.

### 8.4.3. Cynllun Statws y Goedwig Genedlaethol

Mae'r safle yn ystyried ei fod yn bodloni holl feini prawf y Cynllun Statws ond nid yw wedi ymuno eto. Y cynllun yw i’r ardal goetir gael ei chynnwys (ychydig o dan hanner y safle), ac mae trafodaethau cychwynnol wedi digwydd gyda'u Swyddog Cyswllt Coetiroedd. Fodd bynnag, y flaenoriaeth bresennol i'r safle yw cyflawni eu canlyniadau ar gyfer cylch diweddaraf cyllid y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd.

### 8.4.4. Uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol

Mae cynlluniau ar gyfer y safle i'r dyfodol yn cynnwys parhau i wella hygyrchedd a chynyddu nifer yr ymwelwyr. Gobeithir y bydd aelodaeth o'r Cynllun Statws yn helpu i hyrwyddo'r safle i gynulleidfa ehangach. Nod y safle yw cymryd rhan yn hyfforddiant y Cynllun Rheoli sydd wedi'i gynllunio ar gyfer dechrau 2025 fel rhan o gynllun y Goedwig Genedlaethol, er mwyn eu galluogi i gwblhau eu cynllun rheoli ar gyfer y coetir.

## 8.5. Astudiaeth Achos Coedwig Genedlaethol Cymru 5 - Rhanbarth Datganiad Ardal Gogledd-ddwyrain Cymru

### 8.5.1. Cefndir y safle

Mae'r safle yn goetir 2.4 ha sydd yng nghanol ardal goetir fwy. Mae'n eiddo preifat ac fe'i prynwyd gyda'r bwriad o adfer y safle. Mae'r safle'n dangos sut y gall coetiroedd bach, sy'n eiddo preifat, wneud cyfraniad pwysig at adfer coetiroedd ac ymgysylltu â'r gymuned.

Pan gafodd ei gaffael yn wreiddiol gan y perchennog presennol, planhigfa ffawydd oedd y coetir yn bennaf, a blannwyd dros 200 mlynedd yn ôl ar Safle Coetir Hynafol. Felly roedd y coetir yn gynefin un rhywogaeth, heb lawer o lystyfiant o dan y prif ganopi. Y weledigaeth ar gyfer y safle yw ei adfer yn goetir brodorol trwy raglen o dorri coed yn ddetholus a theneuo eurgylch, gan ailblannu â rhywogaethau llydanddail a llwyni brodorol.

Mae'r safle hefyd yn cynnwys coed marw sy'n sefyll ac yn gorwedd sy'n cynnal amrywiaeth o rywogaethau a chynefinoedd. Er yr ymwelwyd â'r safle yn ystod lliwiau llawn yr hydref, yn y gwanwyn mae yna amrywiaeth o rywogaethau sy'n ddangosyddion coetir hynafol gan gynnwys clychau'r gog a blodau'r gwynt, a ddangosodd i'r perchennog y cyfle i adfer y safle i hybu amrywiaeth o fywyd gwyllt.

Er nad oes hawliau tramwy cyhoeddus drwy'r coed, mae yna lwybrau troed sy'n cael eu defnyddio'n helaeth gan bobl leol. Mae'r perchennog wedi gosod arwydd yn disgrifio'r gweithgarwch adfer sy'n digwydd ar y safle gan ddweud eu bod wedi cael adborth cadarnhaol gan gerddwyr sy'n mynd heibio.

Mae'r perchennog yn gefnogol iawn i gael y gymuned i gymryd rhan yn y coetir, gan estyn gwahoddiad i aelodau'r gymuned leol a theuluoedd gymryd rhan mewn gwaith plannu coed drwy erthygl yn y papur newydd lleol. Gwahoddwyd grŵp cadwraeth lleol hefyd i gynorthwyo â rhywfaint o blannu, lle cynhaliodd y perchennog weithdy ar goed hynafol i'r grŵp, gan eu dysgu sut i gofnodi coed hynafol. Gwnaeth perchennog y coetir gyswllt hefyd â chwmni theatr lleol a daeth staff y cwmni theatr i gynorthwyo wrth blannu coed. Mae hyn bellach wedi meithrin perthynas barhaus â'r Ymddiriedolaeth Natur leol oherwydd anogaeth gan berchennog y safle.

Er mwyn hwyluso'r ymgysylltiad cymunedol hwn, mae gan y safle bwll tân bach gyda chylch o foncyffion, yn ogystal â phostyn wedi'i osod i annog ymwelwyr i dynnu lluniau o'r safle i gyfrannu at fonitro'r safle.

Mae'r coetir hefyd wedi cynnal ymweliad safle ar gyfer y Gymdeithas Coedwigoedd Bychain, ac mae'r perchennog yn gweithio'n agos gyda Choed Cadw, Llais y Goedwig a'r Ymddiriedolaeth Natur leol.

### 8.5.2. Cymorth a dderbyniwyd drwy'r Goedwig Genedlaethol

Derbyniodd y safle amrywiaeth o goed chwip (eginblanhigion coed heb ganghennau) o gynllun Fy Nghoeden, Ein Coedwig, sy'n cael eu redeg gan Goed Cadw a Llais y Goedwig, un o ddulliau cymorth y Goedwig Genedlaethol. Ar ôl iddynt aeddfedu ymhellach, caiff y rhain eu defnyddio fel rhan o'r gweithgarwch ailblannu.

> 'I mi, mae'r gymuned a'r Goedwig Genedlaethol i gyd yn fater o wneud cysylltiadau a chysylltu pobl â'i gilydd.'

### 8.5.3. Cynllun Statws y Goedwig Cenedlaethol

Daeth y coetir yn rhan o'r Goedwig Genedlaethol yn 2023, ac mae'r perchennog wedi codi arwyddion y Goedwig Genedlaethol yn agos at y llwybr troed sy'n mynd trwy'r safle. Cafodd y perchennog gymorth hefyd gan y Swyddog Cyswllt Coetiroedd wrth wneud cais am statws Coedwig Genedlaethol Cymru. Pan ofynnwyd iddynt am eu cymhelliant dros ymuno â'r Goedwig Genedlaethol, dywedodd perchennog y safle mai'r bwriad oedd cysylltu â choetiroedd eraill a allai fod yn cynnal gweithgarwch adfer tebyg a gwneud cysylltiadau pellach.

> 'Rwy'n un o ychydig iawn o safleoedd sy'n adfer Planhigfa Ffawydd felly roeddwn i'n chwilio am gyngor gan eraill sydd wedi gwneud rhywbeth tebyg ac yn hapus i rannu profiadau gydag eraill sy'n bwriadu gwneud yr un peth.' (Tirfeddiannwr)

### 8.5.4. Uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol

Roedd eu profiad o gynllun y Goedwig Genedlaethol hyd yn hyn wedi bod yn gadarnhaol, er y nodwyd eu bod yn ddyddiau cynnar felly nid oedd manteision llawn bod yn rhan o'r cynllun wedi dod i'r amlwg eto. Gan edrych ymlaen, hoffai'r safle weld dull mwy cydgysylltiedig o weithio gyda rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru, wrth ddod â sefydliadau eraill i mewn i gynorthwyo'r safle i wireddu ei uchelgeisiau a'i botensial.

## 8.6. Astudiaeth Achos Coedwig Genedlaethol Cymru 6 - Rhanbarth Datganiad Ardal Gogledd-orllewin Cymru

### 8.6.1. Cefndir y safle

Mae'r safle yn goetir gweithredol sy’n cael ei weithredu gan gwmni cydweithredol sy'n rheoli pedwar coetir bach, gan gynhyrchu pren cynaliadwy o ansawdd uchel a hwyluso amrywiaeth o ddigwyddiadau o'u gweithdy. Fel sefydliad, maent wedi ymrwymo i ddatblygu gwledig cynaliadwy a gwella mynediad i'r cyhoedd. Mae'r safle yn dangos sut y gall canlyniadau i bobl, swyddi, sgiliau a'r economi wledig fod yn rhan annatod o goetir gwydn sy'n cael ei reoli'n dda mewn cytgord â chanlyniadau i natur a bioamrywiaeth.

> 'Yn gryno, mae'n adfywio'r economi leol gyda golwg ar fioamrywiaeth, defnydd tir amgen, a mynediad i goetiroedd ac amwynder. Ychydig iawn o goetiroedd sy'n cael eu rheoli i gynnal yr economi leol.' (Tirfeddiannwr)

Mae'r safleoedd sy’n cael eu rheoli gan y cwmni cydweithredol yn goetiroedd rhywogaethau cymysg sy’n cynnwys rhywogaethau conwydd a llydanddail sy'n cael eu rheoli ar gyfer bioamrywiaeth a chynhyrchu coed.

Mae'r cwmni cydweithredol yn cynnwys grŵp o ymarferwyr coedwigaeth, proseswyr a gweithgynhyrchwyr, sy'n defnyddio'r cynnyrch pren. Nod y cwmni cydweithredol yw cefnogi ac annog pobl ifanc sydd am fynd i mewn i goedwigaeth neu waith coed fel proffesiwn, drwy gynnig gweithdy yn llawn cyfarpar, peiriannau ac offer gwaith coed yn ogystal â chefnogaeth a chyngor.

### 8.6.2. Cymorth a dderbyniwyd drwy’r Goedwig Genedlaethol

Mae'r safle wedi derbyn Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd i gyfrannu at reoli eu coetiroedd yn dda a sicrhau’r seilwaith angenrheidiol i'r gymuned gael mynediad at bren a'i gynaeafu. Er y bu’r cais am Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd yn heriol iddynt, roeddent yn gwerthfawrogi’r cymorth a gawsant gan y Swyddog Cyswllt Coetiroedd.

> 'Oni bai am gymorth a chyngor proffesiynol, ni fyddem byth wedi'i wneud. Roedd [y Swyddog Cyswllt Coetiroedd] yn hynod o gymwynasgar, amyneddgar a chalonogol.' (Tirfeddiannwr)

### 8.6.3. Cynllun Statws y Goedwig Cenedlaethol

Nid yw'r safle'n rhan o'r Goedwig Genedlaethol eto, ond mae cais ar y gweill ganddyn nhw ac maen nhw wedi derbyn cymorth gan Swyddog Cyswllt Coetiroedd.

### 8.6.4. Uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol

Yn gyffredinol, mae'r safle'n gadarnhaol ynglŷn â chysyniad Coedwig Genedlaethol Cymru ac yn pwysleisio’r ystod o fanteision o gynnwys coetiroedd cynhyrchiol sy'n hygyrch i bobl, ac yn eu cynnwys, fel agwedd gynhenid o'r rhaglen.

# 9. Atodiad C: Offer Ymchwil

## 9.1. Canllaw Trafod Cyfweliadau Cwmpasu

- Cyflwynwch eich hun a'ch rôl mewn perthynas â rhaglen y Goedwig Genedlaethol. Pa elfen neu ffrwd/ffrydiau o'r rhaglen ydych chi'n rhan ohonyn nhw?
- Sut fyddech chi'n crynhoi'r hyn y mae rhaglen y Goedwig Genedlaethol yn ceisio'i gyflawni'n gyffredinol?
- Beth fu eich profiad o'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni rhaglen y Goedwig Genedlaethol o 2022 ymlaen? [Awgrymiadau: cyflawni a manteisio ar y cynlluniau grant, cyflwyno'r Swyddogion Cyswllt Coetiroedd, lansio Cynllun Statws Coedwig Genedlaethol Cymru]
- Sut mae'r rhaglen wedi ymateb i wersi ac adborth ers ei lansio? A ydych chi'n ymwybodol o ganfyddiadau'r gwerthusiad o Brosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol? Os felly, sut mae'r rhaglen wedi ymateb i'r rhain?
- O'ch safbwynt chi, sut beth fyddai llwyddiant i'r rhaglen yn y tymor byr, canolig a hir? Wrth dymor byr rydym yn golygu 2025, tymor canolig erbyn 2030 a thymor hwy y tu hwnt i hyn.
- Pa systemau sydd ar waith ar hyn o bryd i fonitro ac asesu cynnydd y rhaglen o ran rheoli coetiroedd presennol a'u cysylltu ag ardaloedd newydd o goetir trwy blannu coed?
- Sut mae cynnydd yn erbyn y chwe chanlyniad lefel uchel ar gyfer y Goedwig Genedlaethol yn cael ei fesur? A oes unrhyw fylchau neu heriau yn y broses bresennol o fonitro a mesur?
- A oes unrhyw rwystrau i'w goresgyn i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd ar gyfer y rhaglen?
- A yw'r diddordeb a'r nifer sy'n manteisio ar y pedwar cynllun grant i hybu datblygiad y Goedwig Genedlaethol wedi bod ar y lefel a ragwelwyd ar ddechrau'r rhaglen? Os na, beth yw'r rhesymau dros hyn?
- Beth yw eich barn a'ch profiadau o weithrediad Cynllun Statws Coedwig Genedlaethol Cymru ers iddo gael ei lansio ym mis Mehefin 2023?
- Beth yw'r cyfleoedd allweddol ar gyfer y rhaglen dros y ddwy flynedd nesaf? Sut gall y rhain gael eu gwireddu? [Awgrymiadau: cefnogaeth gyhoeddus i adfer a chreu cynefinoedd, twf twristiaeth a hamdden gwyrdd].
- I ba raddau mae rhaglen y Goedwig Genedlaethol yn cyfrannu at bolisïau a strategaethau mewn perthynas ag a) newid hinsawdd, b) creu cymunedau cryf a chydlynol, c) cysylltu pobl â natur, ac ch) cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant? Pa ddulliau neu alluogwyr sydd angen bod ar waith i sicrhau'r cyfraniad hwn?
- Yn olaf, a oes gennych unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'r materion rydyn ni wedi'u trafod heddiw neu'r gwerthusiad o raglen y

Goedwig Genedlaethol yn fwy cyffredinol? Neu a oes unrhyw beth arall yn benodol y dylai'r gwerthusiad geisio ei archwilio?

## 9.2. Canllaw Trafod Cyfweliadau â Rheolwyr a Phartneriaid Cyllido / Buddsoddi

- Cyflwynwch eich hun a rhowch drosolwg o'ch rôl a sut mae hyn yn berthnasol i raglen Coedwig Genedlaethol Cymru.
- Beth yw eich dealltwriaeth o'r weledigaeth sy'n cael ei nodi yn strategaeth Coetiroedd i Gymru a sut ydych chi'n credu bod rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn cyfrannu at hyn?
- Beth yw eich barn chi ar gysyniad Coedwig Genedlaethol Cymru fel cysyniad i gyflawni'r weledigaeth sy'n cael ei nodi yn strategaeth Coetiroedd i Gymru? Beth yw eich barn chi am y rhaglen fel cysyniad i amddiffyn coetiroedd presennol?
- Pa mor dda y mae'r cysyniadau hyn wedi cael eu cyfleu a'u deall? A yw hyn wedi newid dros amser?
- Sut mae rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn cyd-fynd â strategaeth, gwerthoedd ac amcanion eich sefydliad eich hun?
- Ydych chi'n ymwybodol o ganfyddiadau Cynllun Prosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol? Os felly, a ydyn nhw wedi dylanwadu ar yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu o ran sut i gynorthwyo cyflawniad y Goedwig Genedlaethol?
- Beth yw eich barn ar effeithiolrwydd y gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd i gynorthwyo datblygiad y Goedwig Genedlaethol o 2022 ymlaen wrth ymgysylltu â pherchnogion safleoedd a'u hannog i ymuno â rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol?
    - Y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd
    - Fy Nghoeden, Ein Coedwig
    - Coetiroedd Bach
- [Ar gyfer Llais y Goedwig a Choed Cadw] Sut ydych chi wedi defnyddio canfyddiadau menter Fy Nghoeden, Ein Coedwig i gynorthwyo darpariaeth eich sefydliad eich hun i helpu i greu a chynnal a chadw coed? A yw hyn wedi llywio unrhyw weithgareddau eraill a fyddai'n cynorthwyo Coedwig Genedlaethol Cymru?
- Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer newidiadau neu welliannau i'r dulliau a ddefnyddiwyd i gynorthwyo datblygiad y Goedwig Genedlaethol?
- Beth fu proffil y derbynwyr grantiau rydych chi wedi'u cynorthwyo (e.e. sefydliadau neu unigolion)? A yw hyn fel y disgwyliwyd?
- Pa mor effeithiol y mae cymunedau (gan gynnwys cymunedau Cymraeg) yn cael eu cynnwys yng nghyflawniad y Goedwig Genedlaethol?
- Beth yw eich profiadau o weithredu eich darpariaeth ceisiadau a grantiau ar gyfer sefydliadau ac unigolion sydd wedi dewis gwneud cais i gynlluniau ariannu neu'r cynllun Statws yn y Gymraeg?

- Pa mor llwyddiannus y mae’r rhai sy’n derbyn eich grantiau wedi gweithredu’r cyllid maen nhw wedi’i dderbyn fel rhan o Raglen y Goedwig Genedlaethol? Ydyn nhw wedi gallu cyflawni'r hyn a nodwyd yn eu cais? Pa heriau maen nhw wedi eu hwynebu? Sut mae'r heriau hyn wedi cael eu goresgyn?
- Yn eich barn chi, sut mae'r grantiau rydych chi wedi bod yn ymwneud â nhw neu'r grantiau rydych chi'n eu goruchwylio wedi cyfrannu at Goedwig Genedlaethol Cymru?
- Sut mae darpariaeth grantiau Coedwig Genedlaethol Cymru yn ategu eich cyfres ehangach o grantiau?
- Beth yw eich barn a'ch profiadau o weithrediad Cynllun Statws Coedwig Genedlaethol Cymru ers iddo gael ei lansio ym mis Mehefin 2023?
- O'ch safbwynt chi, sut beth fyddai llwyddiant i’r rhaglen yn y tymor byr, canolig a hir? Wrth dymor byr rydym yn golygu 2025, tymor canolig erbyn 2030 a thymor hwy y tu hwnt i hyn.
- I ba raddau mae rhaglen y Goedwig Genedlaethol yn cyfrannu at bolisïau a strategaethau mewn perthynas ag a) newid hinsawdd, b) creu cymunedau cryf a chydlynol, c) cysylltu pobl â natur, ac ch) cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant? Pa ddulliau neu alluogwyr sydd angen bod ar waith i sicrhau'r cyfraniad hwn?
- Beth yw'r cyfleoedd allweddol ar gyfer y rhaglen dros y ddwy flynedd nesaf? Sut gall y rhain gael eu gwireddu? [Awgrymiadau: cefnogaeth gyhoeddus i adfer a chreu cynefinoedd, twf twristiaeth a hamdden gwyrdd].
- Mae'n ofynnol i safleoedd sydd wedi ymuno â'r Cynllun Statws lunio cynllun rheoli. Gan nad yw'r Cynllun Statws yn gyfle ariannu, sut ydych chi'n meddwl y gall adnoddau gael eu darparu ar gyfer rheoli'r safleoedd hyn yn y dyfodol?
- Yn olaf, a oes gennych unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'r materion rydyn ni wedi'u trafod heddiw neu'r gwerthusiad o raglen y Goedwig Genedlaethol yn fwy cyffredinol? Neu a oes unrhyw beth penodol y dylai'r gwerthusiad geisio ei archwilio nad ydym eisoes wedi'i drafod?

## 9.3. Canllaw Trafod Cyfweliad Cyfoeth Naturiol Cymru

- Cyflwynwch eich hun a rhowch drosolwg o'ch rôl a sut mae hyn yn berthnasol i raglen Coedwig Genedlaethol Cymru.
- Beth yw eich dealltwriaeth o'r weledigaeth sy'n cael ei nodi yn strategaeth Coetiroedd i Gymru a sut ydych chi'n credu bod rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn cyfrannu at hyn?
- Beth yw eich barn chi ar gysyniad Coedwig Genedlaethol Cymru fel cysyniad i gyflawni'r weledigaeth sy'n cael ei nodi yn strategaeth Coetiroedd i Gymru? Beth yw eich barn chi am y rhaglen fel cysyniad i amddiffyn coetiroedd presennol?
- Pa mor dda y mae'r cysyniadau hyn wedi cael eu cyfleu a'u deall? A yw hyn wedi newid dros amser?
- Beth yw eich barn ar Ddangosyddion Coetiroedd i Gymru fel dull i fesur cynnydd tuag at y strategaeth?
- Ydych chi'n ymwybodol o ganfyddiadau Cynllun Prosiectau Arddangos y Goedwig Genedlaethol? Os felly, a ydyn nhw wedi dylanwadu ar yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu o ran sut i gynorthwyo cyflawniad y Goedwig Genedlaethol?
- Beth yw eich barn ar effeithiolrwydd y gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd i gynorthwyo datblygiad y Goedwig Genedlaethol o 2022 ymlaen wrth ymgysylltu â pherchnogion safleoedd a'u hannog i ymuno â rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol?
  - Y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd
  - Fy Nghoeden, Ein Coedwig
  - Coetiroedd Bach
- Beth yw eich barn a'ch profiadau o weithrediad Cynllun Statws Coedwig Genedlaethol Cymru ers iddo gael ei lansio ym mis Mehefin 2023?
- Pa newidiadau a fu i reolaeth ddyddiol safleoedd Ystad Goetir Llywodraeth Cymru nawr eu bod yn rhan o rwydwaith y Goedwig Genedlaethol?
- A fu unrhyw effaith ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ers cael ei dynodi'n safleoedd y Goedwig Genedlaethol? Er enghraifft, proffil uwch, niferoedd uwch o ymwelwyr neu fwy o fuddsoddiad.
- Pa effaith, os o gwbl, y mae cyflwyno'r Goedwig Genedlaethol fel cysyniad wedi'i chael ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn strategol ac yn ymarferol?
- O'ch safbwynt chi, sut beth fyddai llwyddiant i'r rhaglen yn y tymor byr, canolig a hir? Wrth dymor byr rydym yn golygu 2025, tymor canolig erbyn 2030 a thymor hwy y tu hwnt i hyn.
- I ba raddau mae rhaglen y Goedwig Genedlaethol yn cyfrannu at bolisïau a strategaethau mewn perthynas ag a) newid hinsawdd, b) creu cymunedau cryf a chydlynol, c) cysylltu pobl â natur, ac ch) cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant? Pa ddulliau neu alluogwyr sydd angen bod ar waith i sicrhau'r cyfraniad hwn?

- Beth yw'r cyfleoedd allweddol ar gyfer y rhaglen dros y ddwy flynedd nesaf? Sut gall y rhain gael eu gwireddu? [Awgrymiadau: cefnogaeth gyhoeddus i adfer a chreu cynefinoedd, twf twristiaeth a hamdden gwyrdd].
- Yn olaf, a oes gennych unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'r materion rydyn ni wedi'u trafod heddiw neu'r gwerthusiad o raglen y Goedwig Genedlaethol yn fwy cyffredinol? Neu a oes unrhyw beth penodol y dylai'r gwerthusiad geisio ei archwilio nad ydym eisoes wedi'i drafod?

## 9.4. Canllaw Trafod Cyfweliad â Swyddogion Cyswllt Coetiroedd

- Cyflwynwch eich hun a rhowch drosolwg o'ch rôl fel Swyddog Cyswllt Coetiroedd.
- Oes gennych chi brofiad blaenorol o adfer a chreu coetiroedd neu o gysylltu â pherchnogion coetiroedd cyn y rôl hon?
- Rhowch drosolwg o'ch rôl a natur y cymorth a ddarparwch (e.e. cymorth ar gyfer y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd, Coetiroedd Bach a Chynllun Statws Coedwig Genedlaethol Cymru).
- Beth yw eich dealltwriaeth o'r weledigaeth sy'n cael ei nodi yn strategaeth Coetiroedd i Gymru a sut ydych chi'n credu bod rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru yn cyfrannu at hyn?
- A yw tirfeddianwyr/rheolwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol yn deall cysyniad rhaglen y Goedwig Genedlaethol? A oes unrhyw heriau wedi'u hwynebu o ran dealltwriaeth tirfeddianwyr neu'r cyhoedd yn gyffredinol o'r cysyniad?
- Disgrifiwch y trefniadau rheoli ar gyfer y tîm Cyswllt Coetiroedd. Pa mor effeithiol fu hyn? Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella'r dull rheoli presennol?
- Sut ydych chi'n rhyngweithio â'r Swyddogion Cyswllt Coetiroedd eraill y tu allan i'ch rhanbarth Datganiad Ardal?
- Pa gyfleoedd hyfforddiant neu ddatblygiad proffesiynol ydych chi wedi'u derbyn i'ch cynorthwyo i gyflawni eich rôl? A oes unrhyw fylchau yn yr hyfforddiant y mae angen mynd i'r afael â nhw?
- Yn seiliedig ar eich profiad hyd yma, beth yw lefel yr ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth ymhlith perchnogion coetiroedd o Strategaeth Coetiroedd i Gymru a Chynllun Statws Coedwig Genedlaethol Cymru?
- Pa weithgareddau ydych chi wedi'u gwneud i hyrwyddo eich rôl a'r cymorth y gallwch chi ei ddarparu? (e.e. sut mae tirfeddianwyr/rheolwyr yn cael eu hadnabod a'u cynnwys)? Pa mor aml ydych chi'n ymgysylltu â nhw?
- Pa ddulliau ydych chi wedi'u defnyddio i ymgysylltu â pherchnogion coetiroedd ledled eich rhanbarth? Oes unrhyw grwpiau o berchnogion rydych chi wedi cael trafferth eu cyrraedd a pha gamau ydych chi wedi'u cymryd i fynd i'r afael â hyn?
- Beth yw eich barn ar ddyluniad y Cynllun Statws? Er enghraifft, y cydbwysedd rhwng y canlyniadau hanfodol a hyblyg?
- A oes unrhyw agweddau ar y Cynllun Statws presennol y teimlwch a allai fod yn annog perchnogion coetiroedd i beidio ag ymuno? Er enghraifft, y broses ymgeisio, y gofyniad am gynllun rheoli coetir neu gymorth ariannu parhaus ar gyfer safleoedd sy'n ymuno â'r cynllun?
- Ar sail eich profiad hyd yma, beth yw lefel yr ymwybyddiaeth ymhlith perchnogion coetiroedd o'r cyfleoedd ariannu sydd ar gael iddynt i helpu i ddod â choetiroedd i mewn i rwydwaith y Goedwig Genedlaethol? A yw hyn yn amrywio yn ôl math o berchennog (e.e. ffermwr, awdurdod lleol, grŵp cymunedol)?

- Beth yw eich profiad hyd yn hyn o gynnig cymorth i ddarpar ymgeiswyr ar gyfer y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd a Choetiroedd Bach?
    - Y dyluniad, y broses ymgeisio a lefel y cyllid sydd ar gael?
    - Cysylltu â darpar ymgeiswyr?
    - Pa mor ddeniadol ydynt nhw i ddarpar ymgeiswyr?
    - Gofynion monitro ac adrodd?
- I ba raddau y bu ar berchnogion coetiroedd angen meithrin capasiti, gwybodaeth, a/neu sicrwydd i'w hannog i gyflwyno ceisiadau i'r cynlluniau uchod?
- Pa fath o safleoedd ydych chi wedi gallu dod â nhw i mewn i'r Goedwig Genedlaethol? Pa fanteision ydych chi'n credu bod y safleoedd hyn yn eu dwyn i Gymru?
- Ydych chi wedi profi unrhyw heriau wrth gyflawni eich rôl o gynorthwyo perchnogion coetiroedd? Sut aethpwyd i'r afael â'r heriau hyn? Pa gymorth ydych chi wedi'i dderbyn?
- Disgrifiwch sut rydych chi wedi gweithio gyda safleoedd a allai fod angen mwy o gymorth i'w cynnwys yn rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol.
- I ba raddau ydych chi'n teimlo eich bod chi wedi annog perchnogion coetiroedd i fabwysiadu arferion gorau mewn perthynas â rheoli a chreu coetiroedd?
- A allwch chi awgrymu unrhyw feysydd i'w datblygu neu wella mewn perthynas â rôl y tîm Cyswllt Coetiroedd? Er enghraifft, lefel a natur y cymorth y gellir ei ddarparu i safleoedd a allai fod yn anoddach eu cynnwys yn rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol.
- A oes gennych unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'r materion rydyn ni wedi'u trafod heddiw neu'r gwerthusiad o raglen y Goedwig Genedlaethol yn fwy cyffredinol? Neu a oes unrhyw beth penodol y dylai'r gwerthusiad geisio ei archwilio nad ydym eisoes wedi'i drafod?
- Yn olaf, bydd ein gwerthusiad yn gobeithio casglu barn ar raglen y Goedwig Genedlaethol a safleoedd sydd wedi ymuno â'r Cynllun Statws gan bobl sydd wedi ymweld â'r safleoedd a'r rhai nad ydynt wedi gwneud hynny. Oes gennych chi unrhyw farn neu awgrymiadau ar ein dull o gyrraedd ac ymgysylltu â chymunedau lleol?

## 9.5. Arolwg Aelodau a Derbynwyr Grantiau Rhwydwaith y Goedwig Genedlaethol

- Pa un o ddulliau cymorth canlynol y Goedwig Genedlaethol y mae eich sefydliad wedi gwneud cais amdano: [Dewis lluosog] Dewiswch **bob** dull cymorth y gwnaethoch wneud cais amdanynt.
    - Fy Nghoeden, Ein Coedwig (neu'r fenter Plannu coeden i mi)
    - Cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd
    - Cyllid Coetiroedd Bach
    - Cymorth / cyngor gan Swyddogion Cyswllt Coetiroedd sydd wedi'u lleoli yng Nghyfoeth Naturiol Cymru ar gyflawni Statws Coedwig Genedlaethol
    - Dim [Diwedd yr arolwg]
- Pa un o ddulliau cymorth canlynol y Goedwig Genedlaethol y mae eich sefydliad wedi'i dderbyn: [Dewis lluosog] Dewiswch bob dull cymorth y gwnaethoch gais amdano ac y gwnaethoch ei dderbyn ar gyfer y prosiect.
    - Fy Nghoeden, Ein Coedwig (neu'r fenter Plannu coeden i mi)
    - Cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd
    - Cyllid Coetiroedd Bach
    - Cymorth / cyngor gan Swyddogion Cyswllt Coetiroedd sydd wedi'u lleoli yng Nghyfoeth Naturiol Cymru ar gyflawni Statws Coedwig Genedlaethol
    - Dim [Diwedd yr arolwg]
- [Os caiff dolen arolwg ddienw ei rhannu] Rhowch enw eich sefydliad:
- [Os caiff dolen arolwg ddienw ei rhannu] Rhowch enw eich prosiect:
- [Os caiff dolen arolwg ddienw ei rhannu] Rhowch god post eich safle:
- A yw eich safle wedi gwneud cais am Gynllun Statws y Goedwig Cenedlaethol?
    - Ydy - mae ein safle wedi gwneud cais am statws y Goedwig Genedlaethol ac wedi'i gyflawni
    - Ydy - mae ein safle wedi gwneud cais ac rydym yn aros am ganlyniad ein cais am statws y Goedwig Genedlaethol
    - Na, ond rydym yn gweithio tuag at allu gwneud cais
    - Na, ond rydym yn bwriadu gwneud cais am statws y Goedwig Genedlaethol yn y dyfodol.
    - Na, ac nid oes gennym unrhyw gynlluniau i wneud cais am statws y Goedwig Genedlaethol yn y dyfodol.
    - Dydw i ddim yn siŵr

- [Os Na ac nad oes unrhyw gynlluniau i wneud cais i C6] Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau pam nad yw eich safle yn gwneud cais am statws y Goedwig Genedlaethol? [Dewis lluosog]
    - Nid oes gennym yr amser/adnoddau staff i wneud cais i'r cynllun
    - Nid oes gennym yr amser/adnoddau staff i ddatblygu'r dystiolaeth ofynnol ar gyfer y cynllun e.e. cynllun rheoli coetiroedd
    - Dydyn ni ddim yn hyderus y byddai cais ein safle yn cael ei gymeradwyo
    - Dydyn ni ddim am dreulio amser yn gwneud y gwaith papur angenrheidiol i wneud cais i'r cynllun.
    - Dydyn ni ddim yn gwybod digon am y cynllun i wybod a yw'n addas ar gyfer ein safle ni.
    - Dydyn ni ddim yn teimlo bod y cynllun yn briodol ar gyfer ein safle.
    - Arall
        - Rhowch unrhyw fanylion ychwanegol: [Ymateb agored/fideo]
        - [Os Na ac nad oes unrhyw gynlluniau i wneud cais i C6] A oes unrhyw gymorth ychwanegol a fyddai'n caniatáu ichi wneud cais i Gynllun y Goedwig Genedlaethol? Os felly, disgrifiwch: [Ymateb agored/fideo]
- Oeddech chi wedi clywed am Goedwig Genedlaethol Cymru cyn derbyn [y dulliau cymorth wedi'u hadu o C1]?
    - Oeddwn
    - Nac oeddwn
    - Dydw i ddim yn gwybod
- Beth, yn eich barn chi, yw Coedwig Genedlaethol Cymru?

  [Ymateb agored/fideo]
- Pam wnaeth eich sefydliad wneud cais am [y dull cymorth wedi'i hadu o C2] a'i dderbyn? Eglurwch pam y gwnaethoch gais am y cymorth hwn a beth oeddech chi'n edrych i'w gael allan o'r cymorth [Ymateb agored/fideo]
- [Os cafwyd mynediad at ddulliau cymorth ariannu yn C2] A wnaethoch chi wneud cais am gyllid yn Saesneg neu'n Gymraeg?
- [Os cafwyd mynediad at ddulliau cymorth ariannu yn C2] Pa osodiad isod sy'n adlewyrchu orau eich profiad o wneud cais am [hadu cyllid o C2]:
    - Roedd y broses yn glir ac yn syml iawn
    - Roedd y broses yn eithaf clir a syml
    - Roedd y broses yn eithaf aneglur ac yn heriol
    - Roedd y broses yn aneglur ac yn heriol iawn
    - Dydw i ddim yn gwybod

        - Doeddwn i ddim yn rhan o'r broses hon
            - [Pob ateb ac eithrio 'Doeddwn i ddim yn rhan o'r broses hon'] Pam rydych chi'n dweud hynny?
- [Os defnyddiwyd dulliau cymorth ariannu C2] Sut, os o gwbl, y gellid gwella'r broses ymgeisio hon yn y dyfodol? [Ymateb agored/fideo]

  [Adran ar gyfer ymatebwyr sy'n nodi yn C3 eu bod wedi cael mynediad at gyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd]

- A gawsoch chi gymorth neu gyngor gan eich Swyddog Cyswllt Coetiroedd wrth wneud cais am Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd?
    - Do
    - Naddo
    - Dydw i ddim yn gwybod
- [Os Do i Gwestiwn 13] Pa mor effeithiol oedd y cymorth a gafodd eich sefydliad gan eich Swyddog Cyswllt Coetiroedd ar eich cais am Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd?
    - Effeithiol iawn
    - Eithaf effeithiol
    - Ddim yn effeithiol nac yn aneffeithiol
    - Ddim yn effeithiol iawn
    - Ddim yn effeithiol o gwbl
    - Dydw i ddim yn gwybod
        - Pam ydych chi'n dweud hynny?
        - Sut, os o gwbl, y gellid bod wedi gwella'r cyngor hwn gan y Swyddog Cyswllt Coetiroedd?
- A gawsoch chi gymorth neu gyngor gan eich Rheolwr Buddsoddi yng Nghronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol wrth wneud cais am Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd?
    - Do
    - Naddo
    - Dydw i ddim yn gwybod
- [Os Do i Gwestiwn 15] Pa mor effeithiol oedd y cymorth a gafodd eich sefydliad gan eich Rheolwr Buddsoddi yng Nghronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar eich cais am Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd?
    - Effeithiol iawn
    - Eithaf effeithiol
    - Ddim yn effeithiol nac yn aneffeithiol

    - Ddim yn effeithiol iawn
    - Ddim yn effeithiol o gwbl
    - Dydw i ddim yn gwybod
        - Pam ydych chi'n dweud hynny?
        - Sut, os o gwbl, y gellid bod wedi gwella'r cyngor hwn?
- Unwaith i'ch cais fod yn llwyddiannus, i ba raddau oeddech chi'n fodlon â'r cymorth parhaus a gawsoch gan eich Rheolwr Buddsoddi yn y Gronfa Dreftadaeth?

  [Cwestiwn matrics gydag atebion ar gyfer y ddau opsiwn: Bodlon iawn, Eithaf bodlon, Ddim yn fodlon nac yn anfodlon, Eithaf anfodlon, Anfodlon iawn, Ddim yn gwybod]
    - Pam ydych chi'n dweud hynny?
    - Sut, os o gwbl, y gellid bod wedi gwella'r cyngor hwn?
- Beth oeddech chi'n ceisio ei gyflawni drwy’r Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd? [Ymateb agored/fideo]
- Pa rai o'r canlyniadau canlynol ydych chi'n teimlo bod eich sefydliad yn eu cyflawni o ganlyniad i'ch cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd: [Dewis lluosog]
    - Coetiroedd gwydn o ansawdd da, wedi'u dylunio a’u rheoli'n dda
    - Coetiroedd sy'n hygyrch i bobl
    - Y gymuned yn cymryd rhan mewn coetiroedd
    - Coetiroedd cysylltiedig
    - Coetiroedd a choed deinamig, amlbwrpas
    - Coetiroedd sy'n dangos dysgu, ymchwil ac arloesi
- Faint o gynnydd y mae eich sefydliad wedi'i wneud o ran cyflawni'r nodau a'r canlyniadau hyn? Dewiswch y gosodiad sy'n disgrifio eich ymateb orau.
    - Llawer o gynnydd - rydym wedi gweld tystiolaeth i awgrymu ein bod wedi cyflawni'r nodau a'r canlyniadau hyn
    - Rhywfaint o gynnydd - rydym yn gweld rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu ein bod yn dechrau cyflawni'r nodau a'r canlyniadau hyn
    - Dim cynnydd - nid ydym wedi gweld tystiolaeth i awgrymu ein bod yn dechrau cyflawni'r nodau a'r canlyniadau hyn eto
        - [Os nad oes cynnydd] Pam ydych chi'n meddwl mai dyma’r achos? Eglurwch a oes unrhyw rwystrau allanol sydd wedi atal cynnydd neu a yw'n rhy gynnar i weld cynnydd.
        - [Os oes llawer neu rywfaint o gynnydd] Sut, os o gwbl, y mae'r cynnydd hwn wedi'i fesur?

- [Os gwnaed cais am statws y Goedwig Genedlaethol neu'n bwriadu gwneud cais yn C6] Yn eich barn chi, faint mae cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi dylanwadu ar eich gallu i wneud cais am Statws y Goedwig Genedlaethol, os o gwbl?
    - Chwaraeodd cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd ran fawr wrth ein helpu i fod mewn sefyllfa i wneud cais am gyllid
    - Chwaraeodd cyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd ran fach wrth ein helpu i gyrraedd sefyllfa lle gallem wneud cais am gyllid
    - Byddem wedi bod mewn sefyllfa i wneud cais am Statws y Goedwig Genedlaethol, waeth beth am gyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd
    - Dydw i ddim yn gwybod
        - Eglurwch eich ateb:
- A yw cyllid y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd wedi arwain at unrhyw newidiadau eraill ar eich safle neu i'ch safle? Gall newidiadau gynnwys newidiadau cadarnhaol a/neu negyddol sydd wedi digwydd. [Ymateb agored/fideo]
- A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol wedi digwydd o ganlyniad i gyllid Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd eich safle? Gall hyn gynnwys canlyniadau nad oeddech chi'n eu rhagweld wrth wneud cais am y cyllid
    - Oes
    - Nac oes
    - Dydw i ddim yn gwybod
        - [Os oes] Rhowch fanylion y canlyniad(au) anfwriadol:

[Adran ar gyfer ymatebwyr sy'n nodi yn C3 eu bod wedi cael mynediad at gyllid Coetiroedd Bach]

- A gawsoch chi gymorth neu gyngor gan eich Swyddog Cyswllt Coetiroedd wrth wneud cais am gyllid Coetiroedd Bach?
    - Do
    - Naddo
    - Dydw i ddim yn gwybod
- [Os Do i C22] Yn eich barn chi, pa mor effeithiol oedd y cymorth a gafodd eich sefydliad gan eich Swyddog Cyswllt Coetiroedd ar eich cais Coetiroedd Bach?
    - Effeithiol iawn
    - Eithaf effeithiol
    - Ddim yn effeithiol nac yn aneffeithiol
    - Ddim yn effeithiol iawn
    - Ddim yn effeithiol o gwbl
    - Dydw i ddim yn gwybod

        - Pam ydych chi'n dweud hynny?

- Yn eich barn chi, pa mor effeithiol oedd yr hyfforddiant a dderbyniwyd gan Earthwatch i greu Coetir Bach?
    - Effeithiol iawn
    - Eithaf effeithiol
    - Ddim yn effeithiol nac yn aneffeithiol
    - Ddim yn effeithiol iawn
    - Ddim yn effeithiol o gwbl
    - Dydw i ddim yn gwybod
        - Pam ydych chi'n dweud hynny?
- Unwaith y bu eich cais yn llwyddiannus, i ba raddau oeddech chi'n fodlon â'r cymorth parhaus a gawsoch gan:
    - Earthwatch
    - Eich Rheolwr Buddsoddi yn y Gronfa Dreftadaeth

    [Cwestiwn matrics gydag atebion ar gyfer y ddau opsiwn: Bodlon iawn, Eithaf bodlon, Ddim yn fodlon nac yn anfodlon, Eithaf anfodlon, Anfodlon iawn, Ddim yn gwybod]
- Oes unrhyw gymorth arall yr hoffai eich sefydliad fod wedi'i dderbyn ynglŷn â'ch Coetir Bach?
- Sut mae eich Coetir Bach yn cael ei gynnal a'i gynnal a'i gadw? Yn eich ateb, nodwch unrhyw achos o gynnwys y gymuned. [Ymateb agored/fideo]
- A yw eich sefydliad wedi wynebu unrhyw heriau wrth greu neu gynnal a chadw eich Coetir Bach?
    - Ydy
    - Nac ydy
    - Dydw i ddim yn gwybod
        - [Os Ydy] Eglurwch yr her(iau) a wynebwyd gennych, gan gynnwys a ydych chi wedi'u goresgyn a sut y gwnaethoch chi eu goresgyn:
- A yw'r Fenter Coetir Bach wedi arwain at unrhyw newidiadau eraill i'ch safle? Gall hyn gynnwys newidiadau cadarnhaol a/neu negyddol [Ymateb agored/fideo]

  [Adran ar gyfer ymatebwyr Statws y Goedwig Genedlaethol sy'n nodi yn C2 eu bod wedi cael mynediad at gymorth / cyngor gan Swyddogion Cyswllt Coetiroedd]
- Yn eich barn chi, pa mor effeithiol oedd y cyngor a'r cymorth gan eich Swyddog Cyswllt Coetiroedd ar eich cais am Gynllun Statws y Goedwig Genedlaethol?
    - Effeithiol iawn

    - Eithaf effeithiol
    - Ddim yn effeithiol nac yn aneffeithiol
    - Ddim yn effeithiol iawn
    - Ddim yn effeithiol o gwbl
    - Dydw i ddim yn gwybod
        - Pam ydych chi'n dweud hynny?
- A wnaeth y cyngor a'r arweiniad gan y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd eich helpu i ddeall yn well beth yw Coedwig Genedlaethol Cymru?
    - Do, roedd yn ddefnyddiol iawn
    - Do, roedd yn eithaf defnyddiol
    - Nid oedd yn ddefnyddiol nac yn annefnyddiol – roedd gen i ddealltwriaeth dda eisoes
    - Na, roedd yn eithaf annefnyddiol
    - Na, roedd yn annefnyddiol iawn
    - Amherthnasol - Dydw i ddim wedi derbyn arweiniad na chyngor gan Swyddogion Cyswllt Coetiroedd ar beth yw'r Goedwig Genedlaethol
    - Dydw i ddim yn gwybod
        - Eglurwch eich ateb: [Ymateb agored/fideo]
- A oes unrhyw gymorth arall yr hoffai eich sefydliad fod wedi'i derbyn ynghylch eich cais am statws y Goedwig Genedlaethol?
- [Os bu’r cais yn llwyddiannus C6] Yn eich barn chi, a yw eich sefydliad wedi elwa o fod yn rhan o Rwydwaith y Goedwig Genedlaethol? Gall hyn gynnwys cael mynediad at adnoddau, cydweithio ag aelodau eraill y Rhwydwaith neu fynychu seminarau ar-lein a digwyddiadau wyneb yn wyneb.
    - Rydym wedi elwa llawer
    - Rydym wedi elwa ychydig
    - Dydyn ni ddim wedi elwa llawer
    - Dydyn ni ddim wedi elwa o gwbl
    - Dydw i ddim yn gwybod
        - Pam ydych chi'n dweud hynny? [Ymateb agored/fideo]
        - Sut allai'r Rhwydwaith esblygu i gynorthwyo eich sefydliad yn well? E.e. Oes unrhyw adnoddau penodol, cyfleoedd i gydweithio, neu bynciau yr hoffech chi eu gweld yn cael sylw drwy ddigwyddiadau neu fentrau yn y dyfodol?
- [Os bu’r cais yn llwyddiannus C6] Pa mor debygol yw hi y byddech chi wedi cyflawni statws y Goedwig Genedlaethol heb gymorth eich Swyddog Cyswllt Coetiroedd?

    - Tebygol iawn
    - Eithaf tebygol
    - Ddim yn debygol nac yn annhebygol
    - Eithaf annhebygol
    - Annhebygol iawn
    - Dydw i ddim yn gwybod
        - Pam ydych chi'n dweud hynny?

- Sut, os o gwbl, y mae eich sefydliad wedi newid rheolaeth ei safle(oedd) ers ennill statws y Goedwig Genedlaethol?
    - Llawer
    - Rhywfaint
    - Ddim o gwbl
    - Dydw i ddim yn gwybod
        - Eglurwch eich ateb:
- [Hadu geiriad o C6] A yw [ceisio am/ennill] Statws y Goedwig Genedlaethol wedi arwain at unrhyw newid (cadarnhaol neu negyddol) i'ch coetir(oedd)? [Ymateb agored/fideo]
- [Os Na i C6] A oes gan eich safle gynllun rheoli safle ar hyn o bryd?
    - Oes
    - Nac oes
    - Dydw i ddim yn gwybod
- A yw eich sefydliad wedi derbyn unrhyw gymorth neu gyllid arall i gynorthwyo eich safle/prosiect:
    - Ydy
    - Nac ydy
    - Dydw i ddim yn gwybod
        - (Os 'Ydy') Rhowch fanylion.
- [Os Ydy i Gwestiwn 6] Mae Cynllun Statws y Goedwig Genedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad sy'n cymryd rhan greu cynllun rheoli ar gyfer cynnal eu safleoedd sy’n rhan o’r Goedwig Genedlaethol. Wrth edrych ymlaen, sut ydych chi'n bwriadu darparu adnoddau ar gyfer y gwaith cynnal a chadw sy’n cael ei amlinellu yng nghynllun rheoli eich safle? [Ymateb agored/fideo]
- Gan edrych ymlaen, pa fath o weithgarwch neu ymyrraeth hoffech chi ei weld gan Goedwig Genedlaethol Cymru i gynorthwyo eich coetir/safle(oedd)? [Ymateb agored/fideo]

- Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, byddwn yn gwahodd nifer o aelodau'r rhwydwaith a derbynwyr grantiau i gymryd rhan mewn cyfweliad byr gydag un o'n hymchwilwyr. Pwrpas y cyfweliad hwn yw ymchwilio'n ddyfnach i ymatebion yr arolwg a chael gwell dealltwriaeth o brofiadau o raglen y Goedwig Genedlaethol. A fyddai gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan?
    - Byddai
    - Ni fyddai
        - [Os Byddai] Rhowch eich manylion cyswllt isod:
- Oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei rannu am eich profiad o Raglen y Goedwig Genedlaethol?

Canllaw Trafod Cyfweliad â Rhanddeiliaid a Gynorthwywyd

- A gaf i gadarnhau'r dulliau cymorth y gwnaeth eich sefydliad wneud cais amdanynt a pha rai, os o gwbl, a gawsoch chi?
- Beth yw eich uchelgeisiau ar gyfer eich safle coetir? (e.e. creu coetir, darparu cyfleoedd dysgu, cysylltu pobl â natur)
- Cyn cael mynediad at gymorth drwy [dull cymorth Coedwig Genedlaethol Cymru a dderbyniwyd], beth oedd eich cynlluniau i wireddu'r uchelgeisiau hyn?
  - A wnaeth y cymorth a gawsoch gan [dull cymorth Coedwig Genedlaethol Cymru a nodwyd] newid yr uchelgeisiau hyn o gwbl?
- Fe sonioch chi fod eich sefydliad yn cyflawni yn erbyn y nodau a'r canlyniadau canlynol [ychwanegu manylion o'r arolwg]. A allwch chi roi manylion am eich cynnydd wrth gyflawni'r canlyniadau hyn?

[Noder: Mae’r adran hon o gwestiynau yn berthnasol yn unig i safleoedd sy'n rhan o gynllun y Goedwig Genedlaethol ac sydd wedi datblygu eu cynllun rheoli. Noder bod y Cynllun Statws yn ei gwneud yn ofynnol i safleoedd feddu ar gynllun rheoli ar gyfer y coetiroedd eu hunain e.e. rheoli coetiroedd yn gynaliadwy yn hytrach na rheoli'r safle yn gyffredinol e.e. parcio ceir.]

- Ydych chi wedi newid rheolaeth eich coetir o ganlyniad i wneud cais am Statws y Goedwig Genedlaethol neu ennill y statws hwnnw? Os felly, pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud?
- Sut ydych chi'n darparu adnoddau ar gyfer cyflawni eich cynllun rheoli ar hyn o bryd? Pa mor gynaliadwy neu ddiogel yw eich cyllid neu adnoddau presennol?
- Ydych chi wedi profi unrhyw heriau neu rwystrau wrth weithredu eich cynllun rheoli [lle bo'n berthnasol]?
- Ydych chi'n ymwybodol o/yn chwilio'n weithredol am gyllid i’ch helpu i gyflawni eich cynllun rheoli? Os ydych, rhowch fanylion.
- A yw dod yn rhan o'r Goedwig Genedlaethol wedi effeithio ar y ffordd rydych chi'n rheoli eich safle cyfan yn fwy cyffredinol?
- Ydych chi wedi ymgysylltu â chymunedau lleol (gan gynnwys cymunedau Cymraeg) wrth i chi:
  - Gweithredu cyllid grant [e.e. y Grant Buddsoddi mewn Coetiroedd neu ddull cymorth arall a gawsoch]?
  - [Os yn rhan o'r Goedwig Genedlaethol] Gweithredu eich cynllun rheoli?

[Holi am y mathau o weithgareddau maen nhw'n eu gwneud i ymgysylltu â chymunedau lleol ac a oes yna unrhyw waith allgymorth i grwpiau penodol yn y gymuned]

- Pa gymunedau ydych chi wedi ymgysylltu â nhw (e.e. cymunedau lleol neu gymunedau ehangach) a pha ddulliau ydych chi wedi'u defnyddio?

- Ydych chi wedi profi unrhyw heriau neu rwystrau wrth ymgysylltu â chymunedau neu eu cynnwys?
- Oes unrhyw gymunedau neu grwpiau yr hoffech chi ymgysylltu â nhw rydych chi wedi cael trafferth eu cyrraedd?
- Pa effeithiau mae ymwneud â'r Goedwig Genedlaethol wedi'u cael ar eich safle?
- [Os yw gwella mynediad wedi'i nodi yn yr ymatebion i'r arolwg] I ba raddau ydych chi'n credu bod eich rhan yn rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru wedi gwella mynediad i'ch safle neu y bydd yn gwneud hynny? [Awgrymiad: a yw hyn yn gwneud y safle yn fwy hygyrch e.e. llwybrau hygyrch neu'n cynyddu ymgysylltiad y cyhoedd â'r safle e.e. hyrwyddo]
- Pa ganlyniadau ydych chi'n credu bod eich safle coetir yn eu cyflawni i ymwelwyr/defnyddwyr/cymunedau lleol?
- Oes gennych chi unrhyw syniadau neu awgrymiadau ar gyfer gwerthuso eich effaith yn y dyfodol?
- A fu unrhyw ganlyniadau anfwriadol i'ch safle coetir o ganlyniad i'ch rhan yn rhaglen Coedwig Genedlaethol Cymru? Os felly, rhowch fanylion. (e.e. partneriaethau newydd, cynnydd yn nifer yr ymwelwyr)
- Pam roedd hi'n bwysig i chi wneud cais am Gynllun Statws y Goedwig Genedlaethol? Beth wnaeth eich arwain i wneud cais?
- Pa wahaniaeth mae bod yn rhan o'r Cynllun Statws wedi'i olygu i'ch safle? (holwch am broffil, mynediad at gymorth ac arweiniad, cyfeirio at gyllid)
- A yw arwyddion a gwaith hyrwyddo'r Goedwig Genedlaethol sy'n dangos eich bod yn rhan o safle'r Goedwig Genedlaethol wedi cael unrhyw effeithiau ar eich safle [lle bo'n berthnasol]?
    - [Os na ddefnyddiwyd arwyddion] A oes unrhyw resymau pam mae eich safle wedi dewis peidio â defnyddio'r arwyddion hyn?
- Ydych chi'n rhan o Rwydwaith Coedwig Genedlaethol Cymru ar hyn o bryd?
- Os ydych, pa mor ddefnyddiol fu'r rhain ar gyfer datblygu'r hyn rydych chi wedi dysgu a llywio rheolaeth eich safle coetir? Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer newidiadau i sut mae'r rhwydwaith yn cael ei weinyddu ar hyn o bryd a fyddai o fudd i chi neu eich safle?
- Os nad oes, a fyddai gennych chi ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y rhwydwaith?
- Oes unrhyw feysydd, pynciau neu themâu yr hoffech chi eu gweld yn cael eu cynnwys mewn cyfarfodydd rhwydwaith i gynorthwyo eich gwaith cyflawni?
- Pa fath o weithgarwch neu ymyrraeth hoffech chi ei weld gan Goedwig Genedlaethol Cymru neu Lywodraeth Cymru i gynorthwyo eich coetir/safle? [ychwanegu manylion o'r ymateb i'r arolwg]

- Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer sut y gallai'r Swyddogion Cyswllt Coetiroedd eich cynorthwyo i gyflawni eich uchelgeisiau ar gyfer eich safle coetir? Er enghraifft, unrhyw newidiadau i'r math neu'r lefel o gymorth maen nhw'n ei gynnig?
- Pa gymorth arall, os o gwbl, allwch chi gael mynediad ato y tu allan i dîm y Swyddogion Cyswllt Coetiroedd i'ch cynorthwyo i gyflawni eich uchelgeisiau ar gyfer eich safle coetir?
- Ydych chi'n credu bod ennill Statws Coedwig Genedlaethol Cymru wedi helpu eich safle i gael mynediad at neu sicrhau cyfleoedd ariannu pellach?
- Ydych chi wedi cymryd rhan mewn unrhyw raglenni coedwigaeth tebyg eraill yn y gorffennol? Os felly, rhowch fanylion.